Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol

(7513-03/13/30/40)

Pecyn asesu

www.cityandguilds.com
Medi 2019
Fersiwn 4.4

Ynglŷn â City & Guilds
City & Guilds yw prif ddarparwr cymwysterau galwedigaethol y DU, gan gynnig dros 500 o ddyfarniadau ar draws ystod eang o ddiwydiannau, gan symud ymlaen o lefel mynediad i'r lefelau uchaf o gyflawniad proffesiynol. Gyda mwy nag 8500 o ganolfannau mewn 100 o wledydd, caiff City & Guilds ei gydnabod gan gyflogwyr ledled y byd am ddarparu cymwysterau sy'n cynnig prawf o'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael gwaith wedi'i wneud.

Grŵp City & Guilds
Mae Grŵp City & Guilds yn arwain y gwaith o ddatblygu sgiliau byd-eang. Ein diben yw helpu pobl a sefydliadau i ddatblygu eu sgiliau ar gyfer twf personol ac economaidd. Yn cynnwys City & Guilds, City & Guilds Kineo The Oxford Group ac ILM, rydym yn gweithio gyda darparwyr addysg, busnesau a llywodraethau mewn dros 100 o wledydd.

Cyfle cyfartal
Mae City & Guilds yn llwyr gefnogi'r egwyddor o gyfle cyfartal ac rydym wedi ymrwymo i fodloni'r egwyddor hon yn ein holl weithgareddau a deunydd cyhoeddedig. Mae copi o'n datganiad polisi cyfle cyfartal ar gael ar ein gwefan.

Hawlfraint
Mae cynnwys y ddogfen hon, oni nodir yn wahanol, yn hawlfraint © City & Guilds Limited ac ni ellir ei gopïo, ei atgynhyrchu na'i ddosbarthu heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

Fodd bynnag, gall canolfannau City & Guilds cymeradwy ac ymgeiswyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau City & Guilds lungopïo'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim a/neu gynnwys fersiwn PDF ohoni ar fewnrwyd y ganolfan ar yr amodau canlynol:

- caiff staff canolfannau gopïo'r deunydd yn unig ar gyfer dibenion addysgu ymgeiswyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster City & Guilds, neu at ddibenion gweinyddol mewnol
- gall ymgeiswyr gopïo'r deunydd at eu defnydd eu hunain yn unig wrth weithio tuag at gymhwyster City & Guilds

Mae'r *Amodau Copïo Safonol* (sydd i'w gweld ar wefan) City & Guilds hefyd mewn grym.

Noder: Nid yw'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn hawlfraint © City & Guilds Limited. Gwiriwch yr amodau y gellir eu copïo gyda'r Cyngor Sgiliau Sector perthnasol. Cyhoeddwyd gan City & Guilds Limited.

Cyhoeddiadau
Mae cyhoeddiadau City & Guilds ar gael o'n gwefan a gan ein hadran Gwerthiant Cyhoeddiadau, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a welir isod.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir ar adeg mynd i'r wasg. Fodd bynnag, mae cynnyrch a gwasanaethau City & Guilds yn destun datblygiad a gwelliant parhaus a chedwir hawl i newid cynhyrchion a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds dderbyn atebolrwydd am golled neu ddifrod sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

City & Guilds
1 Giltspur Street
Llundain EC1A 9DD
F +44 (0)20 7294 2413 **www.cityandguilds.com**
centresupport@cityandguilds.com

Cynnwys

Arweiniad i aseswyr	**7**
Lefel 2 Meddalwedd delweddu (7513-202)	**11**
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	11
Meini prawf marcio a graddio	13
Crynodeb marcio	21
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	22
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	23
Lefel 2 Meddalwedd fideo (7513-203)	**28**
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	28
Meini prawf marcio a graddio	30
Crynodeb marcio	35
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	36
Cyfarwyddiadau i Ymgeiswyr	37
Lefel 2 Meddalwedd gwefannau (7513-205)	**40**
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	40
Meini prawf marcio a graddio	42
Crynodeb marcio	51
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	53
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	54
Cynnwys yr aseiniad	61
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	62
Meini prawf marcio a graddio	63
Dalen marcio aseiniad	67
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	69
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	70
Lefel 2 Deall gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a moesegol mewn gwerthiannau neu farchnata (7513-208)	**75**
Atebion	75
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	79
Asesu	80
Lefel 3 Egwyddorion cyfryngau cymdeithasol mewn busnes (7513-301)	**87**
Cynnwys yr aseiniad	87
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	88
Tasg A: Meini prawf marcio a graddio	89
Tasg A: Atebion	91
Tasg B: Meini prawf marcio a graddio	95
Tasg C: Meini prawf marcio a graddio	97

Tasg C: Atebion	101
Dalen marcio aseiniad	106
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	107
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	108
Lefel 3 Egwyddorion allweddeiriau ac optimeiddio (7513-302)	**121**
Cynnwys yr aseiniad	121
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	122
Tasg A: Meini prawf marcio a graddio	123
Tasg A: Atebion	125
Tasg B: Meini prawf marcio a graddio	130
Dalen marcio aseiniad	135
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	137
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	138
Lefel 3 Rheoli rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer busnes (7513-303)	**145**
Cynnwys yr aseiniad	145
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	146
Tasg A: Meini prawf marcio a graddio	147
Tasg A: Atebion	150
Tasg B: Meini prawf marcio a graddio	157
Tasg C: Meini prawf marcio a graddio	161
Dalen marcio aseiniad	164
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	165
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	166
Lefel 3 Defnyddio technolegau cydweithredol (7513-304/338)	**176**
Cynnwys yr aseiniad	176
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	177
Tasg A: Meini prawf marcio a graddio	179
Tasg B: Meini prawf marcio a graddio	181
Tasg C: Meini prawf marcio a graddio	183
Tasg Ch: Meini prawf marcio a graddio	186
Tasg D: Meini prawf marcio a graddio	187
Dalen marcio aseiniad	188
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	190
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	191
Lefel 3 Creu gwefan system rheoli cynnwys (7513-305 (7513-305)	**198**
Cynnwys yr aseiniad	198
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	199
Tasg A: Meini prawf marcio a graddio	201
Tasg A: Atebion	203
Tasg B: Meini prawf marcio a graddio	206
Tasg C: Meini prawf marcio a graddio	208

Tasg Ch: Meini prawf marcio a graddio	210
Tasg D: Meini prawf marcio a graddio	211
Dalen marcio aseiniad	212
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	214
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	215
Lefel 3 Creu ac optimeiddio cynnwys ar gyfer y we (7513-306)	**224**
Cynnwys yr aseiniad	224
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	225
Tasg A: Meini prawf marcio a graddio	226
Tasg A: Atebion	229
Tasg B: Meini prawf marcio a graddio	236
Tasg C: Meini prawf marcio a graddio	238
Tasg Ch: Meini prawf marcio a graddio	240
Tasg D: Meini prawf marcio a graddio	242
Tasg D: Atebion	244
Dalen marcio aseiniad	247
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	248
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	249
Lefel 3 Egwyddorion cyfryngau cymdeithasol symudol ar gyfer busnes (7513-307)	**264**
Cynnwys yr aseiniad	264
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	265
Tasg A: Meini prawf marcio a graddio	267
Tasg A: Atebion	269
Tasg B: Meini prawf marcio a graddio	272
Tasg C: Meini prawf marcio a graddio	274
Tasg Ch: Meini prawf marcio a graddio	275
Dalen marcio aseiniad	277
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	278
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	279
Lefel 3 Egwyddorion hysbysebu a hyrwyddo cyfryngau cymdeithasol (7513-308)	**286**
Cynnwys yr aseiniad	286
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	287
Tasg A: Meini prawf marcio a graddio	288
Tasg A: Atebion	290
Tasg B: Meini prawf marcio a graddio	294
Tasg C: Meini prawf marcio a graddio	297
Dalen marcio aseiniad	299
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	300
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	301
Lefel 3 Deall Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ar gyfer busnes creadigol (7513-309)	**310**
Cynnwys yr aseiniad	310

Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	311
Tasg A: Meini prawf marcio a graddio	313
Tasg A: Atebion	314
Tasg B: Meini prawf marcio a graddio	316
Tasg C: Meini prawf marcio a graddio	317
Dalen marcio aseiniad	319
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	320
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	321
Lefel 3 Meddalwedd gwefan (7574-311)	**326**
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	326
Meini prawf marcio a graddio	328
Crynodeb marcio	331
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	332
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	333
Lefel 3 Datblygu'r we (7513-319)	**336**
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	336
Meini prawf marcio a graddio	338
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	344
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	346
Lefel 3 Egwyddorion marchnata a gwerthuso (7513-320)	**350**
Cynnwys yr aseiniad	350
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	351
Meini prawf marcio a graddio	353
Dalen marcio aseiniad	363
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	365
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	366
Templed ymgeisydd	369
Lefel 3 Egwyddorion marchnata perthnasoedd rhanddeiliaid (7513-328)	**371**
Cynnwys yr aseiniad	371
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	372
Meini prawf marcio a graddio	374
Dalen marcio aseiniad	383
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	385
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	386
Lefel 3 Meddalwedd taenlenni (7513-337)	**389**
Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio	389
Meini prawf marcio a graddio	391
Crynodeb marcio	399
Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr	400
Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	401
Ffurflen adborth ymgeisydd	**407**
Adroddiad adborth aseiniad Asesydd	**408**

Arweiniad i aseswyr

Sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i ganolfannau cymeradwy gael systemau sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau'r ddarpariaeth a'r asesiad gorau posibl o gymwysterau.

Mae sicrhau ansawdd yn cynnwys cymeradwyaeth gychwynnol i ganolfannau, cymeradwyo cymwysterau a gweithdrefnau mewnol y ganolfan ei hun ar gyfer monitro ansawdd. Mae canolfannau'n gyfrifol am sicrhau ansawdd mewnol, ac mae City & Guilds yn gyfrifol am sicrhau ansawdd allanol.

Darperir manylion llawn a chanllawiau ar y gofynion a'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol yn *Llawlyfr y Ganolfan – Cefnogi Rhagoriaeth Cwsmeriaid*, sydd i'w weld ar dudalennau cefnogi canolfannau **www.cityandguilds.com**. Mae'r ddogfen hon hefyd yn esbonio tasgau, gweithgareddau a chyfrifoldebau staff sicrhau ansawdd.

Amodau Defnydd Ychwanegol (Deunyddiau Asesu)

Caiff deunyddiau City & Guilds eu gwarchod trwy hawlfraint a chyflenwir hwy'n unig i Ganolfannau Cymeradwy i'w defnyddio'n unig at ddibenion asesu crynodol.

Mae'r amodau canlynol, sy'n berthnasol i Ddeunyddiau Asesu City & Guilds, yn ychwanegol at

- **yr Amodau Copïo Safonol** a geir yn **http://www.cityandguilds.com/142.html**; a
- Cyfarwyddiadau'r JCQ am Gynnal Arholiadau

Rhaid i'r Ganolfan Gymeradwy:

- ddefnyddio Deunyddiau Asesu City & Guilds mewn asesu crynodol, ffurfiol gan arwain at ddyfarnu credyd / cymhwyster ac **nid** at **unrhyw** bwrpas arall (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i addysgu, adolygu, fel asesiadau ymarfer neu at ddibenion masnachol);
- trafod a storio'n ddiogel Ddeunyddiau Asesu City & Guilds yn unol â'r amodau canlynol
  - Rhaid i Ddeunydd Asesu City & Guilds fod yn hygyrch i ymgeiswyr yn unig yn ystod asesu ffurfiol fel y rheolir gan yr amodau asesu a nodir ar gyfer y cymhwyster;
  - Gall portffolios ymgeiswyr gynnwys canlyniadau asesu gyda chyfeiriad at yr asesiad a gymerir ond ni ddylent gynnwys Deunyddiau Asesu City & Guilds (gall tasgau asesu neu gwestiynau neu sgriptiau ymgeiswyr wedi'u marcio gael eu hailddefnyddio (oni nodir yn wahanol));
  - Rhaid i'r Ganolfan Gymeradwy beidio â gwneud yn gyhoeddus **ar unrhyw fformat** gynnwys unrhyw Ddeunyddiau Asesu City & Guilds naill ai'n rhannol neu'n llawn;
  - Rhaid i Ddeunyddiau Asesu City & Guilds gael eu trafod yn ddiogel ac ni ddylid mewn unrhyw amgylchiadau eu rhannu â sefydliadau neu unigolion trydydd parti; dim ond adrannau priodol y dylid eu darparu i ymgeiswyr yn ôl y gofyn
- ceisio caniatâd gan City & Guilds trwy eu Sicrhäwr Ansawdd Allanol (SAA) os ydynt am drosi Deunydd Asesu City & Guilds ar gyfer storio, adalw a chyflwyno ar ffurf electronig (h.y. defnyddio rhyw ffurf o e-asesu neu system e-ddysgu)
- darparu mynediad, ar gais, i City & Guilds i'r system(au) y mae'r Deunyddiau Asesu'n ymddangos arnynt.

Asesiadau

Asesir y cymhwyster hwn mewn nifer o ffyrdd i roi syniad clir o wybodaeth a sgiliau ymgeiswyr. Ymhlith y rhain mae:

- tasgau gwybodaeth a dealltwriaeth
- cwestiynau wedi'u marcio'n fewnol
- tasgau ymarferol
- tasgau gwaith / tystiolaeth o'r gweithle

Caiff yr asesiadau eu gosod gan City & Guilds a chânt eu gweinyddu gan y ganolfan pan fydd yr ymgeisydd. yn barod. Yna cânt eu marcio'n fewnol, gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd a chofnodir y canlyniadau ar y dogfennau a ddarparwyd gan City & Guilds. Mae asesiadau'n amodol ar sicrwydd ansawdd mewnol ac allanol.

Oni nodir, gellir cwblhau aseiniadau mewn unrhyw drefn. Bydd disgwyl i ganolfannau drefnu'r asesiadau mewn trefn resymegol yn unol â gofynion yr ymgeiswyr a'r cwrs, e.e. o ran lleoliadau profiad gwaith, ymweliadau ac ati.

Dylai tiwtoriaid addysgu i ehangder llawn Canlyniad Dysgu'r uned a pheidio â chyfyngu addysgu i'r tasgau asesu. Dim ond pan fydd yn amlwg eu bod yn barod i gynnal yr asesiadau y dylid asesu ymgeiswyr. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o'r hyn y maent i'w asesu arno a'r hyn sy'n ofynnol ganddynt er mwyn pasio.

Tasgau gwybodaeth a dealltwriaeth

Mewn rhai achosion, gellir cwblhau'r rhain i ffwrdd o'r ganolfan yn amser yr ymgeiswyr eu hunain. Nid yw hyn yn briodol ond pan:

- mae angen meddwl gwreiddiol ar ran yr ymgeisydd, ac mae meini prawf marcio yn gofyn am ddangos dealltwriaeth, dehongli neu werthuso gwybodaeth. Yma gellir disgwyl y bydd tystiolaeth pob ymgeisydd yn eu geiriau eu hunain, ac felly'n cael eu hadnabod fel eu gwaith eu hunain, h.y. **nid** yn adalw uniongyrchol o ffeithiau.
- lle mae'r asesydd yn hyderus y byddant yn gallu dilysu tystiolaeth yr ymgeiswyr yn gywir fel eu rhai eu hunain, a chanfod unrhyw lên-ladrad.

Ar gyfer tystiolaeth a gynhyrchir y tu allan i amodau a reolir:

- ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr lofnodi datganiad mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith.
- ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeiswyr gyfeirnodi pob ffynhonnell
- holi (llafar) ategol i fesur cynefindra â'r pwnc
- gwylio am unrhyw newidiadau i arddull ysgrifennu arferol yr ymgeiswyr, ffynonellau/enghreifftiau anarferol neu ddefnyddio sillafiadau neu ymadroddion UDA a allai ddangos torri a gludo o'r rhyngrwyd
- gofyn am fynediad at dystiolaeth o gamau yn y broses e.e. drafftiau, nodiadau, cynllunio ac ati

Am wybodaeth bellach ar ddilysu gwaith ymgeiswyr gweler:

www.ofqual.gov.uk/plagiarism-teachers

Gellir rhoi eglurhad i ymgeiswyr os ydynt yn cael trafferth deall yr hyn y gofynnir iddynt ei wneud yn yr asesiad, ond rhaid iddynt gyflawni'r dasg eu hunain. Dylid hysbysu ymgeiswyr, os ydynt yn cyfeirio at eu tiwtoriaid am arweiniad ar ddeall y dasg, y gall swm y canllawiau a'r cymorth a roddir iddynt gael eu hadlewyrchu yn eu gradd – lle mae hyn yn wir, caiff ei adlewyrchu yn y meini prawf graddio, mae angen i'r holl feini prawf pasio fod yn seiliedig ar waith yr ymgeisydd ei hun ac felly'n cael eu bodloni heb gymorth.

Dim ond pan fydd yn amlwg eu bod yn barod i gynnal yr asesiad crynodol y dylid darparu tasg gwybodaeth a dealltwriaeth i'r ymgeiswyr. Dylid pennu amserlen realistig ar gyfer cwblhau'r dasg. Dylai'r amserlen gyflwyno gael ei llunio gan y ganolfan, yn unol â'r cynllun asesu cyffredinol ar gyfer y cwrs. Mae darparu tasgau a'r terfynau amser ar gyfer eu dychwelyd yn faterion i'w cytuno rhwng yr asesydd a'r ymgeiswyr yn lleol. Dylai ymgeiswyr allu trafod terfynau amser lle mae ganddynt reswm da dros y cais, ond mae dibynadwyedd a phrydlondeb yn hanfodion cyflogaeth a bydd canolfannau'n cyfeirio at eu polisi canolfan eu hunain wrth ddelio â chyflwyniadau hwyr lle na ddarperir rheswm da.

Ni ddylai'r tasgau a roddwyd i ymgeiswyr ar gyfer y cymhwyster hwn atal mynediad yn annheg. Os credir bod tasg yn atal mynediad yn annheg oherwydd y math o dystiolaeth sydd ei hangen, dylid gofyn am gyngor gan y Sicrhäwr Ansawdd Allanol (SAA) ar ddarparu'r dystiolaeth mewn fformat gwahanol. Er enghraifft, os yw tasg yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth fel poster, yna oni bai bod dyluniad y poster yn cael ei asesu, gall fformat amgen fel taflen wybodaeth neu adroddiad fod yn dderbyniol. Noder, fodd bynnag, fod yn rhaid bodloni gofynion y dasg yn llawn a defnyddio'r meini prawf marcio/graddio heb eu newid.

Cwestiynau wedi'u marcio'n fewnol

Dylid cymryd y cwestiynau o dan amodau dan oruchwyliaeth fel profion llyfrau caeedig, oni nodir yn wahanol. Mae hyn yn golygu y bydd yr holl weithgareddau'n cael eu cwblhau gyda'r asesydd, neu oruchwylydd dynodedig arall, yn bresennol. Fel arall, efallai y byddai'n well gan aseswyr ofyn y cwestiynau ar lafar a chofnodi ymatebion ymgeiswyr unigol. Oni nodir hynny, nid oes terfyn amser wedi'i bennu gan City & Guilds a dylai canolfannau seilio eu hamseru ar yr amser y mae'n ei gymryd i ymgeisydd parod gwblhau'r cwestiynau'n gyfforddus (1-1½ munud y marc fel arfer).

Cyflwyno'r tasgau i ymgeiswyr

Dylai'r asesydd gyflwyno pob tasg, gan sicrhau bod yr ymgeiswyr yn deall yr hyn sy'n ofynnol ganddynt. Bydd yn fuddiol mynd â'r ymgeiswyr drwy'r hyn sy'n ofynnol a'r ffordd y caiff pob tasg ei marcio gan fod angen i ymgeiswyr wybod beth a ddisgwylir ganddynt.

Cyfleoedd i ailadrodd tasgau

Mae'n hanfodol nad yw'r tasgau'n cael eu defnyddio at ddibenion ffurfiannol a dim ond pan fyddant yn cael eu barnu eu bod yn gwbl barod y mae'r ymgeiswyr yn eu ceisio. Penderfyniad y ganolfan yw a ddylid caniatáu i ymgeisydd ailadrodd tasg, oni nodir yn wahanol. Ni ddylid caniatáu i ymgeisydd ailadrodd nes ei bod yn amlwg ei fod yn barod i ymgymryd â'r dasg.

Gall ymgeiswyr ailddefnyddio unrhyw ymchwil y maent wedi'i gwneud o'r blaen ac ategu eu tystiolaeth wrth ailadrodd tasg. Oni nodir, ar gyfer cwestiynau a farciwyd yn fewnol, bydd angen i ymgeiswyr ail-wneud y set lawn o gwestiynau eto a lle y darperir hyn, dylid defnyddio fersiwn wahanol o'r cwestiynau. Ar gyfer arsylwadau, bydd angen i ymgeiswyr ail-wneud y dasg lawn.

Adborth

Darparwyd taflen adborth. Er y gellir rhoi rhywfaint o adborth ar lafar, caiff hyn ei anghofio'n aml gan yr ymgeisydd ar ôl yr asesiad, ac felly dylai aseswyr gwblhau'r daflen adborth ar gyfer pob ymgeisydd, gan ddangos y wybodaeth allweddol a roddir i'r ymgeisydd. Bydd hyn hefyd yn gynllun gweithredu ar gyfer ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus mewn tasg ac sydd angen gwneud gwaith pellach cyn cymryd y dasg eto.

Nodiadau ar ddefnyddio'r meini prawf graddio a'r cynlluniau marcio

Dim ond y wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol gan yr uned(au) y gellir eu hystyried i'w marcio. Ni ddylai unrhyw sgiliau ychwanegol a arddangosir ond nad oes eu hangen ar gyfer yr uned (e.e. lefelau uchel o gyflwyno deunyddiau, TG, cyfathrebu ac ati) ddylanwadu ar y marcio.

Rhaid i'r tasgau gael eu marcio gan y ganolfan gan ddefnyddio'r meini prawf marcio a graddio a ddarperir gan City & Guilds. Ar gyfer cwestiynau a farciwyd yn fewnol, darperir atebion enghreifftiol yn y Pecyn Asesu hwn sydd ar gael i'w lawrlwytho o **www.cityandguilds.com**. Rhaid i'r atebion gael eu cadw'n ddiogel gan ganolfannau a heb fod ar gael i ymgeiswyr. Rhaid i aseswyr ddefnyddio'r meini prawf marcio a graddio ynghyd â'r atebion enghreifftiol a ddarperir ar gyfer yr asesiadau i ddyfarnu marciau, fel y bo'n briodol.

Achredu Dysgu Blaenorol (ADB)

Mae'r asesiadau crynodol hyn yn asesu dysgu'r ymgeisydd, gan gynnwys dysgu blaenorol. Ni ddylid defnyddio ADB fel dull arall.

Iechyd a diogelwch / Codau ymarfer

Rhaid cadw bob amser at bwysigrwydd arferion gweithio diogel, gofynion y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a'r Codau Ymarfer sy'n gysylltiedig â'r diwydiant

Mae'r gofyniad i ddilyn arferion gweithio diogel yn rhan annatod o holl gymwysterau ac asesiadau City & Guilds, a chyfrifoldeb canolfannau yw sicrhau bod yr holl ofynion iechyd a diogelwch perthnasol ar waith cyn i ymgeiswyr ddechrau asesiadau ymarferol.

Os bydd ymgeisydd yn methu â dilyn arferion a gweithdrefnau iechyd a diogelwch cywir yn ystod asesiad, **rhaid atal** yr asesiad a rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y rhesymau. Dylid hysbysu'r ymgeisydd nad yw wedi cyrraedd safon yr asesiad sy'n ofynnol. Yn ôl penderfyniad y ganolfan, gall ymgeiswyr ail-gymryd yr asesiad ar ddyddiad diweddarach pan fyddant yn gallu gweithio'n ddiogel. Mewn unrhyw achosion o amheuaeth, dylid ceisio arweiniad gan y Sicrhäwr Ansawdd Allanol (SAA).

Gwirio asesiadau

Rhaid i ganolfannau ddefnyddio'r dogfennau a ddarperir, oni chytunir fel arall, i sicrhau y gall y Sicrhäwr Ansawdd Allanol (SAA) wirio bod y dystiolaeth ar gyfer asesiad wedi'i chwblhau a sicrhau bod dyrannu marciau yn deg a thu hwnt i ddadl. Gall canolfannau ddyfeisio dogfennau/ffurflenni ychwanegol i gefnogi'r rhai a ddarperir gan City & Guilds.

Os dewisir gwaith ymgeisydd i'w wirio, rhaid sicrhau bod samplau o waith ar gael i'r Sicrhäwr Ansawdd Allanol penodedig (SAA) a fydd yn sicrhau

- bod y cydgysylltydd sicrhau ansawdd yn ymgymryd â'i g(ch)yfrifoldebau
- bod y cydlynydd sicrhau ansawdd yn cael adborth buan, cywir a chadarnhaol ar weithrediadau'r ganolfan
- bod adroddiad yn cael ei ysgrifennu ar weithgareddau'r ganolfan i City & Guilds.

Cadw tystiolaeth

Er mwyn cefnogi ymgeiswyr yn llawn, mae'n ofynnol i ganolfannau gadw tystiolaeth ymgeiswyr nes bod yr ymgeisydd wedi ei ardystio a hyd nes y bydd unrhyw samplu terfynol gan y Sicrhäwr Ansawdd Allanol wedi digwydd. Rhaid cadw **cofnodion** asesu ymgeiswyr (gweler llawlyfr y ganolfan am fanylion) am **dair blynedd** ar ôl ardystio.

Ymgeisio am asesiad ac ardystio

Dylai mynediad ar gyfer asesu ac ardystio fod fel y nodir yn y Llawlyfr Cymwysterau a'r Walled Garden.

Am y ddogfen hon
Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr holl asesu ar gyfer Lefel 2 Meddalwedd delweddu Uned (7513-202).

Mae'r wybodaeth am dasg yr aseiniad hwn wedi'i chynnwys yng *Nghyfarwyddiadau'r Ymgeisydd.* Mae'r nodiadau arweiniad canlynol yn cael eu darparu i gynorthwyo aseswyr wrth gynllunio cyflwyno'r aseiniad i ymgeiswyr.

Gwybodaeth bwysig
Ni ddylid dangos y ddogfen hon i ymgeiswyr cyn yr aseiniad.

Gellir rhoi adborth i ymgeiswyr ar ôl yr aseiniad gan ddefnyddio'r ddogfen hon, ond nid oes hawl ganddynt i gadw copi.

Iechyd a diogelwch
Rhaid pwysleisio ar bob adeg bwysigrwydd arferion gweithio diogel, galwadau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974; (HASWA) neu reoliadau iechyd a diogelwch cenedlaethol a/ neu leol, rheoliadau cysylltiedig a Chodau Ymarfer cysylltiedig â diwydiant penodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddebau oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd (UE) lle y bo'n briodol. Mae gan ymgeiswyr gyfrifoldebau dros gynnal diogelwch eraill yn ogystal â'u diogelwch eu hunain. Rhaid atal unrhyw un sy'n ymddwyn yn anniogel a rhoi rhybudd addas iddo. Ni ddylid byth ganiatáu i ymgeiswyr barhau aseiniad os yw wedi torri'r gofynion hyn. Gall hyn ymddangos yn llym, ond ar wahân i ganlyniadau annymunol posibl, rhaid i bob ymgeisydd feithrin arferion angenrheidiol ar gyfer y gweithle.

Lleoliad yr aseiniad
Unrhyw amgylchedd addas.

Cyfarpar angenrheidiol ar gyfer yr aseiniad hwn
Tybir y bydd ymgeiswyr yn gweithio ar system Rwydwaith ac os felly bydd ganddynt gyfeiriadur Hafan a mynediad darllen i ardal y gellir darllen gwybodaeth yr aseiniad ohoni (ffeiliau a chyfeiriaduron). Os caiff cyfrifiaduron arunig eu defnyddio, gellir rhoi manylion yr aseiniad ar ddisg sefydlog a storio ffeiliau'r ymgeisydd ar gyfrwng storio symudol.

Tystiolaeth a chofnodi
Dylai canolfannau sicrhau bod yr holl ddata a gynhyrchir gan ymgeiswyr yn cael eu cadw'n ddiogel a bod aseiniadau, ar ôl eu lawrlwytho, yn cael eu cloi i ffwrdd yn ddiogel nes cael eu defnyddio. Cyfrifoldeb y ganolfan/asesydd yw sicrhau mai'r ymgeisydd sy'n gwneud aseiniad /prawf yw'r person cywir. Yn ddelfrydol, dylai canolfannau gynhyrchu strategaeth ysgrifenedig sy'n amlinellu eu gweithdrefnau i sicrhau bod yr uchod yn digwydd.

Diogelwch

Dylai canolfannau sicrhau bod yr holl ddata a gynhyrchir gan ymgeiswyr yn cael eu cadw'n ddiogel a bod aseiniadau, ar ôl eu lawrlwytho, yn cael eu cloi i ffwrdd yn ddiogel nes cael eu defnyddio. Cyfrifoldeb y ganolfan/asesydd yw sicrhau mai'r ymgeisydd sy'n gwneud aseiniad /prawf yw'r person cywir. Yn ddelfrydol, dylai canolfannau gynhyrchu strategaeth ysgrifenedig sy'n amlinellu eu gweithdrefnau i sicrhau bod yr uchod yn digwydd.

Ystyriaethau amser

Cafodd lwfansau amser eu hargymell ar gyfer pob aseiniad; serch hynny nid ydynt yn rhan o'r meini prawf marcio, a'u diben yw rhoi arweiniad yn unig. Fodd bynnag, os teimlwch fod ar ymgeisydd angen amser ychwanegol i gwblhau'r aseiniad, mater i'r Asesydd ei benderfynu yw hyn.

Argymhellir y dylai'r ymgeiswyr gwblhau'r aseiniad hwn o fewn **dwy awr**.

Os caiff yr aseiniad ei wneud dros fwy nag un cyfnod, rhaid dychwelyd yr holl waith papur a'r cyfryngau symudol i arolygydd y prawf ar ddiwedd pob sesiwn.

Rhaid i gyfnod o saith diwrnod fynd heibio cyn y gall ymgeisydd aflwyddiannus ail-wneud yr aseiniad hwn.

Ffeiliau i'w darparu gan y ganolfan

	Ar gyfer Tasg	Manyleb ffeil	Math	Enw'r ffeil
1	A, B ac C		.jpg	**Titw penddu**
2	A, B ac C		.jpg	**Fflamingo**
3	A, B ac C		.jpg	**Tirlun 1**
4	A, B ac C		.jpg	**Tirlun 2**
5	A, B ac C		.psd	**Dyfrgi**
7	A, B ac C		.jpg	**Aderyn y to a Thitw penddu**
8	DD		.doc	**Atebion**

Mae'r holl ffeiliau a'r enghreifftiau wedi'u gweithio ar gael ar ein gwefan.

Sut i farcio'r aseiniad hwn

Dangosir holl gyfarwyddiadau'r ymgeisydd i hwyluso marcio. Dylid rhoi marc am bob tasg a nodir yn y marcio, os yw'r ymgeisydd yn ei chyflawni. Ar ddiwedd y meini prawf marcio dylid adio marciau'r ymgeiswyr a rhoi gradd gyffredinol yn ôl y nifer penodol o feini prawf a ddangosir. Defnyddiwch bob tystiolaeth bosibl i gefnogi dyfarnu marciau gan gynnwys ffeiliau electronig, allbrintiau ac ati. Dangosir y golofn Tystiolaeth a Chofnodi fel awgrym.

Meini prawf graddio

Llwyddo - 35 maen prawf a ddangosir fel **( )**.

Noder: PEIDIWCH Â MARCIO ALLBRINTIAU HEB ENW gellir marcio tudalennau sy'n cynnwys troedynnau wedi'u hysgrifennu â llaw ond ni ellir dyfarnu marciau am y troedyn.

Tasg A	Cyfeirnod Canlyniad	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
1	Amh		Trowch ymlaen (ac os oes angen) logio i mewn i'r cyfrifiadur.		**Amh.**
2	Amh		Agorwch y meddalwedd dylunio a delweddu.	Meddalwedd wedi'i agor	**Amh.**
3	1.7	**Adar, Anifeiliaid, Tirluniau a Phoster**	Crëwch bedwar ffolder yn eich ardal waith o'r enw: • Adar • Anifeiliaid • Tirluniau • Poster Rhowch y ffeiliau a ddarparwyd yn y ffolderi priodol.	Pob ffolder wedi'i gywiro (dim gwallau)	**( )**

Tasg B	Cyfeirnod Canlyniad	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
1	B1.2 B1.7	**Aderyn y to.psd**	Agorwch y ddelwedd o'r enw **Aderyn y to a Thitw penddu** sydd yn eich Adar.	Delwedd o'r enw Aderyn y To wedi'i hagor	**( )**
2	B1.2	**Aderyn y to.psd**	Defnyddiwch offeryn addas i ddewis aderyn y to.	Aderyn y to wedi'i ddewis	**( )**
3	B1.2 B2.2 B2.4 B2.5	**Aderyn y to.psd**	Copïwch a gludwch yr aderyn y to a ddewiswyd i mewn i gynfas newydd gyda chefndir tryloyw.	Aderyn y to wedi ei ludo i'r cynfas newydd gyda chefndir tryloyw	**( )**
4	B1.7 B2.4	**Aderyn y to.psd**	Cadwch y ddelwedd mewn fformat .psd gyda'r enw **Aderyn y to** yn eich ffolder **Poster** a chaewch y ddelwedd.	Aderyn y to wedi'i gadw yn y ffolder cywir gyda'r fformat cywir	**( )**
5	B1.7 B2.1 B2.2	**Titw penddu.psd**	Agorwch y ddelwedd o'r enw **Titw penddu**.	Delwedd o'r enw Titw penddu wedi'i hagor	**( )**
6	B2.4	**Titw penddu.psd**	Defnyddiwch offeryn addas i ddewis **Titw penddu**.	Titw penddu wedi'i ddewis	**( )**
7	B1.2 B2.2 B2.5	**Titw penddu.psd**	Copïwch a gludwch y Titw penddu a ddewiswyd i mewn i gynfas newydd gyda chefndir tryloyw.	Titw penddu wedi ei ludo i'r cynfas newydd gyda chefndir tryloyw	**( )**
8	B1.7 B2.4	**Titw penddu.psd**	Cadwch y ddelwedd mewn fformat .psd yn eich **Poster** o'r un enw chaewch y ddelwedd.	Titw penddu wedi'i gadw yn y ffolder cywir gyda'r fformat cywir	**( )**
9	B1.7 B2.1 B2.2	**Fflamingo wedi ei docio.psd**	Agorwch y ddelwedd o'r enw **Fflamingo**.	Y ddelwedd o'r enw Fflamingo wedi ei hagor	**( )**
10	B1.2 B1.7 B2.4	**Fflamingo wedi ei docio.psd**	Tociwch y ddelwedd yn dynn o gwmpas y Fflamingos (cynhwyswch eu hadlewyrchiadau).	Delwedd wedi'i thocio	**( )**
11	B1.7 B2.4	**Fflamingo wedi ei docio.psd**	Cadwch y ddelwedd ar fformat .psd yn eich ffolder **Poster** o'r enw **Fflamingo wedi ei docio**	Fflamingo wedi'i docio wedi'i gadw yn y ffolder cywir gyda'r fformat cywir	**( )**

Tasg C	Cyfeirnod Canlyniad	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
1	B1.7	**Poster_1.psd**	Agorwch y ddelwedd **Tirlun 1**.	Delwedd Tirlun 1 wedi'i hagor	**( )**
2	B2.3	**Poster_1.psd**	Gosodwch y canllawiau i 1210 picsel o'r chwith ac 855 picsel o'r brig.	Canllawiau wedi'u gosod yn gywir	**( )**
3	B1.7	**Poster_1.psd**	Agorwch y ddelwedd o'r enw **Aderyn y to.psd**.	Delwedd Aderyn y to wedi'i hagor	**( )**
4	B2.2 B2.4	**Poster_1.psd**	Gludwch y ddelwedd o'r enw **Aderyn y to i mewn i Tirlun 1** ar haen newydd.	Aderyn y to wedi'i osod yn Tirlun 1 ar haen ar wahân	**( )**
5	B1.7	**Poster_1.psd**	Enwch yr haen newydd yn **Aderyn y to**.	Haen wedi'i henwi'n Aderyn y to	**( )**
6	B1.7	**Poster_1.psd**	Caewch y ddelwedd o'r enw **Aderyn y to** heb ei chadw.	Delwedd gywir wedi'i chau	**Amh.**
7	B2.2 B2.3	**Poster_1.psd**	Ailfeintiwch uchder a lled yr haen o'r enw **Aderyn y to** i 10% o'i faint gwreiddiol.	Aderyn y to wedi'i ailfeintio'n gywir	**( )**
8	B2.3 B2.4	**Poster_1.psd**	Lleolwch gornel chwith uchaf yr haen o'r enw **Aderyn y to** i'r lle y mae'r canllawiau'n croesi.	Aderyn y to wedi ei leoli'n gywir	**( )**
9	B1.7	**Poster_1.psd**	Agorwch y ddelwedd o'r enw **Titw penddu** o'ch ffolder **Poster.**	Delwedd Titw penddu wedi'i hagor	**( )**
10	B2.2	**Poster_1.psd**	Copïwch y ddelwedd i mewn i'r ddelwedd o'r enw **Tirlun 1** ar haen newydd.	Titw penddu wedi'i osod yn Tirlun 1 ar haen ar wahân	**( )**
11	B1.7	**Poster_1.psd**	Enwch yr haen yn **Titw penddu**.	Haen wedi'i henwi'n Titw penddu	**( )**
12	B2.2 B2.3	**Poster_1.psd**	Ailfeintiwch uchder a lled yr haen o'r enw **Titw penddu** i 10% o'i faint gwreiddiol.	Titw penddu wedi'i ailfeintio'n gywir	**( )**

13	B2.3 B2.4	**Poster_1.psd**	Gan ddefnyddio'r canllawiau, lleolwch gornel chwith uchaf yr haen o'r enw **Titw penddu** i 1100 picsel o'r chwith a 757 picsel o'r brig.	Canllawiau wedi'u defnyddio i leoli Titw penddu'n gywir	**( )**
14	B1.7	**Poster_1.psd**	Agorwch y ddelwedd o'r enw **Dyfrgi** o'ch ffolder **Anifeiliaid**.	Delwedd Dyfrgi wedi'i hagor	**( )**
15	B2.2	**Poster_1.psd**	Copïwch y ddelwedd i mewn i'r ddelwedd o'r enw **Tirlun 1** ar haen newydd.	Dyfrgi wedi'i osod yn Tirlun 1 ar haen ar wahân	**( )**
16	B1.7	**Poster_1.psd**	Enwch yr haen yn **Dyfrgi**.	Haen wedi'i henwi'n Dyfrgi	**( )**
17	B2.2 B2.3	**Poster_1.psd**	Ailfeintiwch uchder a lled yr haen o'r enw **Dyfrgi** i 7% o'i faint gwreiddiol.	Dyfrgi wedi'i ailfeintio'n gywir	**( )**
18	B2.3 B2.4	**Poster_1.psd**	Gan ddefnyddio'r canllawiau lleolwch gornel chwith uchaf yr haen o'r enw **Dyfrgi** i mewn i'r ddelwedd **Tirlun 1** ar echelin X o 160 ac echelin Y o 1065 picsel. i	Canllawiau wedi'u defnyddio i leoli **Dyfrgi** wedi'i leoli'n gywir	**( )**
19	B1.7 B2.4	**Poster_1.psd**	Cadwch y ddelwedd ar fformat .psd yn eich ffolder **Poster** gyda'r enw **Poster_1**.	Delwedd wedi'i chadw yn y ffolder cywir gan ddefnyddio'r enw a'r fformat ffeil cywir	**( )**

Tasg Ch	Cyfeirnod Canlyniad	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
1	B1.4 B2.1 B2.2 B2.4	**Poster_2.psd**	Lleolwch y ddelwedd o'r enw **Fflamingo wedi ei docio** i mewn i'r ddelwedd o'r enw **Poster_1** fel ei bod yn ffeil gyswllt.	Delwedd wedi'i lleoli yn **Poster_1** ar haen newydd fel delwedd gyswllt	**( )**
2	B2.2 B2.3	**Poster_2.psd**	Ailfeintiwch yr haen i 8% o'i maint gwreiddiol	**Fflamingo** wedi'i ailfeintio'n gywir	**( )**
3	B2.3 B2.4	**Poster_2.psd**	Gan ddefnyddio'r canllawiau lleolwch gornel chwith uchaf yr haen o'r enw **Fflamingo wedi ei docio** yn y poster: echelin X 2500 ac echelin Y 1000.	Canllawiau wedi'u defnyddio i leoli **Fflamingo**'n gywir	**( )**
4	B2.2 B2.4	**Poster_2.psd**	Agorwch y ddelwedd gyswllt o'r enw **Fflamingo wedi ei docio**.	Delwedd gyswllt wedi ei hagor	**( )**
5	B1.4 B1.7	**Poster_2.psd**	Gan ddefnyddio offeryn addas dilëwch y cefndir gan adael yn unig y fflamingos a'u hadlewyrchiadau.	Cefndir wedi'i ddileu	**( )**
6	B1.7 B2.4	**Fflamingo wedi ei docio.psd**	Cadwch a chaewch y ddelwedd gyswllt.	Delwedd gyswllt wedi'i chadw	**( )**
7	B1.7 B2.4	**Poster_2.psd**	Cadwch y ddelwedd **Poster_1** gyda'r enw **Poster_2** yn eich ffolder **Poster**.	Delwedd wedi'i chadw yn y ffolder cywir gan ddefnyddio'r enw a'r fformat ffeil cywir	**( )**

Tasg D	Cyfeirnod Canlyniad	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
1	B1.2 B1.4 B1.7 B2.2 B2.4	**Poster_3.psd**	Gan ddefnyddio siapiau sylfaenol crëwch logo tebyg i'r un sydd i'w weld isod. Defnyddiwch liw RGB R120, G 243 a B 30 ar gyfer y glaswellt. Defnyddiwch liw RGB R107, G 93 a B 44 ar gyfer y bawen. Defnyddiwch liw RGB R0, G 0 a B 0 ar gyfer y testun. Dylai maint y llun fod tua 1.79cm o led a 1.63cm o uchder. Cyfunwch yr haenau a ddefnyddiwyd i greu'r logo ac enwch yr haen yn **Logo**.	Delwedd debyg wedi'i llunio	( )
				Lliwiau cywir wedi'u defnyddio	( )
2	B2.3 B2.4	**Poster_3.psd**	Lleolwch yr haen **Logo** i mewn i'r ddelwedd **Poster_2** gan ddilyn y cyfesurynnau canlynol: echelin X 162.5 ac echelin Y 185.	Logo yn y lleoliad cywir	( )
3	B1.7 B2.4	**Poster_3.psd**	Cadwch y ddelwedd **Poster_2** gyda'r enw **Poster_3**.	**Poster_3** wedi'i gadw fel ffeil .psd	( )
4	B2.2 B2.4	**Poster_4.psd**	Gwnewch y Logo'n well gydag effaith gysgod.	Effaith cysgod wedi'i hychwanegu	( )
5	B2.4	**Poster_4.psd**	Gan ddefnyddio'r offeryn priodol ychwanegwch y testun canlynol wedi'i fformatio i ffont llawysgrifen neu italig du 12 pt. Am bob ymholiad galwch yn ein siop neu ffoniwch 01623 123456.	Testun wedi'i ychwanegu'n gywir	( )
				Ffont, lliw a maint addas wedi'i ddefnyddio	( )
6	B2.5	**Poster_4.psd**	Gwiriwch eich dogfen am unrhyw wallau sillafu.	Dim gwallau sillafu	( )

7	B2.3 B2.4	**Poster_4.psd**	Gan ddefnyddio canllawiau lleolwch gornel chwith uchaf y testun i 1435 picsel o'r chwith ac 185 picsel o'r brig.	Logo yn y lleoliad cywir	**( )**
8	B1.7	**Poster_4.psd**	Cadwch y ddelwedd **Poster_3** gyda'r enw **Poster_4**.	**Poster_4** wedi'i gadw	**( )**
9	B2.4 B2.5 B2.6	**Poster_wedi ei gwblhau.psd**	Fflatiwch y ddelwedd.	Delwedd yn cynnwys yr haen Gefndir yn unig	**( )**
10	B1.7 B2.4	**Poster_wedi ei gwblhau.psd**	Cadwch y ddelwedd wedi'i fflatio gyda'r enw **Poster_wedi ei gwblhau.**	Poster_wedi ei gwblhau wedi'i gadw	**( )**

Tasg DD	Cyfeirnod Canlyniad	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
	Amh.	**AtebionXX**	Gan ddefnyddio'r dogfen **Atebion**, a ddarparwyd gan eich asesydd, atebwch y canlynol:		**Amh.**
1	B1.1	**AtebionXX**	Disgrifiwch ba ddyluniadau neu ddelweddau sydd eu hangen.	Wedi disgrifio dyluniadau a delweddau sydd eu hangen (derbyniwch unrhyw ateb rhesymol)	**( )**
2	B1.3	**AtebionXX**	Disgrifiwch ba hawlfraint a chyfyngiadau eraill sy'n berthnasol i'r defnydd o ddelweddau.	Wedi disgrifio Hawlfraint a chyfyngiadau (derbyniwch unrhyw ateb rhesymol)	**( )**
3	B1.5	**AtebionXX**	Disgrifiwch y cyd-destun y caiff dyluniadau neu ddelweddau eu defnyddio ynddyn nhw.	Wedi disgrifio cyd-destun defnyddio dyluniadau/delweddau (derbyniwch unrhyw ateb rhesymol)	**( )**
4	B1.6	**AtebionXX**	Disgrifiwch ba fformat ffeil i'w ddefnyddio ar gyfer cadw dyluniadau a delweddau i weddu i wahanol ddulliau cyflwyno.	Wedi disgrifio pa fformat ffeil i'w ddefnyddio wrth gadw delweddau i fod yn addas i wahanol gyflwyniadau. (derbyniwch unrhyw ateb rhesymol)	**( )**
5	B1.7	**AtebionXX**	Cadwch eich dogfen **Atebion** i'ch ardal waith gyda'r enw **AtebionXX** (lle XX yw eich llythrennau).	**AtebionXX** wedi'u cadw	**Amh.**
6	Amh	**Amh.**	Caewch unrhyw gymwysiadau.		**Amh.**

Am yr Ymgeisydd

Enw'r ymgeisydd		**Rhif cofrestru City & Guilds**	
Enw'r ganolfan		**Rhif y ganolfan**	

Am yr asesiad

Dyddiad asesu		**Amser cychwyn**	
		Amser cwblhau	

Nifer y ( ) a gyflawnwyd	

Llwyddo - 35 maen prawf a ddangosir fel ( ).

Gradd gyffredinol a enillwyd	

Llofnodion

Llofnod yr Ymgeisydd		**Dyddiad**	
Enwebai ansawdd (os gwnaed sampl)		**Dyddiad**	
Llofnod yr Asesydd		**Dyddiad**	
Llofnod Sicrhäwr Ansawdd Allanol (os gwnaed sampl)		**Dyddiad**	

Am y ddogfen hon
Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr holl asesu ar gyfer Lefel 2 Meddalwedd delweddu Uned (7513-202).

Iechyd a diogelwch
Rydych chi'n gyfrifol am gynnal eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill. Gofynnir i chi weithio'n ddiogel bob amser.

Ni chewch chi barhau ag aseiniad os ydych chi'n torri unrhyw un o'r gofynion Iechyd a Diogelwch.

Amser a ganiateir
Y lwfans amser a argymhellir ar gyfer yr aseiniad hwn yw **dwy awr**.

Amser a ganiateir: Dwy awr

Yr aseiniad:

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys **chwe** thasg.

Yr aseiniad: Caiff senario ei ddarparu i ymgeiswyr.

- Tasg A – Rheoli ffeiliau
- Tasg B – Paratoi delweddau
- Tasg C – Trafod a rheoli delweddau
- Tasg Ch – Mewngludo a thrafod data cysylltiedig
- Tasg D – Mewnosod siapiau sylfaenol ac ychwanegu testun
- Tasg DD – Cwestiynau gwybodaeth sylfaenol

Senario

Mae eich asiant teithio lleol wedi gofyn i chi helpu i baratoi delweddau a thynnu llun ar gyfer poster, i hysbysebu taith bywyd gwyllt sydd ar ddigwydd. Maen nhw wedi rhoi set o ddelweddau i chi i'w defnyddio yn y poster.

Darllenwch yr holl gyfarwyddiadau'n ofalus a gwnewch y tasgau yn y drefn sy'n cael ei rhoi.

Tasg A – Rheoli ffeiliau

1 Trowch ymlaen (ac os oes angen) logiwch i mewn i'r cyfrifiadur.

2 Agorwch y meddalwedd dylunio a delweddu.

3 Crëwch bedwar ffolder yn eich ardal waith o'r enw:

- Adar
- Anifeiliaid
- Tirluniau
- Poster

Rhowch y ffeiliau a ddarparwyd yn y ffolderi priodol.

Tasg B – Paratoi delweddau

1 Agorwch y ddelwedd o'r enw **Aderyn y to a Thitw penddu** sydd yn eich Adar.

2 Defnyddiwch offeryn addas i ddewis aderyn y to.

3 Copïwch a gludwch yr aderyn y to a ddewiswyd i mewn i gynfas newydd gyda chefndir tryloyw.

4 Cadwch y ddelwedd mewn fformat .psd gyda'r enw **Aderyn y To** yn eich ffolder **Poster** a chaewch y ddelwedd.

5 Agorwch y ddelwedd o'r enw **Titw penddu**.

6 Defnyddiwch offeryn addas i ddewis **Titw penddu**.

7 Copïwch a gludwch y Titw penddu a ddewiswyd i mewn i gynfas newydd gyda chefndir tryloyw.

8 Cadwch y ddelwedd mewn fformat .psd yn eich ffolder **Poster** o'r un enw chaewch y ddelwedd.

9 Agorwch y ddelwedd o'r enw **Fflamingo**.

10 Tociwch y ddelwedd yn dynn o gwmpas y Fflamingos (cynhwyswch eu hadlewyrchiadau).

11 Cadwch y ddelwedd ar fformat .psd yn eich ffolder **Poster** o'r enw **Fflamingo wedi ei docio**

Tasg C – Trafod a rheoli delweddau

1 Agorwch y ddelwedd o'r enw **Tirlun 1**.

2 Gosodwch y canllawiau i 1210 picsel o'r chwith ac 855 picsel o'r brig.

3 Agorwch y ddelwedd o'r enw **Aderyn y to.psd**.

4 Gludwch y ddelwedd o'r enw **Aderyn y to i mewn i Tirlun 1** ar haen newydd.

5 Enwch yr haen newydd yn **Aderyn y to**.

6 Caewch y ddelwedd o'r enw **Aderyn y to** heb ei chadw.

7 Ailfeintiwch uchder a led yr haen o'r enw **Aderyn y to** i 10% o'i maint gwreiddiol.

8 Lleolwch gornel chwith uchaf yr haen o'r enw Aderyn y to i'r lle y mae'r canllawiau'n croesi.

9 Agorwch y ddelwedd o'r enw **Titw penddu** o'ch ffolder f **Poster.**

10 Copïwch y ddelwedd i mewn i'r ddelwedd o'r enw **Tirlun 1** ar haen newydd.

11 Enwch yr haen yn **Titw penddu**.

12 Ailfeintiwch uchder a lled yr haen o'r enw **Titw penddu** i 10% o'i maint gwreiddiol.

13 Gan ddefnyddio'r canllawiau lleolwch gornel chwith uchaf yr haen o'r enw **Titw penddu** i 1100 picsel o'r chwith a 757 picsel o'r brig.

14 Agorwch y ddelwedd o'r enw **Dyfrgi** o'ch ffolder **Anifeiliaid**.

15 Copïwch y ddelwedd i mewn i'r ddelwedd o'r enw **Tirlun 1** ar haen newydd.

16 Enwch yr haen yn **Dyfrgi**.

17 Ailfeintiwch uchder a led yr haen o'r enw **Dyfrgi** i 7% o'i maint gwreiddiol.

18 Gan ddefnyddio'r canllawiau lleolwch gornel chwith uchaf yr haen o'r enw **Dyfgri** yn y ddelwedd **Tirlun 1** i echelin X 160 ac echelin Y 1065 picsel.

19 Cadwch y ddelwedd ar fformat .psd yn eich ffolder **Poster** gyda'r enw **Poster_1**.

Tasg Ch – Mewngludo a thrafod data cysylltiedig

1 Lleolwch y ddelwedd o'r enw **Fflamingo wedi ei docio** i mewn i'r ddelwedd o'r enw **Poster_1** fel ei bod yn ffeil gyswllt.

2 Ailfeintiwch yr haen i 8% o'i maint gwreiddiol

3 Gan ddefnyddio'r canllawiau lleolwch gornel chwith uchaf yr haen o'r enw **Fflamingo wedi ei docio** yn y poster: echelin X 2500 ac echelin Y 1000.

4 Agorwch y ddelwedd gyswllt o'r enw **Fflamingo wedi ei docio**.

5 Gan ddefnyddio offeryn addas dilëwch y cefndir gan adael yn unig y fflamingos a'u hadlewyrchiadau.

6 Cadwch a chaewch y ddelwedd gyswllt.

7 Cadwch y ddelwedd **Poster_1** gyda'r enw **Poster_2** yn eich ffolder **Poster**.

Tasg D – Mewnosod siapiau sylfaenol ac ychwanegu testun

1 Gan ddefnyddio siapiau sylfaenol crëwch logo tebyg i'r un sydd i'w weld isod. Defnyddiwch liw RGB R120, G 243 a B 30 ar gyfer y glaswellt. Defnyddiwch liw RGB R107, G 93 a B 44 ar gyfer y bawen. Defnyddiwch liw RGB R0, G 0 a B 0 ar gyfer y testun. Dylai maint y llun fod tua 1.79cm o led a 1.63 o uchder.

Cyfunwch yr haenau a ddefnyddiwyd i greu'r logo ac enwch yr haen yn **Logo**.

2 Lleolwch gornel chwith uchaf yr haen **Logo** i mewn i'r ddelwedd **Poster_2** ar y cyfesurynnau canlynol: echelin X 162.5 ac echelin Y 185.

3 Cadwch y ddelwedd **Poster_2** gyda'r enw **Poster_3**.

4 Gwnewch y Logo'n well gydag effaith cysgod.

5 Gan ddefnyddio'r offeryn priodol ychwanegwch y testun canlynol wedi'i fformatio i ffont llawysgrifen neu italig du 12 pt.

Am bob ymholiad galwch yn ein siop neu ffoniwch 01623 123456.

6 Gwiriwch eich dogfen am unrhyw wallau sillafu.

7 Gan ddefnyddio canllawiau lleolwch gornel chwith uchaf y testun i 1435 picsel o'r chwith ac 185 picsel o'r brig.

8 Cadwch y ddelwedd **Poster_3** gyda'r enw **Poster_4**.

9 Fflatiwch y ddelwedd.

10 Cadwch y ddelwedd wedi'i fflatio gyda'r enw **Poster_wedi ei gwblhau.**

Gan ddefnyddio'r dogfen **Atebion,** a ddarparwyd gan eich asesydd, atebwch y canlynol:

1 Disgrifiwch ba ddyluniadau neu ddelweddau sydd eu hangen.

2 Disgrifiwch ba hawlfraint a chyfyngiadau eraill sy'n berthnasol i'r defnydd o ddelweddau.

3 Disgrifiwch y cyd-destun y caiff dyluniadau neu ddelweddau eu defnyddio ynddyn nhw.

4 Disgrifiwch ba fformat ffeil i'w ddefnyddio ar gyfer cadw dyluniadau a delweddau i weddu i wahanol ddulliau cyflwyno.

5 Cadwch eich dogfen **Atebion** i'ch ardal waith gyda'r enw **AtebionXX** (lle XX yw eich blaenlythrennau).

6 Caewch unrhyw gymwysiadau.

Ar ôl i chi orffen gweithio:

- Llofnodwch bob dogfen uwchben eich enw a labelwch bob cyfrwng storio symudol â'ch enw.
- Rhowch yr holl waith papur a'r cyfryngau storio symudol i'ch asesydd.

Os yw'r aseiniad wedi'i wneud dros fwy nag un cyfnod, rhaid dychwelyd yr holl waith papur a'r cyfryngau symudol i arolygydd y prawf ar ddiwedd pob sesiwn.

Diwedd yr aseiniad

Am y ddogfen hon
Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr holl asesu ar gyfer Lefel 2 Meddalwedd fideo (7513-203).

Mae'r wybodaeth am dasg yr aseiniad hwn wedi'i chynnwys yng *Nghyfarwyddiadau'r Ymgeisydd.* Mae'r nodiadau arweiniad canlynol yn cael eu darparu i gynorthwyo aseswyr wrth gynllunio cyflwyno'r aseiniad i ymgeiswyr.

Gwybodaeth bwysig
Ni ddylid dangos y ddogfen hon i ymgeiswyr cyn yr aseiniad.

Gellir rhoi adborth i ymgeiswyr ar ôl yr aseiniad gan ddefnyddio'r ddogfen hon, ond nid oes hawl ganddynt i gadw copi.

Iechyd a diogelwch
Rhaid pwysleisio ar bob adeg bwysigrwydd arferion gweithio diogel, galwadau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974; (HASWA) neu reoliadau iechyd a diogelwch cenedlaethol a/ neu leol, rheoliadau cysylltiedig â Chodau Ymarfer cysylltiedig â diwydiant penodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddebau oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd (UE) lle y bo'n briodol. Mae gan ymgeiswyr gyfrifoldebau dros gynnal diogelwch eraill yn ogystal â'u diogelwch eu hunain. Rhaid atal unrhyw un sy'n ymddwyn yn anniogel a rhoi rhybudd addas iddo. Ni ddylid byth ganiatáu i ymgeiswyr barhau aseiniad os yw wedi torri'r gofynion hyn. Gall hyn ymddangos yn llym, ond ar wahân i ganlyniadau annymunol posibl, rhaid i bob ymgeisydd feithrin arferion angenrheidiol ar gyfer y gweithle.

Lleoliad yr aseiniad
Unrhyw amgylchedd addas.

Cyfarpar angenrheidiol ar gyfer yr aseiniad hwn
Tybir y bydd ymgeiswyr yn gweithio ar system Rwydwaith ac os felly bydd ganddynt gyfeiriadur Hafan a mynediad darllen i ardal y gellir darllen gwybodaeth yr aseiniad ohoni (ffeiliau a chyfeiriaduron). Os caiff cyfrifiaduron ar-unig eu defnyddio, gellir rhoi manylion yr aseiniad ar ddisg sefydlog a storio ffeiliau'r ymgeisydd ar gyfrwng storio symudol.

Dyfais cipio fideo priodol h.y. webcam, camera fideo neu ddyfais symudol. Meddalwedd golygu fideo h.y. Windows Movie Maker, VideoPad ac ati

Tystiolaeth a chofnodi
Dylai canolfannau sicrhau bod yr holl ddata a gynhyrchir gan ymgeiswyr yn cael eu cadw'n ddiogel a bod aseiniadau, ar ôl eu lawrlwytho, yn cael eu cloi i ffwrdd yn ddiogel nes cael eu defnyddio. Cyfrifoldeb y ganolfan/asesydd yw sicrhau mai'r ymgeisydd sy'n gwneud aseiniad /prawf yw'r person cywir. Yn ddelfrydol, dylai canolfannau gynhyrchu strategaeth ysgrifenedig sy'n amlinellu eu gweithdrefnau i sicrhau bod yr uchod yn digwydd.

Diogelwch

Dylai canolfannau sicrhau bod yr holl ddata a gynhyrchir gan ymgeiswyr yn cael eu cadw'n ddiogel a bod aseiniadau, ar ôl eu lawrlwytho, yn cael eu cloi i ffwrdd yn ddiogel nes cael eu defnyddio. Cyfrifoldeb y ganolfan/asesydd yw sicrhau mai'r ymgeisydd sy'n gwneud aseiniad /prawf yw'r person cywir. Yn ddelfrydol, dylai canolfannau gynhyrchu strategaeth ysgrifenedig sy'n amlinellu eu gweithdrefnau i sicrhau bod yr uchod yn digwydd.

Ystyriaethau amser

Cafodd lwfansau amser eu hargymell ar gyfer pob aseiniad; serch hynny nid ydynt yn rhan o'r meini prawf marcio, a'u diben yw rhoi arweiniad. Fodd bynnag, os teimlwch fod ar ymgeisydd angen amser ychwanegol i gwblhau'r aseiniad, mater i'r asesydd ei benderfynu yw hyn.

Argymhellir y dylai'r ymgeiswyr gwblhau'r aseiniad hwn o fewn **dwy awr**.

Gellir cwblhau **Tasg B1** cyn yr aseiniad, nid oes cyfyngiad amser i'w osod ar y pwynt hwn.

Os caiff yr aseiniad ei wneud dros fwy nag un cyfnod, rhaid dychwelyd yr holl waith papur a'r cyfryngau symudol i arolygydd y prawf ar ddiwedd pob sesiwn.

Rhaid i gyfnod o saith diwrnod fynd heibio cyn y gall ymgeisydd aflwyddiannus ail-wneud yr aseiniad hwn.

Ffeiliau i'w darparu gan y ganolfan

	Ar gyfer Tasg	Manyleb ffeil	Math	Enw'r ffeil
1	A ac C	Dogfen atebion	rtf	Atebion 203
2	B ac C	Delwedd	gif	BuyBuddy
3	B ac C	Delwedd	gif	Chattibo
4	B ac C	Delwedd	gif	InsureU
5	B ac C	Delwedd	gif	Nethols
6	B ac C	Fideo	wmv	BuyBuddy
7	B ac C	Fideo	wmv	Chattibo
8	B ac C	Fideo	wmv	InsureU
9	B ac C	Fideo	wmv	Nethols

Mae'r holl ffeiliau a'r enghreifftiau wedi'u gweithio ar gael ar ein gwefan.

Lefel 2 Meddalwedd fideo (7513-203)

Meini prawf marcio a graddio

Sut i farcio'r aseiniad hwn

7 Ar gyfer **tri** o'r ffactorau a nodwyd yng nghwestiwn 6 uchod, eglurwch sut y dylid eu hystyried wrth nodi Cynllun Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer busnes. (6 marc)

8 a) Disgrifiwch **bedwar** offeryn / sianel wahanol a gaiff eu defnyddio ar gyfer Cyfryngau Cymdeithasol. (4 marc)

8 b) Disgrifiwch **un** nodwedd ac **un** fantais am **bob** offeryn/sianel a ddisgrifiwyd yn 8 a). (8 marc)

8 c) Nodwch **ddau** fath posibl o gynulleidfa ar gyfer pob offeryn/sianel a ddisgrifiwyd yn 8 a). (4 marc)

8 ch) Esboniwch **ddau** fater posibl ar gyfer **pob** offeryn/sianel sy'n cael eu disgrifio yn 8 a). (4 marc)

9 Esboniwch, gyda **thri** rheswm, pam dylai busnes fesur canlyniadau defnyddio offer/sianelau Cyfryngau Cymdeithasol. (3 marc)

10 a) Diffiniwch dargedau CALLACH (Smarter). (1 marc)

S

M

A

R

T

E

R

10 b) Am **bob un** o'r uchod, esboniwch pam mae hi'n bwysig gosod targedau CALLACH/smarter gan gyfeirio at wahanol offer/sianelau Cyfryngau Cymdeithasol. (7 marc)

11 Disgrifiwch **bedair** elfen Polisi Cyfryngau Cymdeithasol a Chanllawiau ar gyfer busnes. (4 marc)

12 Esboniwch yn gryno pam mae hi'n bwysig cael polisi rheoli enw da. (1 marc)

13 Disgrifiwch **un** fantais rheoli newidiadau canfyddiad mewn enw da busnes. (1 marc)

14 Disgrifiwch **bedair** ffordd o reoli newidiadau canfyddiad yn enw da busnes. (4 marc)

15 Esboniwch **ddau** ganlyniad defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol ar gyllideb **pob un** o'r mathau canlynol o fusnesau:

- masnachwr unigol
- grŵp gwirfoddoli lleol
- menter gorfforaethol.

(6 marc)

16 Disgrifiwch sut byddai llwyddiant yn edrych wrth ddefnyddio gwahanol offer / sianelau cyfryngau cymdeithasol am **bob un** o'r mathau canlynol o fusnes:

- masnachwr unigol
- grŵp gwirfoddoli lleol
- menter gorfforaethol.

(3 marc)

(Cyfanswm 76 marc)

Ar ôl i chi orffen gweithio:

- Llofnodwch bob darn o waith a gynhyrchwyd gyda'ch enw a labelwch bob cyfrwng storio symudol â'ch enw.
- Rhowch yr holl waith papur a'r cyfryngau storio symudol i'ch asesydd.

Os yw'r aseiniad wedi'i wneud dros fwy nag un cyfnod, rhaid dychwelyd yr holl waith papur a'r cyfryngau symudol i arolygydd y prawf ar ddiwedd pob sesiwn.

Diwedd yr aseiniad

Lefel 3 Egwyddorion allweddeiriau ac optimeiddio (7513-302)

Cynnwys yr aseiniad

Cwmpas yr aseiniad

Mae'r tabl isod yn nodi'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr uned hon.

Tasg	Cwmpas y dasg	Tystiolaeth ofynnol
A Cwestiynau atebion byr	MPA 1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5, MPA 2.1, 2.2, 2.5, 2.8, 2.10, MPA 3.1, 3.2, 3.3, 3.5, MPA 4.1, 4.2, 4.3, 4.4, 4.5	Cwestiynau atebion byr wedi'u cwblhau
B Senario	MPA 2.3, 2.4, 2.6, 2.7, 2.9, MPA 3.4, MPA 4.6	Adroddiad

Lefel 3 Egwyddorion allweddeiriau ac optimeiddio (7513-302)

Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio

Am y ddogfen hon

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr holl asesu ar gyfer Lefel 3 Egwyddorion allweddeiriau ac optimeiddio (7513-302).

Mae'r wybodaeth am dasg yr aseiniad hwn wedi'i chynnwys yng *Nghyfarwyddiadau'r Ymgeisydd.* Mae'r nodiadau arweiniad canlynol yn cael eu darparu i gynorthwyo aseswyr wrth gynllunio cyflwyno'r aseiniad i ymgeiswyr.

Lleoliad yr aseiniad

Unrhyw amgylchedd addas.

Cyfarpar angenrheidiol ar gyfer yr aseiniad hwn

- Cyfrifiadur gyda meddalwedd prosesu geiriau.
- Argraffydd.

Tystiolaeth a chofnodi

Dylid cadw'r holl waith a gynhyrchir gan yr ymgeisydd gyda'i gilydd. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd roi ei enw a'i rif cofrestru ar bob darn o waith, lle mae'n briodol.

Nodiadau ar gynnwys yr aseiniad hwn

Gellir cwblhau'r cwestiynau atebion byr â llaw neu'n electronig.

Yn Nhasg B:

- mae angen i'r busnes a ddewisir gan yr ymgeisydd gael ei gymeradwyo gan yr asesydd
- gall yr amser a gymerir i ymchwilio i allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddeiriau amrywio yn dibynnu ar y busnes a ddewisir
- mae angen i'r wefan nad yw'n symudol a ddewisir gan yr ymgeisydd gael ei chymeradwyo gan yr asesydd.

Diogelwch

Pan fydd aseiniad yn cael ei gymryd dros fwy nag un sesiwn, rhaid rhoi'r holl ddogfennaeth, gwaith papur a chyfryngau symudol mewn lleoliad diogel. Rhaid dychwelyd yr holl waith papur a chyfryngau symudol i oruchwyliwr y prawf ar ddiwedd pob eisteddiad.

Ystyriaethau amser

Cafodd lwfansau amser eu hargymell ar gyfer pob aseiniad; serch hynny nid ydynt yn rhan o'r meini prawf marcio, a'u diben yw rhoi arweiniad.

Argymhellir y dylai'r ymgeiswyr gwblhau'r aseiniad hwn o fewn **tair awr a hanner.** Pe baech yn cael bod ymgeisydd yn cymryd llawer mwy o amser i gwblhau'r aseiniad, cysylltwch â'r Sicrhäwr Ansawdd Allanol (SAA). Caiff estyniadau ar gyfer ymgeiswyr â gofynion arbennig eu trin ar wahân.

Rhaid i gyfnod o saith diwrnod fynd heibio cyn y gall ymgeisydd aflwyddiannus ail-wneud yr aseiniad hwn.

Lefel 3 Egwyddorion allweddeiriau ac optimeiddio (7513-302)

Tasg A: Meini prawf marcio a graddio

Meini prawf graddio
Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill **39** marc i basio Tasg A

Tasg A	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
1	1.1	Atebion wedi'u cwblhau	Diffiniwch ystyr y term Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO).	Gweler y pecyn atebion am atebion enghreifftiol.	1 marc	
2	1.2	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch, gan roi **dau** reswm, pam mae Optimeiddio Peiriant Chwilio (SEO) yn bwysig i fusnes.		2 farc	
3	1.3	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch yn gryno'r termau canlyniadau chwilio 'organig' ac 'â thâl'		2 farc	
4	1.4	Atebion wedi'u cwblhau	Disgrifiwch y termau 'Talu fesul Clic' a Thalu fesul-Argraff'.		2 farc	
5	1.5	Atebion wedi'u cwblhau	Disgrifiwch **bum** ffactor y mae angen eu hystyried fel rhan o gynllun Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO).		5 marc	
6	2.1	Atebion wedi'u cwblhau	Diffiniwch ystyr y term 'allweddair'.		1 marc	
7	2.2	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **bum** ffactor y mae angen eu hystyried wrth adnabod allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair.		5 marc	
8	2.5	Atebion wedi'u cwblhau	Nodwch **chwe** lleoliad ar wefan lle mae peiriant chwilio yn chwilio am allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair.		3 marc	
9	2.8	Atebion wedi'u cwblhau	a) Disgrifiwch **ddwy** ffordd y mae adeiladu dolennau'n gallu helpu peiriant chwilio i rancio gwefan.		2 farc	
			b) Disgrifiwch **ddwy** ffordd y mae adeiladu dolennau'n gallu rhwystro peiriant chwilio i rancio gwefan.		2 farc	

Tasg A	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
10	3.1	Atebion wedi'u cwblhau	Diffiniwch ystyr y term offeryn Optimeiddio Cyfryngau Cymdeithasol (SMO).	Gweler y pecyn atebion am atebion enghreifftiol.	1 marc	
11	2.10	Atebion wedi'u cwblhau	Ceir ffactorau sy'n gallu effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar sut mae peiriant chwilio yn rancio gwefannau. Disgrifiwch **dri** ffactor cadarnhaol a **thri** ffactor negyddol.		6 marc	
12	3.2	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch gan roi **dau** reswm pam mae Optimeiddio Cyfryngau Cymdeithasol (SMO) yn bwysig i fusnes.		2 farc	
13	3.3	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch, gydag **un** enghraifft o **bob un**, sut mae peiriannau chwilio'n cynnwys yr offer/sianelau Cyfryngau Cymdeithasol canlynol yn eu canlyniadau: • Rhwydweithio Cymdeithasol. • fideo • blogiau • fforymau • llyfrnod cymdeithasol.		5 marc	
14	3.5	Atebion wedi'u cwblhau	Cymharwch **ddwy** ffordd y mae Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO) ar gyfer gwefan yn wahanol i Optimeiddio Cyfryngau Cymdeithasol (SMO)		2 farc	
15	4.1	Atebion wedi'u cwblhau	Diffiniwch ystyr y term Optimeiddio Symudol.		1 marc	
16	4.2	Atebion wedi'u cwblhau	Nodwch **dair** ffordd sut mae Optimeiddio Symudol yn wahanol i Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO).		3 marc	
17	4.3	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **ddau** reswm pam mae Optimeiddio Symudol yn bwysig i fusnes.		2 farc	
18	4.4	Atebion wedi'u cwblhau	Disgrifiwch, gan roi **tair** enghraifft, sut i optimeiddio gwefan i'w gweld ar ddyfais symudol.		3 marc	
19	4.5	Atebion wedi'u cwblhau	Rhowch **ddau** reswm pam gallai allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair ar gyfer gwefan symudol fod yn wahanol i'r rhai ar gyfer gwefan nad yw'n symudol		2 farc	
				Cyfanswm marciau ar gael ar gyfer Tasg A	**52**	
				Marciau a enillwyd		

Lefel 3 Egwyddorion allweddeiriau ac optimeiddio (7513-302)

Tasg A: Atebion

1 Diffiniwch ystyr y term Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO). (1 marc)

E.e. Y broses o wella lleoliad gwefan mewn canlyniadau peiriannau chwilio sy'n digwydd yn naturiol yn seiliedig ar dermau chwilio a nodwyd.

2 Esboniwch, gan roi **dau** reswm, pam mae Optimeiddio Peiriant Chwilio (SEO) yn bwysig i fusnes. (2 farc)

E.e.

- **Mae angen i wefan ymddangos ar yr ychydig dudalennau cyntaf o ganlyniadau peiriant chwilio er mwyn cael ymwelwyr.**
- **I gael yr ymwelwyr iawn i wefan.**
- **Bydd y wefan yn cynnwys mwy o wybodaeth berthnasol.**

3 Esboniwch yn gryno'r termau canlyniadau chwilio 'organig' ac 'â thâl' (2 farc)

E.e.

- Mae canlyniadau organig yn digwydd yn naturiol yn seiliedig ar sut mae'r peiriant chwilio yn graddio eich gwefan drwy fynegeio rhannau allweddol o'r wefan.

- Canlyniadau chwilio â thâl yw'r canlyniadau a gafwyd gan berchennog y wefan sy'n talu ffi i'r peiriant chwilio am arddangos eu gwefannau.

*(**Un** marc ar gyfer organig, **un** marc ar gyfer â thâl)*

4 Disgrifiwch y termau 'Talu fesul Clic' a Thalu fesul argraff'. (2 farc)

E.e.

- **Cyfeiria Talu fesul Clic at daliad sy'n cael ei wneud bob tro y caiff y rhestr ei chlicio; Yn gyffredinol, mae Talu fesul Clic yn fwy cost-effeithiol gan y gall busnes olrhain cliciau penodol.**
- **Cyfeiria Tâl fesul Argraff at daliad sy'n cael ei wneud i ddangos hysbyseb nifer penodol o weithiau; Mae'r cyfraddau fel arfer fesul 1000 o argraffiadau.**

*(**un** marc ar gyfer Talu-fesul-Clic, **un** marc ar gyfer Talu-fesul-argraff)*

5 Disgrifiwch **bum** ffactor y mae angen eu hystyried fel rhan o gynllun Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO). (5 marc)

E.e.

- **Ystyried am beth mae pobl yn chwilio.**
- **Defnyddio termau a ddefnyddir gan y bobl sy'n chwilio, nid termau a ddefnyddir yn y busnes.**
- **Defnyddio ymadroddion allweddair yn hytrach nag allweddair yn unig.**
- **Gwirio pa beiriannau chwilio sy'n cael eu ffafrio gan y ddarpar gynulleidfa.**
- **Mae'r ffordd y mae peiriannau chwilio yn rancio gwefan ar gyfer geiriau allweddol.**
- **Adeiladu dolenni.**
- **Ranc tudalen.**
- **Segmentiad cynulleidfa.**
- **Demograffeg y gynulleidfa.**
- **Defnyddio tagiau.**

6 Diffiniwch ystyr y term 'allweddair'. (1 marc)

E.e. Allweddair yw'r gair neu'r term sy'n cael ei ddefnyddio i chwilio am rywbeth ar y rhyngrwyd.

7 Esboniwch **bum** ffactor y mae angen eu hystyried wrth adnabod allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair. (5 marc)

E.e.

- **Geiriau y mae'r gynulleidfa bosibl yn eu defnyddio.**
- **Jargon priodol i'r busnes.**
- **Defnyddio ymadroddion Cynffon Hir i'w canfod yn haws.**
- **Pa mor gystadleuol yw'r allweddair a/neu'r ymadroddion allweddair.**
- **Pa mor aml y mae'r ymadrodd allweddair a/neu allweddair yn cael ei chwilio bob mis yn yr ardal ddaearyddol berthnasol.**
- **Unrhyw gamsillafu a/neu gyfystyron o'r allweddair a /neu'r ymadrodd allweddair.**

8 Nodwch **chwe** lleoliad ar wefan lle mae peiriant chwilio yn chwilio am allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair. (3 marc)

E.e.

- **url**
- **tag meta teitl tudalen**
- **tag meta disgrifiad tudalen**
- **penawdau**
- **cynnwys**
- **delweddau tagiau Alt**
- **teitlau delweddau**
- **testun angor ar ddolenni.**

*(**un** marc ar gyfer **dau** le)*

a) Disgrifiwch **ddwy** ffordd y mae adeiladu dolennau'n gallu helpu peiriant chwilio i rancio gwefan. (2 farc)

E.e.

- **Mewn-ddolennu: Gyrru traffig i wefan o fannau eraill.**
- **Dolennu allanol: gwella credadwyedd gwefan trwy gael dolenni allanol i wefan o fannau eraill â ranc uchel.**
- **Croes ddolennu: Dolennu rhwng safleoedd**
- **Testun angor: Gwella SEO trwy ddefnyddio dolenni mewnol gydag allweddair neu destun angor.**

9 b) Disgrifiwch **ddwy** ffordd y mae adeiladu dolennau'n gallu rhwystro peiriant chwilio i rancio gwefan. (2 farc)

E.e.

- **Yn cynnwys gormod o ddolenni allanol.**
- **Yn cynnwys dolenni amherthnasol.**
- **Yn cynnwys dolenni o wefannau y mae peiriannau chwilio'n eu hystyried o ranc is.**

10 Diffiniwch ystyr y term offeryn Optimeiddio Cyfryngau Cymdeithasol (SMO). (1 marc)

E.e. Y broses o ddefnyddio allweddeiriau yng ngweithgareddau Cyfryngau Cymdeithasol busnes.

11 Ceir ffactorau sy'n gallu effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar sut mae peiriant chwilio yn rancio gwefannau. Disgrifiwch **dri** ffactor cadarnhaol a **thri** ffactor negyddol. (6 marc)

E.e.

Cadarnhaol:

- **Allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair yn arddulliau testun Pennawd 1 / Pennawd 2.**
- **Allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair yn nhestun Alt.**
- **Allweddeiriau a/neu ymadroddion fel testun capsiwn.**
- **Allweddair a/neu ymadrodd allweddair testun fel testun angor ar gyfer dolenni.**

Negyddol:

- **Allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair wedi'u cuddio mewn testun gwyn ar gefndir gwyn.**
- **Allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair wedi'u defnyddio yn 30% o gynnwys y dudalen.**
- **Allweddair a/neu ymadrodd allweddair prif lythrennau bryd bynnag y cânt eu defnyddio.**

12 Esboniwch gan roi **dau** reswm pam mae Optimeiddio Cyfryngau Cymdeithasol (SMO) yn bwysig i fusnes. (2 farc)

E.e.

- **I ddenu'r gynulleidfa gywir ar Gyfryngau Cymdeithasol i'w hymrwymo.**
- **I wneud y defnydd gorau o amser ar Gyfryngau Cymdeithasol.**
- **I wrando am sgyrsiau perthnasol i ymrwymo.**

13 Esboniwch, gydag **un** enghraifft o **bob un**, sut mae peiriannau chwilio'n cynnwys yr offer/sianelau Cyfryngau Cymdeithasol canlynol yn eu canlyniadau: (5 marc)

E.e.

- **Rhwydweithio Cymdeithasol: Caiff rhai proffiliau rhwydweithio cymdeithasol eu dangos mewn canlyniadau chwilio - caiff diweddariadau eu dangos wrth i'r chwilio wella.**
- **Fideo: caiff capsiwn a sgriptiau eu cynnwys mewn canlyniadau chwilio, yn yr un modd â thagiau.**
- **Blogiau: Caiff teitlau, url a chynnwys blogiau ogystal â thagiau eu cynnwys yng nghanlyniadau chwilio.**
- **Fforymau: caiff allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair eu defnyddio.**
- **Llyfrnod cymdeithasol: caiff ei ddefnyddio i gynyddu gwelededd canlyniadau.**

14 Cymharwch **ddwy** ffordd y mae Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO) ar gyfer gwefan yn wahanol i Optimeiddio Cyfryngau Cymdeithasol (SMO) (2 farc)

E.e.

- **Mae SEO yn dibynnu ar sut mae peiriannau chwilio yn rancio gwefan, mae SMO yn dibynnu ar fod busnes yn siarad yn uniongyrchol â'i gynulleidfa.**
- **Mae angen ymgysylltu a chyfathrebu â chynulleidfa busnes ar SMO, nid oes angen ymgysylltu â SEO.**
- **Mae nodau pob un yn debygol o fod yn wahanol.**
- **Gall y gynulleidfa darged fod yn wahanol.**

15 Diffiniwch ystyr y term Optimeiddio Symudol. (1 marc)

E.e. Optimeiddio symudol yw'r broses o optimeiddio gwefan ar gyfer dyfeisiau symudol.

16 Nodwch **dair** ffordd sut mae Optimeiddio Symudol yn wahanol i Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO). (3 marc)

E.e.

- **Mae ar offer symudol angen map safle XML.**
- **Dolenni o gyfeiriaduron penodol i offer symudol ar gyfer offer symudol.**
- **Data meta penodol.**
- **Gwahanol set o allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair.**
- **Gall fod angen symleiddio gwefannau symudol.**
- **Gall fformatau ffeiliau fod yn wahanol.**

17 Esboniwch **ddau** reswm pam mae optimeiddio symudol yn bwysig i fusnes. (2 farc)

E.e.

- **Mae nifer cynyddol o ddyfeisiau symudol wedi'u galluogi i fod ar Ryngrwyd.**
- **Mae pobl yn aml yn defnyddio dyfeisiau symudol i wirio gwybodaeth wrth fynd o le i le.**
- **Mae gwefannau sydd heb eu hoptimeiddio ar ddyfeisiau symudol yn gallu bod yn rhwystr i gwsmeriaid posibl.**

18 Disgrifiwch, gan roi **tair** enghraifft, sut i optimeiddio gwefan i'w gweld ar ddyfais symudol. (3 marc)

E.e.

- **Fersiwn wedi'i symleiddio o gynnwys ar wefan.**
- **Botymau gweithredu clir.**
- **Mae'r wefan yn ailfeintio'n awtomatig i ymddangos ar wahanol lwyfannau dyfeisiau symudol.**
- **Wedi'i optimeiddio ar gyfer allweddeiriau byrrach.**
- **Cyflwyno'r wefan i gyfeiriaduron symudol.**

19 Rhowch **ddau** reswm pam gallai allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair ar gyfer gwefan symudol fod yn wahanol i'r rhai ar gyfer gwefan nad yw'n symudol (2 farc)

E.e.

- **Oherwydd cyfyngiadau bysellfwrdd, mae pobl yn teipio geiriau byrrach i beiriannau chwilio symudol.**
- **Mae chwiliadau symudol yn fwy tebygol o gynnwys ymadroddion chwilio penodol.**
- **Bydd llawer o chwiliadau symudol yn lleol.**
- **Gall y gynulleidfa sy'n defnyddio dyfeisiau symudol fod yn wahanol.**

(Cyfanswm 52)

Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill **39** marc i basio Tasg A

Meini prawf graddio

Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill **21** marc i basio Tasg B

Tasg B	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
	2.3, 2.4, 2.6, 2.7, 2.9, 3.4, 4.6	Adroddiad	Crëwch adroddiad ar sail y busnes a ddewisoch chi. Mae angen i chi geisio cymeradwyaeth gan yr asesydd cyn parhau. Rhaid i'r adroddiad cynnwys y canlynol:	Wedi cael cymeradwyaeth cyn parhau. Wedi llunio adroddiad seiliedig y busnes a ddewiswyd gan gynnwys y canlynol:	Amh	Amh
			• Rhestr o **bum** allweddair a/neu ymadroddion allweddair ar gyfer y busnes a ddewiswyd.	• Rhestr o **bum** allweddair a/neu ymadroddion allweddair ar gyfer y busnes a ddewiswyd e.e. • Hyfforddwr ffitrwydd personol Swindon • Colli pwysau Swindon • Maetheg Swindon • Cadw'n ffit Swindon • Hyfforddiant personol Swindon.	5 marc	
			• Nodwch y symiau chwilio misol a rancio cystadleuwyr ar gyfer yr ymadroddion allweddair a/neu allweddair a ddewiswyd. Cymerwch brint sgrin o'r canlyniadau a'i gynnwys yn yr adroddiad.	• Wedi nodi'r symiau chwilio misol a rancio'r cystadleuwyr ar gyfer yr ymadroddion allweddair a/neu allweddair a ddewiswyd. Wedi cymryd print sgrin o'r canlyniadau a'i gynnwys yn yr adroddiad. Gweler print sgrin 1 isod.	1 marc	

			• Ar gyfer **un** o'r allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair a nodwyd, defnyddiwch **dri** pheiriant chwilio i nodi'r **tair** gwefan uchaf mewn canlyniadau chwiliad organig. Cymerwch brintiau sgrin o'r canlyniadau a'u cynnwys yn yr adroddiad. Nodwch ba ganlyniadau sy'n rhai organig.	• Ar gyfer **un** o'r allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair a nodwyd, defnyddiwch **dri** pheiriant chwilio i nodi'r **tair** gwefan uchaf mewn canlyniadau chwiliad organig. Wedi cymryd printiau sgrin o'r canlyniadau a'u cynnwys yn yr adroddiad. Wedi nodi pa ganlyniadau sy'n rhai organig. Gweler print sgrin 2 isod. (**Un** marc ar gyfer **pob** peiriant chwilio sy'n dangos **tair** gwefan).	3 marc	
			• Dewiswch **dair gwefan** o **bob un** o'r canlyniadau chwilio. Am **bob un** o'r gwefannau nodwch **dair** ffordd o weithredu'r allweddair a/neu ymadrodd allweddair.	• Dewiswyd **tair gwefan** o **bob un** o'r canlyniadau chwilio. Am **bob un** o'r gwefannau nodwch **dair** ffordd o weithredu'r allweddair a/neu ymadrodd allweddair, e.e. • **www.sallykidd.co.uk** ymadrodd allweddair wedi'i ddefnyddio mewn teitl, disgrifiad, wedi'i ddefnyddio'n rhannol yn h1 • **http://www.nrpt.co.uk/town/personal-trainers-Swindon.htm** ymadrodd allweddair wedi'i ddefnyddio mewn url, teitl, disgrifiad • **www.personaltrainingswindon.com** ymadroddion allweddair wedi'u defnyddio mewn url, teitl, disgrifiad (**un** marc ar gyfer **pob** ffordd mewn **tair** gwahanol wefan)	9 marc	
			• Adolygwch allweddeiriau a ddewiswyd ac awgrymu **un** ffordd o ddefnyddio'r allweddeiriau'n well.	• Wedi adolygu'r allweddeiriau a ddewiswyd ac awgrymu **un** ffordd o ddefnyddio'r allweddeiriau'n well, e.e. dylid defnyddio'r ymadrodd allweddair fel ymadrodd cyflawn.	1 marc	

			• Crëwch gynllun adeiladu dolenni ar gyfer gwefan y busnes a ddewiswyd. Cynhwyswch **dair** ffordd o greu dolenni ac amserlen ar gyfer gweithredu.	• Wedi creu cynllun adeiladu dolenni ar gyfer gwefan y busnes a ddewiswyd. Wedi cynnwys **tair** ffordd o greu dolenni ac amserlen ar gyfer gweithredu. • Proffiliau rhwydweithio cymdeithasol • Cofrestriad ar wefannau lleol am ddim • Creu dolenni o fewn tudalennau'r wefan • amserlen am bob gweithred am bob un o'r uchod (un marc ar gyfer **pob** gweithred ac amser)	3 marc	
			• Esboniwch **dair** ffordd y gall yr allweddair a/neu'r ymadroddion allweddair a ddewiswyd gael eu defnyddio i wrando ac ymrwymo â chynulleidfa ar Gyfryngau Cymdeithasol.	• Wedi esbonio **tair** ffordd y gall yr allweddair a/neu'r ymadroddion allweddair a ddewiswyd gael eu defnyddio i wrando ac ymrwymo â chynulleidfa ar Gyfryngau Cymdeithasol e.e. • Gwrando am allweddeiriau ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol ac ymrwymo â chynulleidfa • Defnyddio allweddeiriau mewn gosodiadau blog ac annog sylwadau • Creu rhybuddion ar sail allweddeiriau i ddechrau sgwrs	3 marc	
			• Dewiswch wefan ansymudol o'ch dewis i'w hadolygu. Rhaid cytuno ar y wefan gyda'r asesydd. Cynhwyswch gyfeiriad gwefan yn yr adroddiad.	• Wedi dewis a chytuno ar wefan ansymudol o'u dewis i'w hadolygu. Wedi cynnwys cyfeiriad y wefan yn yr adroddiad.	Amh	Amh
			• Nodwch **dri** newid y mae angen eu gwneud i'r wefan a ddewiswyd wedi'i hoptimeiddio ar gyfer llwyfannau dyfeisiau symudol.	• Wedi nodi **tri** newid y mae angen eu gwneud i'r wefan a ddewiswyd wedi'i hoptimeiddio ar gyfer llwyfannau dyfeisiau symudol e.e. • map safle XML • Data Meta wedi'u newid • Delweddau wedi'u graddio.	3 marc	
				Cyfanswm marciau ar gael ar gyfer Tasg B	**28**	
				Marciau a enillwyd		

Print sgrin 1

Find keywords

Based on one or more of the following:

Word or phrase	Personal fitness trainer Swindon Lose weight Swindon Nutrition Swindon get fit Swindon personal training Swindon
Website	www.google.com/page.html
Category	Apparel

Only show ideas closely related to my search terms

Advanced Options and Filters | Locations: United Kingdom | Languages: English | Devices: Desktops and laptops

Search | Sign in with your AdWords login information to see the full set of ideas for this search.

About this data

Download | View as text | More like these | Sorted by Relevance | Columns

Search terms (5) 1 - 5 of 5

Keyword	Competition	Global Monthly Searches	Local Monthly Searches
personal fitness trainer swindon	-	-	-
lose weight swindon	-	-	-
nutrition swindon	-	-	-
get fit swindon	-	-	-
personal training swindon	High	390	390

Keyword ideas (55) 1 - 50 of 55

Keyword	Competition	Global Monthly Searches	Local Monthly Searches
personal training cardiff	High	1,300	1,300
personal training bristol	High	1,600	1,600
personal trainer bournemouth	High	880	720
personal training leicester	High	880	880
personal training milton keynes	High	480	390
personal trainers swindon	High	390	390

Print sgrin 2

personal fitness trainer swindon

About 52,600 results (0.37 seconds)

Ads - Why these ads?

Get that Beachbody
www.straps-uk.co.uk/
Get Fit, Get active Running School
Unit 94 Basepoint Business Centre
01793 721977

David Lloyd™ **Swindon** - 7 Day Trial Membership For £25.
www.davidlloyd.co.uk/**Swindon**
Get **Personal Trainer** Taster Today!
↳ Kids Go Free - Swindon Club Visit - Enquire Now - Corporate M'ship

Lose weight, get in shape | **fitness**-4-u.co.uk
www.**fitness**-4-u.co.uk/
Personal Training in **Swindon** and the surrounding areas

Personal Training Cirencester, Gloucestershire. **Fitness Trainer ...**
www.sallykidd.co.uk/
Sally Kidd is a **personal trainer** providing health, **fitness** and **training** programmes in **...** I am in commuter distance to **Swindon**, Cheltenham and Gloucester.

personal trainers in **Swindon** NRPT directory
www.nrpt.co.uk › Town PT's
Finding **personal trainers** in **Swindon** is as simple as using the NRPT directory. **...** **trainer** that can also provide nutritional advice, thereby tackling your **fitness ...**

Personal Training in **Swindon** : PT **Fitness**
www.**personaltrainingswindon**.com/
6 days ago – Since opening our doors in **Swindon**, Wiltshire in 2007, we at PT **Fitness** have dedicated ourselves to helping our clients with **personal training**, **...**

Canlyniadau chwilio organig

Lefel 3 Egwyddorion allweddeiriau ac optimeiddio (7513-302)

Dalen marcio aseiniad

Enw'r ymgeisydd

Enw'r ganolfan

Rhif yr ymgeisydd

Rhif y ganolfan

Tasg		**Canlyniad**
A	Cwestiynau atebion byr	Llwyddo / Methu
B	Adroddiad	Llwyddo / Methu

Rhaid pasio pob tasg i ganiatáu i radd gael ei hawlio.

Rwy'n gallu cadarnhau mai fy ngwaith fy hun yw'r dystiolaeth sydd wedi'i rhestru ar gyfer yr uned hon a'i fod wedi ei wneud yn yr amodau a'r cyd-destun a nodwyd yn y fanyleb asesu.

Llofnod yr Ymgeisydd Dyddiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi cyflawni holl ofynion yr uned hon gyda'r dystiolaeth a restrir a bod yr asesiad wedi ei gynnal o dan yr amodau a'r cyd-destun penodol, a'i fod yn ddilys, yn awthentig, yn ddibynadwy, yn gyfredol ac yn ddigonol.

Llofnod tiwtor/asesydd Dyddiad

Llofnod cydlynydd sicrhau ansawdd (lle mae'n berthnasol) Dyddiad

Llofnod Sicrhäwr Ansawdd Allanol (SAA) (lle mae'n berthnasol) Dyddiad

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Lefel 3 Egwyddorion allweddeiriau ac optimeiddio (7513-302)

Cyflwyniad - Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Am y ddogfen hon

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr holl asesu ar gyfer Lefel 3 Egwyddorion allweddeiriau ac optimeiddio (7513-302).

Iechyd a diogelwch

Gofynnir i chi ystyried pwysigrwydd arferion gweithio diogel bob amser.

Rydych chi'n gyfrifol am gynnal eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill. Caiff unrhyw un sy'n ymddwyn yn anniogel ei atal a rhoddir rhybudd addas iddo. **Ni** chewch chi barhau ag aseiniad os ydych chi'n torri unrhyw un o'r gofynion Iechyd a Diogelwch. Gall hyn ymddangos yn llym, ond ar wahân i ganlyniadau annymunol posibl, rhaid i chi feithrin arferion angenrheidiol ar gyfer y gweithle.

Amser a ganiateir

Yr amser a argymhellir ar gyfer yr aseiniad hwn yw **tair awr a hanner.**

Lefel 3 Egwyddorion Allweddeiriau ac optimeiddio (7513-302)

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Amser a ganiateir: Tair awr a hanner

Trefn Aseiniad:

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys **dwy** dasg:

- Tasg A Cwestiynau atebion byr
- Tasg B Adroddiad

Tasg A Cwestiynau atebion byr

Enw'r ymgeisydd Dyddiad

1 Diffiniwch ystyr y term Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO).

(1 marc)

2 Esboniwch, gan roi **dau** reswm, pam mae Optimeiddio Peiriant Chwilio (SEO) yn bwysig i fusnes. (2 farc)

3 Esboniwch yn gryno'r termau canlyniadau chwilio 'organig' ac 'â thâl' (2 farc)

4 Disgrifiwch y termau 'Talu fesul Clic' a Thalu fesul argraff'. (2 farc)

5 Disgrifiwch **bum** ffactor y mae angen eu hystyried fel rhan o gynllun Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO. (5 marc)

6 Diffiniwch ystyr y term 'allweddair'. (1 marc)

7 Esboniwch **bum** ffactor y mae angen eu hystyried wrth adnabod allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair. (5 marc)

8 Nodwch **chwe** lleoliad ar wefan lle mae peiriant chwilio yn chwilio am allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair. (3 marc)

9 a) Disgrifiwch **ddwy** ffordd y mae adeiladu dolennau'n gallu helpu peiriant chwilio i rancio gwefan. (2 farc)

9 b) Disgrifiwch **ddwy** ffordd y mae adeiladu dolennau'n gallu rhwystro peiriant chwilio i rancio gwefan. (2 farc)

10 Diffiniwch ystyr y term offeryn Optimeiddio Cyfryngau Cymdeithasol (SMO). (1 marc)

11 Ceir ffactorau sy'n gallu effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol ar sut mae peiriant chwilio yn rancio gwefannau. Disgrifiwch **dri** ffactor cadarnhaol a **thri** ffactor negyddol. (6 marc)

Cadarnhaol

Negyddol

12 Esboniwch gan roi **dau** reswm pam mae Optimeiddio Cyfryngau Cymdeithasol (SMO) yn bwysig i fusnes. (2 farc)

13 Esboniwch, gydag **un** enghraifft o **bob un,** sut mae peiriannau chwilio'n cynnwys yr offer/sianelau Cyfryngau Cymdeithasol canlynol yn eu canlyniadau: (5 marc)

- Rhwydweithio Cymdeithasol.
- fideo
- blogiau
- fforymau
- llyfrnod cymdeithasol.

14 Cymharwch **ddwy** ffordd y mae Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO) ar gyfer gwefan yn wahanol i Optimeiddio Cyfryngau Cymdeithasol (SMO) (2 farc)

15 Diffiniwch ystyr y term Optimeiddio Symudol. (1 marc)

16 Nodwch **dair** ffordd sut mae Optimeiddio Symudol yn wahanol i Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO). (3 marc)

17 Esboniwch **ddau** reswm pam mae optimeiddio symudol yn bwysig i fusnes. (2 farc)

18 Disgrifiwch, gan roi **tair** enghraifft, sut i optimeiddio gwefan i'w gweld ar ddyfais symudol. (3 marc)

19 Rhowch **ddau** reswm pam gallai allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair ar gyfer gwefan symudol fod yn wahanol i'r rhai ar gyfer gwefan nad yw'n symudol (2 farc)

(Cyfanswm 52)

Tasg B Adroddiad

Darllenwch y senario a ddarparwyd er mwyn cwblhau Tasg B. Fel arall, gallwch gwblhau Tasg B ar sail busnes o'ch dewis.

Senario

Mae Jane newydd ddechrau busnes fel hyfforddwr ffitrwydd personol yn Swindon, Wiltshire. Mae'n cynnig cyfarwyddyd un i un i bobl sydd â ffordd brysur o fyw sydd am wella eu ffitrwydd a / neu golli pwysau. Yn gyffredinol, mae cwsmeriaid Jane yn bobl dros 30 oed. Mae Jane hefyd yn faethegydd cymwysedig ac mae'n credu yng ngrym maeth a ffitrwydd i ddarparu iechyd meddwl a chorfforol. Mae Jane am hyrwyddo ei busnes drwy wefan ac mae angen cyngor ar yr allweddeiriau neu'r ymadroddion allweddair a ddylai gael eu defnyddio ar ei gwefan.

Ysgrifennwch adroddiad yn seiliedig ar eich busnes dewisol. Mae angen i chi geisio cymeradwyaeth gan yr asesydd cyn parhau.

Rhaid i'r adroddiad cynnwys y canlynol:

- rhestr o **bump** o allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair ar gyfer y busnes a ddewiswyd (5 marc)
- nodwch y symiau chwilio misol a rancio cystadleuwyr ar gyfer yr ymadroddion allweddair a/neu allweddair a ddewiswyd. Cymerwch brint sgrin o'r canlyniadau a'i gynnwys yn yr adroddiad (1 marc)
- ar gyfer **un** o'r allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddair a nodwyd, defnyddiwch **dri** pheiriant chwilio i nodi'r **tair** gwefan uchaf mewn canlyniadau chwiliad organig. Cymerwch brintiau sgrin o'r canlyniadau a'u cynnwys yn yr adroddiad. Nodwch ba ganlyniadau sy'n rhai organig (3 marc)
- dewiswch **dair** gwefan o **bob un** o'r canlyniadau chwilio. Am **bob un** o'r gwefannau nodwch **dair** ffordd o weithredu'r allweddair a/neu ymadrodd allweddair (9 marc)
- adolygwch allweddeiriau a ddewiswyd ac awgrymwch **un** ffordd o ddefnyddio'r allweddeiriau'n well (1 marc)
- crëwch gynllun adeiladu dolenni ar gyfer gwefan y busnes a ddewiswyd. Cynhwyswch **dair** ffordd o greu dolenni ac amserlen ar gyfer gweithredu. (3 marc)
- Esboniwch **dair** ffordd y gall yr allweddeiriau a/neu'r ymadroddion allweddair a ddewiswyd gael eu defnyddio i wrando ac ymrwymo â chynulleidfa ar Gyfryngau Cymdeithasol (3 marc)

Dylech hefyd ddewis gwefan ansymudol o'ch dewis i'w hadolygu. **Rhaid** cytuno ar y wefan gyda'r asesydd. Cynhwyswch gyfeiriad y wefan yn yr adroddiad. Dylech hefyd nodi **tri** newid y mae angen eu gwneud i'r wefan a ddewiswyd wedi'i hoptimeiddio ar gyfer llwyfannau dyfeisiau symudol. (3 marc)

(Cyfanswm 28)

Ar ôl i chi orffen gweithio:

- Llofnodwch bob darn o waith a gynhyrchwyd gyda'ch enw a labelwch bob cyfrwng storio symudol â'ch enw.
- Rhowch yr holl waith papur a'r cyfryngau storio symudol i'ch asesydd.

Os yw'r aseiniad wedi'i wneud dros fwy nag un cyfnod, rhaid dychwelyd yr holl waith papur a'r cyfryngau symudol i arolygydd y prawf ar ddiwedd pob sesiwn.

Diwedd yr aseiniad

Lefel 3 Rheoli rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer busnes (7513-303)

Cynnwys yr aseiniad

Cwmpas yr aseiniad

Mae'r tabl isod yn nodi'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr uned hon.

Tasg	Cwmpas y dasg	Tystiolaeth ofynnol
A Cwestiynau atebion byr	MPA 1.1, 1.2, 1.3, 1.4, MPA 2.1, 2.3, 2.4, 2.5, 2.6, 2.7, 2.8, 2.9, 2.10, 2.11, MPA 3.1, 3.2, 3.3, 3.7, MPA 4.1, 4.2, MPA 5.1, 5.3, 5.4	Cwestiynau atebion byr wedi'u cwblhau
B Senario	MPA 1.5, 1.6, MPA 2.2, MPA 3.4, 3.5, 3.6, MPA 4.3, 4.4, MPA 5.2	Adroddiad
C Monitro busnes cystadleuydd	MPA 3.8, 3.9, MPA 5.5, 5.6, 5.7	Adroddiad

Lefel 3 Rheoli rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer busnes (7513-303)

Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio

Am y ddogfen hon

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr holl asesu ar gyfer Lefel 3 Rheoli rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer busnes (7513-303).

Mae'r wybodaeth am dasg yr aseiniad hwn wedi'i chynnwys yng *Nghyfarwyddiadau'r Ymgeisydd.* Mae'r nodiadau arweiniad canlynol yn cael eu darparu i gynorthwyo aseswyr wrth gynllunio cyflwyno'r aseiniad i ymgeiswyr.

Lleoliad yr aseiniad

Unrhyw amgylchedd addas.

Cyfarpar angenrheidiol ar gyfer yr aseiniad hwn

- Cyfrifiadur gyda meddalwedd prosesu geiriau.
- Argraffydd.

Tystiolaeth a chofnodi

Dylid cadw'r holl waith a gynhyrchir gan yr ymgeisydd gyda'i gilydd. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd roi ei enw a'i rif cofrestru ar bob darn o waith, lle mae'n briodol.

Nodiadau ar gynnwys yr aseiniad hwn

- Ar gyfer Tasg B gall ymgeiswyr ddefnyddio'r senario a ddarperir neu ddewis busnes o'u dewis.
- Bydd angen i'r Asesydd gymeradwyo'r busnes a ddewisir gan yr ymgeisydd, rhag ofn na ddefnyddir y senario.
- Ar gyfer Tasg C mae angen i'r ymgeisydd ddewis busnes gwahanol i Dasg B, y bydd angen i'r asesydd ei gymeradwyo i sicrhau ei fod yn **cyfathrebu'n weithredol gan ddefnyddio offer rhwydweithio cymdeithasol.**
- Oherwydd yr amser cyffredinol sydd ei angen i gwblhau'r aseiniad cyffredinol, gellir cymryd tasgau mewn gwahanol eisteddiadau.
- Mae'r gweithgaredd monitro y tu allan i'r lwfans amser, gellir ei gwblhau y tu allan i'r ystafell ddosbarth neu'r tu mewn, yn dibynnu ar ddewis y ganolfan.
- Gellir cwblhau'r cwestiynau atebion byr â llaw neu'n electronig.

Diogelwch

Pan fydd aseiniad yn cael ei gymryd dros fwy nag un sesiwn, rhaid rhoi'r holl ddogfennaeth, gwaith papur a chyfryngau symudol mewn lleoliad diogel. Rhaid dychwelyd yr holl waith papur a chyfryngau symudol i oruchwyliwr y prawf ar ddiwedd pob eisteddiad.

Ystyriaethau amser

Cafodd lwfansau amser eu hargymell ar gyfer pob aseiniad; serch hynny nid ydynt yn rhan o'r meini prawf marcio, a'u diben yw rhoi arweiniad.

Argymhellir y dylai'r ymgeiswyr gwblhau'r aseiniad hwn o fewn **pedair awr a hanner.** Pe baech yn cael bod ymgeisydd yn cymryd llawer mwy o amser i gwblhau'r aseiniad, cysylltwch â'r Sicrhäwr Ansawdd Allanol (SAA). Caiff estyniadau ar gyfer ymgeiswyr â gofynion arbennig eu trin ar wahân.

Rhaid i gyfnod o saith diwrnod fynd heibio cyn y gall ymgeisydd aflwyddiannus ail-wneud yr aseiniad hwn.

Meini prawf graddio

Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill **49** marc i basio Tasg A

Tasg A	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
1	1.1	Atebion wedi'u cwblhau	Diffiniwch ystyr y term rhwydweithio cymdeithasol.	Gweler y pecyn atebion am atebion enghreifftiol.	2 farc	
2	1.2	Atebion wedi'u cwblhau	a) Nodwch **un** enghraifft o offer rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer **pob un** o'r lleoliadau daearyddol canlynol: • Brasil • Rwsia • Tsieina		3 marc	
			b) Nodwch **bedair** enghraifft o offer rhwydweithio cymdeithasol yn gyffredinol ar gyfer Ewrop ac UDA.		4 marc	
3	1.3	Atebion wedi'u cwblhau	Ar gyfer **dau** o'r offer a nodwyd yng nghwestiwn 2 a) neu 2 b): a) Cymharwch nhw gan roi **dau** debygrwydd o ran eu nodweddion/ swyddogaethau. b) Gwrthgyferbynnwch nhw gan roi **dau** wahaniaeth o ran eu nodweddion/ swyddogaethau.		2 farc 2 farc	
4	1.4	Atebion wedi'u cwblhau	Disgrifiwch **bedwar** cyfyngiad am **bob un** o'r **ddau** offeryn a nodwyd yng nghwestiwn 2 a) neu 2 b).		2 farc	
5	2.1	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **bedwar** rheswm dros grwpio pobl rydych chi'n gwrando arnyn nhw wrth ddefnyddio offer rhwydweithio cymdeithasol.		4 marc	
6	2.3	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch pam mae hi'n bwysig gwerthuso'r angen am lysgenhadon brand wrth ddefnyddio rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer busnes.		1 marc	

Tasg A	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
7	2.4, 2.8, 2.11	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **ddwy** nodwedd o ymddygiad ar-lein sy'n helpu i adnabod **pob un** o'r canlynol. • llysgenhadon brand • dylanwadwyr.	Gweler y pecyn atebion am atebion enghreifftiol.	4 marc	
8	2.5, 2.9, 2.11	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **ddwy** ffordd o sicrhau dilysrwydd /hygrededd pob un o'r canlynol: • llysgenhadon brand • dylanwadwyr.		4 marc	
9	2.6, 2.11	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **dair** ffordd o reoli pob un o'r canlynol: • llysgenhadon brand • dylanwadwyr.		6 marc	
10	2.7	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch yn gryno pam mae hi'n bwysig gwerthuso'r angen am ddylanwadwyr wrth ddefnyddio rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer busnes.		1 marc	
11	3.1	Atebion wedi'u cwblhau	Diffiniwch ystyr y term offeryn rheoli cyfryngau cymdeithasol.		1 marc	
12	3.2	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **wyth** rheswm pam mae hi'n bwysig defnyddio offer rheoli cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â rhwydweithio cymdeithasol.		8 marc	
13	3.3	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **dair** anfantais defnyddio offer rheoli cyfryngau cymdeithasol.		3 marc	
14	3.7	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **dair** mantais defnyddio URLau byr o fewn cynnwys.		3 marc	
15	4.1	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **ddwy** nodwedd o: • dadansoddi risg • rheoli argyfwng digidol		4 marc	
16	4.2	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch pam mae hi'n bwysig monitro risg.		1 marc	
17	5.1	Atebion wedi'u cwblhau	Diffiniwch y term mesur a monitro rhwydweithio cymdeithasol.		1 marc	

Tasg A	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
18	5.3	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **bum** defnydd o offer mesur a monitro rhwydweithio cymdeithasol.		5 marc	
19	5.4	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **bedwar** cyfyngiad offer mesur a monitro rhwydweithio cymdeithasol.		4 marc	
Cyfanswm marciau ar gael ar gyfer Tasg A					**65**	
Marciau a enillwyd						

Lefel 3 Rheoli rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer busnes (7513-303)

Tasg A: Atebion

1 Diffiniwch ystyr y term rhwydweithio cymdeithasol. (2 farc)

E.e.

- **Meithrin ac adlewyrchu perthnasoedd ymhlith pobl sy'n rhannu diddordebau a/neu weithgareddau.**
- **Darparu modd i ddefnyddwyr ryngweithio a ffurfio cymunedau dros y Rhyngrwyd**
- **Rhannu syniadau, gweithgareddau, digwyddiadau a diddordebau o fewn eu rhwydweithiau unigol.**

2a) Nodwch **un** enghraifft o offer rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer **pob un** o'r lleoliadau daearyddol canlynol: (3 marc)

- Brasil
- Rwsia
- Tsieina.

E.e.

Am Brasil: Orkut

Am Rwsia: V-Kontackte

Am Tsieina: RenRen, QQ

2 b) Nodwch **bedair** enghraifft o offer rhwydweithio cymdeithasol cyffredinol i Ewrop ac UDA. (4 marc)

E.e.

- **Facebook**
- **LinkedIn**
- **Twitter**
- **Google Plus**
- **YouTube**
- **Pinterest**

*(**un** marc ar gyfer **pob** enghraifft)*

3 Ar gyfer **dau** o'r offer a nodwyd yng nghwestiwn 2 a) neu 2 b):

a) Cymharwch nhw gan roi **dau** debygrwydd o ran eu nodweddion/ swyddogaethau. (2 farc)

b) Cyferbynnwch nhw gan roi **dau** wahaniaeth o ran eu nodweddion/ swyddogaethau. (2 farc)

E.e.

Nodweddion:

- **Creu proffil**
- **Ychwanegu ffrindiau i'r rhwydwaith,**
- **Gosod gosodiadau preifatrwydd**
- **Rhwydweithio gyda ffrindiau,**
- **Uwchlwytho ffotograffau,**
- **Rhannu dolenni**
- **Rhannu fideos**
- **Rhoi sylw ar ryngweithio,**
- **Pleidleisio ar ryngweithio,**
- **Ailddarlledu,**
- **Blocio cynnwys annymunol**
- **Addasu rhestrau ffrindiau,**
- **Tagiau eitemau,**
- **Cysylltu ag eitemau a uwchlwythwyd,**
- **Ychwanegu cymwysiadau i'r proffil**

Swyddogaethau:

- **Hyd y neges**
- **Amlder**
- **Ffurfiol**
- **Anffurfiol**
- **Cystadleuol**
- **Math cyfryngau**

*(**un** marc ar gyfer **dwy** nodwedd / swyddogaeth wedi'u nodi'n gywir am bob rhwydwaith)*

4 Disgrifiwch **bedwar** cyfyngiad am **bob un** o'r **ddau** offeryn a nodwyd yng nghwestiwn 2 a) neu 2 b). (2 farc)

E.e.

- **Mae Walled Garden yn atal cyfathrebu'r tu allan i'r rhwydwaith,**
- **Preifatrwydd,**
- **Diogelwch,**
- **Proffil personol neu fusnes,**
- **Sbam**
- **Hacwyr**
- **Rheoli amser**
- **Diffyg integreiddio gydag offer arall**

*(**Un** marc ar gyfer **pedwar** cyfyngiadau fesul offeryn)*

5 Esboniwch **bedwar** rheswm dros grwpio pobl rydych chi'n gwrando arnyn nhw wrth ddefnyddio offer rhwydweithio cymdeithasol. (4 marc)

E.e.

- **Marchnata wedi'i dargedu**
- **gwrando**
- **Dylanwadu**
- **llysgenhadon brand**
- **mwyhad**

6 Esboniwch pam mae hi'n bwysig gwerthuso'r angen am lysgenhadon brand wrth ddefnyddio rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer busnes (1 marc)

E.e.

- **Gall llysgenhadon brand estyn y neges farchnata y tu hwnt i gyrraedd arferol y busnesau**
- **I annog pobl eraill i hoffi'r brand**

7 Esboniwch **ddwy** nodwedd o ymddygiad ar-lein sy'n helpu i adnabod **pob un** o'r canlynol.

- llysgenhadon brand (2 farc)
- dylanwadwyr. (2 farc)

E.e.

Priodweddau llysgenhadon brand:

- **Rhoi sylw cadarnhaol am y brand**
- **Yn frwd am gyhoeddiadau nwyddau newydd y brand**
- **Yn gweithredu fel eiriolwyr dros y busnes,**
- **Yn amddiffyn y brand rhag beirniadaeth,**
- **Yn annog pobl eraill i ddod yn fwy cadarnhaol am y brand**

Priodweddau dylanwadwyr:

- **Mae ganddyn nhw ddilyniant enfawr a chysylltiadau ar-lein**
- **Bod yn gredadwy ac yn wybodus am dueddiadau'r diwydiant**
- **Bod yn ddiduedd**

8 Esboniwch **ddwy** ffordd o sicrhau dilysrwydd /hygrededd **pob un** o'r canlynol:

- llysgenhadon brand (2 farc)
- dylanwadwyr. (2 farc)

E.e.

Dilysrwydd a chredadwyedd llysgenhadon brand:

- **Gwylio'u ffrwd wybodaeth am sôn yn gyson am y brand**
- **Edrych am weithgareddau cymunedol ar-lein**
- **Gwylio sut mae pobl eraill yn ymateb i'r llysgenhadon brand**
- **Monitro eu hagweddau am y brand**
- **Monitro cyfeiriadau gan y llysgennad**

Dilysu credadwyedd Dylanwadwyr:

- **Erthyglau ar-lein pobl eraill yn cyfeirio atynt.**
- **Maent yn wrthrychol ac yn gytbwys am frand,**
- **Maent yn amlwg yn eu diwydiant / galwedigaeth**

9 Esboniwch **dair** ffordd o reoli **pob un** o'r canlynol:

- llysgenhadon brand (3 marc)
- dylanwadwyr. (3 marc)

E.e.

Rheoli llysgenhadon brand:

- **Creu cysylltiadau wedi'u henwi o fewn busnes fel pwyntiau cydlynu i lysgenhadon**
- **Creu briffiau corfforaethol i lysgenhadon**
- **Creu rhaglenni gwobrwyo i lysgenhadon brand**
- **Rhoi iddyn nhw fynediad i wybodaeth freintiedig yn gynnar**
- **I brofi beta cynhyrchion newydd,**
- **I roi blaenrybudd i lysgenhadon am gynnyrch newydd**
- **I dreialu potensial cynhyrchion newydd**

Rheoli dylanwadwyr:

- **Cynnal cyfarfodydd diweddaru brand cyson a gwahodd dylanwadwyr**
- **Creu rhaglen wobrwyo i gydnabod dylanwadwyr gan gymheiriaid (anariannol)**
- **Creu tîm i ryngweithio gyda dylanwadwyr a rhoi gwybodaeth lle mae angen**
- **Enwebu rhywun y tu mewn i'r brand i fod yn gyswllt penodol i'r dylanwadwr**

10 Esboniwch yn gryno pam mae hi'n bwysig gwerthuso'r angen am ddylanwadwyr wrth ddefnyddio rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer busnes. (1 marc)

E.e. Gall dylanwadwyr estyn y neges farchnata y tu hwnt i gyrraedd arferol y busnesau

11 Diffiniwch ystyr y term 'offeryn rheoli cyfryngau cymdeithasol'. (1 marc)

E.e. Mae offeryn rheoli cyfryngau cymdeithasol yn feddalwedd sy'n gallu helpu busnesau i wrando, rheoli, mesur ac ymateb i sgyrsiau am eu brand ar rwydweithiau cymdeithasol, mewn modd effeithlon o ran amser.

12 Esboniwch **wyth** rheswm pam mae hi'n bwysig defnyddio offer rheoli cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â rhwydweithio cymdeithasol. (8 marc)

E.e.

- **Amserlennu negeseuon am effeithlonrwydd amser ar draws gwahanol barthau amser**
- **Dadansoddi ymatebion i ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol**
- **Ymateb yn awtomatig i negeseuon**
- **Dilyn neu ddad-ddilyn cefnogwyr yn awtomatig**
- **Codi sylw pan gaiff trothwyau a ddiffiniwyd eu cyrraedd**
- **Codi sylw pan gaiff termau cymdeithasol eu crybwyll**
- **Trefnu ffrydiau gwaith cyfryngau cymdeithasol**
- **Sôn am allweddeiriau**
- **Sôn am frand**
- **Trefnu grwpiau**
- **Offer proffil ar gyfer cyfathrebu ar-lein fel personau gwahanol**
- **Dadansoddeg ar gyfer deall y gymuned a'i mesur.**
- **Monitro cynnwys cyfryngau cymdeithasol fel blogiau, Wikis, micro-flogiau, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, gwefannau rhannu fideo/lluniau, fforymau, byrddau negeseuon, a chynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr yn gyffredinol.**
- **Gall marchnatwyr bennu swm a theimlad o gwmpas brand neu bwnc mewn cyfryngau cymdeithasol.**

13 Esboniwch **dair** anfantais defnyddio offer rheoli cyfryngau cymdeithasol. (3 marc)

E.e.

- **Nid yw'r gymuned rwydweitho gymdeithasol yn ymagweddu'n dda tuag at ymatebion awtomeiddiedig**
- **Nid yw offer dadansoddi agweddau awtomeiddiedig yn gwbl gywir**
- **Cost ychwanegol wrth ddefnyddio mathau penodol o offer**
- **Anhawster wrth ddadansoddi canlyniadau rhai offer dadansoddol heb hyfforddiant arbenigol**
- **Mae rhai llwyfannau rhwydweithio cymdeithasol yn rhoi gwerth is i ddiweddariadau sy'n cael eu hanfon gan offer rheoli cyfryngau cymdeithasol felly efallai na fydd y wybodaeth yn ymddangos ar linellau amser defnyddwyr**
- **Colli'r gynulleidfa berthnasol,**
- **Caniatáu ailadrodd negeseuon yn hawdd sy'n gallu ymddangos fel pe baent yn tra-reoli'r sgwrs a rhoi canfyddiad o sbamio**

14 Esboniwch **dair** mantais defnyddio URLau byr o fewn cynnwys. (3 marc)

E.e.

- **Arbed nodau mewn maes diweddaru cyfyngedig**
- **Cuddio'r gwir URL**
- **Gallu i olrhain sawl gwaith mae dolen wedi ei chlicio**
- **Gallu i addasu'r URL i enw perthnasol i barth y brand (e.e. : Goo.gl, is.gd, zd, net, v.gd, t.co)**
- **Gallu i olrhain gweithgareddau unigol mewn ymgyrchoedd cyfochrog o'r un dudalen gyda rhai cwtogwyr URL**

15 Esboniwch **ddwy** nodwedd o:

- ddadansoddi risg (2 farc)
- reoli argyfwng digidol. (2 farc)

E.e.

Dadansoddi risg:

- **i bennu a oes digon o adnoddau i gynnal y cyfathrebu cyfryngau cymdeithasol**
- **Dadansoddiad cost a budd i gynnal gweithgaredd yn erbyn peidio â chynnal gweithgaredd**
- **Risgiau wrth beidio ag ymwneud â sgyrsiau cyfryngau cymdeithasol**
- **Risgiau mewn peidio â gwrando ar sgyrsiau cyfryngau cymdeithasol**
- **caiff ei wneud cyn i weithgareddau cyfryngau cymdeithasol ddechrau**
- **I asesu a oes angen newidiadau mewn ymarfer**
- **I asesu a oes angen cyfathrebu cyfryngau cymdeithasol**

Rheoli argyfwng:

- **Gweithredu cynllun cyfathrebiadau os bydd rhywbeth yn mynd o le**
- **Hyfforddi staff i wylio am faterion Cysylltiadau Cyhoeddus**
- **Monitro rhagweithiol o gyfeiriadau at fran ar gyfer newid agweddau**
- **Creu tîm rheoli argyfwng gydag awdurdod i gynnal gweithdrefnau cyfyngu niwed priodol**
- **Caiff hyn ei wneud yn ystod problem cyfryngau cymdeithasol**

16 Esboniwch pam mae hi'n bwysig monitro risg. (1 marc)

E.e. I asesu a yw'r sefyllfa mewn perygl o gynyddu

2 Disgrifiwch **wyth** nodwedd / ffwythiant Meddalwedd Gwefan CMS. (8 marc)

E.e.

- **Mae templedi ar gael i ddefnyddio systemau CMS (am ddim neu gyda thâl) y gellir eu defnyddio**
- **Gellir creu nifer o rolau defnyddwyr gwahanol i ganiatáu i wahanol ddefnyddwyr gael mynediad i wahanol rannau o'r system CMS**
- **Cynnwys y gellir ei olygu y mae modd ei weld cyn golygu**
- **Cynnwys y mae modd ei ysgrifennu a'i amserlennu i'w gyhoeddi ar ddyddiad diweddarach**
- **Gallu i weithredu tagiau meta SEO ac URLau.**
- **Strwythur hierarchaidd gyda dyfnder a lled diderfyn**
- **Mae pob newid wedi'i wneud i'r wefan wedi'i gofnodi mewn log**
- **Gallu i uwchlwytho amrywiaeth o gyfryngau (dim angen defnyddio FTP)**
- **Mae'r rhan fwyaf o systemau CMS yn rhai ffynhonnell agored ac am ddim i'w defnyddio**
- **Pwyslais ar ochr y gweinydd**
- **Rhyngwyneb sythweledol.**

3 Esboniwch **un** fantais ac **un** anfantais defnyddio dewis hunan-letya i letya gwefan yn hytrach na defnyddio gwasanaeth lletya wedi'i ddarparu gan gwmni rhyngrwyd .com neu un tebyg. (2 farc)

E.e.

Manteision:

- **caiff y cynnwys ei berchenogi gan y person sy'n talu am y lletya**
- **mwy o hyblygrwydd dros URLau SEO a thagiau meta**
- **creu tudalennau statig yn ogystal â thudalennau dynamig**

Anfanteision:

- **cost datblygu a storio.**

4 Esboniwch sut mae **pob un** o'r canlynol yn effeithio ar gynnwys a defnydd gwefannau. (3 marc)

- Deddf Hawlfraint.
- Deddf Diogelu data.
- Llên-ladrad.

E.e.

- **Deddf Hawlfraint - mae pob cynnwys – delweddau, fideo, testun, sain ati yn destun hawlfraint fel bod angen i ddelweddai gael eu prynu neu dylid defnyddio delweddau rhydd o hawlfraint.**
- **Deddf Diogelu data – rhaid cael caniatâd y defnyddiwr cyn defnyddio cwcis.**
- **Llên-ladrad – rhaid i'r cynnwys a'r cyfyngau fod yn unigryw a rhaid cyfeirio at unrhyw ffynhonnell.**

5 Esboniwch **bryd** a **pham** dylid defnyddio pob un o'r mathau ffeil canlynol i gadw cynnwys. (3 marc)

E.e.

- **Delweddau:**
- **Mae delwedd yn cael ei chadw fel ffeil .gif os yw'r ddelwedd yn cynnwys llai na 256 o liwia h.y. ffotograff. Gall .jpgau gael eu cywasgu ond mae colled data ac ansawdd yn digwydd.**
- **Mae delwedd yn cael ei chadw fel ffeil .gif os yw'r ddelwedd yn cynnwys llai na 256 o liwiau neu os oes angen cefndir tryloyw. Yn cywasgu ffeil ddelwedd yn well na .jpg gyda cholled gyfyngedig o ddata. Caiff lluniadau llinell a fector eu cadw fel .gif. Gellir cysylltu ffeiliau .gif i ffurfio 'gif animeiddiedig**
- **Ffeiliau sain**
- **mae ffeiliau .wav o safon uchel a chânt eu defnyddio'n helaeth ar ddyfeisiau cydnaws â Windows. Mae'n creu maint ffeil mawr iawn felly mae ystyriaethau storio. Mae chwarae'n ôl yn gyfyngedig i chwaraewyr penodol.**
- **caiff .mp3 ei ddefnyddio'n helaeth fel fformat sy'n gydnaws â nifer fawr o chwaraewyr a dyfeisiau. Mae'n ffeil sain gywasgedig felly gall colled ddigwydd yn ystod cywasgu. Mae angen trwydded ar .mp3. Mae ffeiliau .og yn dod yn fwyfwy poblogaidd wrth ddylunio gwefannau,**
- **Ffeiliau fideo**
- **Mae .MOV yn ffeil fideo cydnaws i fformat Apple sydd ag angen Chwaraewr QuickTime. Ffeiliau mawr, safon uchel.**
- **Mae MP4 yn fformat ffeil fideo addas i ddyfeisiau symudol a dyfeisiau gemau. Mae angen chwaraewr MP4 ar wefan i weld y fideo.**

*(**Un** marc ar gyfer **pob** pâr)*

6 Diffiniwch ystyr y term 'Gwefannau hygyrch'. (1 marc)

E.e. Mae gwefan hygyrch yn wefan sy'n hygyrch i bawb waeth beth fo unrhyw anabledd.

7 Esboniwch yn gryno'r canllawiau cyfreithiol o ran hygyrchedd gwe. (1 marc)

E.e. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn golygu bod rhaid i berchennog gwefan sicrhau bod modd iddi gael ei chyrchu gan bobl ag anableddau.

8 Esboniwch sut dylid addasu **pum** rhan o wefan i'w gwneud yn hygyrch. (5 marc)

E.e.

- **Rhaid i ddelweddau gynnwys Amgen (Alternate)**
- **Rhaid i wybodaeth wedi'i thablu gynnwys penawdau**
- **Rhaid i chwaraewyr sain a fideo fod yn hygyrch**
- **Dylai gwybodaeth fod yn hawdd ei darllen a heb ddibynnu ar liw i'w deall**
- **Rhaid bod gan ryngwyneb defnyddwyr Fysell Mynediad i'w llywio trwy fysellfwrdd**
- **Dylai capsiynau gael eu darparu ar gyfer fideos.**
- **Mae ffurfiau amgen o CPATCHA ar gael**
- **Defnyddio dalennau arddull**
- **Dewis o ddalennau arddulliau.**

9 Esboniwch **bedwar** rheswm pam mae hi'n bwysig mesur traffig i wefan. (4 marc)

E.e.

- **I ddeall o ble mae traffig yn dod i'r wefan**
- **I ddadansoddi llwyddiant allweddeiriau ac /neu ymadroddion allweddair a ddefnyddir ar wefan**
- **I fesur llwyddiant cynllun marchnata o ran traffig gwefan**
- **I nodi unrhyw dudalennau sy'n achosi i ddefnyddwyr adael y wefan**
- **I noddi gwelliannau sydd eu hangen er mwyn i wefan gynyddu traffig**
- **I wirio bod yr alwad am weithredu ar dudalen we'n gweithio'n gywir.**

10 Nodwch **bedair** ffordd o fesur enillion ar fuddsoddiad (ROI) gwefan. (4 marc)

E.e.

- **Nifer y trawiadau ar dudalen gwefan neu flog**
- **Nifer y lawrlwythiadau adnoddau**
- **Galwadau i rif ffôn ar wefan**
- **Cysylltiadau o wefan**
- **Nifer o weithiau mae cynnwys ar wefan wedi'i rannu**
- **Nifer y cynhyrchion a brynwyd.**

11 Diffiniwch ystyr y term 'cyfradd bownsio'. (1 marc)

E.e. Canran yr ymweliadau y gadawodd yr ymwelydd ar y safle o lanio ar dudalen heb fynd i dudalen arall ar y wefan.

(Cyfanswm 33 marc)

Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill **25** marc i basio Tasg A

Meini prawf graddio

Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill **12** marc i basio Tasg B

Tasg B	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
	1.4, 1.5, 1.7, 1.8	Adroddiad	Dyluniwch wefan **pum** tudalen, gan gynnwys blog, i'w chreu gan ddefnyddio meddalwedd CMS ar gyfer busnes neu faes arall o ddiddordeb personol. Dylid cytuno ar y wefan o dan sylw gyda'r asesydd cyn parhau. Cyflwynwch adroddiad yn amlinellu eich dyluniad gwefan, gan gynnwys y canlynol:	Wedi dylunio gwefan **pum** tudalen, gan gynnwys blog, i'w chreu gan ddefnyddio meddalwedd CMS ar gyfer busnes neu faes arall o ddiddordeb personol. Dylid cytuno ar y wefan o dan sylw gyda'r asesydd cyn parhau. Wedi cyflwyno adroddiad yn amlinellu eich dyluniad gwefan, gan gynnwys y canlynol:	Amh	Amh
			• Disgrifiad byr a sut dylai llwyddiant edrych ar gyfer y wefan.	Disgrifiad byr a sut dylai llwyddiant edrych ar gyfer y wefan, e.e. • nifer y trawiadau ar y wefan • nifer y cynhyrchion a werthwyd • neu'n debyg fel sy'n briodol i'r wefan	1 marc	
			• Rhestr o eiriau allweddol a /neu ymadroddion allweddair i'w defnyddio ar bob tudalen heblaw'r blog.	Rhestr o eiriau allweddol a /neu ymadroddion allweddair i'w defnyddio ar bob tudalen heblaw'r blog. (**Un** marc ar gyfer **pob** allweddair a/neu ymadrodd allweddair fesul dudalen, hyd at fwyafswm o bedwar marc i'w dyfarnu)	4 marc	
			• Y templed i'w ddefnyddio.	Y templed i'w ddefnyddio. (Dydyn ni ddim yn disgwyl i ddysgwyr godio eu templed eu hunain).	1 marc	

Tasg B	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
			• Am **bob** tudalen, heblaw'r blog, cynlluniwch y cynnwys a'r cynllun gan ddangos: - testun (e.e. corff, penawdau) - delweddau (ffotograffau, delweddau) - **un** ddelwedd symudol (animeiddio, fideos, llif byw) yn unig ar **un** dudalen - **dau** wrthrych rhwydweithio cymdeithasol ar y wefan.	Am **bob** tudalen, cynlluniwch y cynnwys a'r cynllun gan ddangos: • testun ar **bob** tudalen (**un** marc y dudalen) • delwedd ar **bob** tudalen (**un** marc y dudalen) • delwedd symudol ar y wefan (**un** marc) • **dau** wrthrych rhwydweithio cymdeithasol ar y wefan. (**un** marc ar gyfer **dau** wrthrych) (Ateb yn briodol ar gyfer y wefan)	10 marc	
				Cyfanswm marciau ar gael ar gyfer Tasg B	**16**	
				Marciau a enillwyd		

Meini prawf graddio

Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill **21** marc i basio Tasg C

Tasg C	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
	1.6, 2.1, 2.2, 2.3 2.4, 2.5, 2.6, 2.7, 2.8	Gwefan	Ar sail y cynllun a grëwyd yn Nhasg B, crëwch wefan gan ddefnyddio meddalwedd CMS gan ddilyn y camau hyn:	Wedi creu gwefan gan ddefnyddio meddalwedd CMS gan ddilyn y camau hyn:	Amh	Amh
			• Cofrestrwch gyda darparwr lletya gydag enw parth addas fel sy'n briodol ar gyfer yr allweddeiriau a/neu ymadrodd allweddair a nodwyd yn Nhasg B.	Wedi cofrestru gyda darparwr lletya gydag enw parth addas fel sy'n briodol ar gyfer yr allweddeiriau a/neu ymadrodd allweddair a nodwyd yn Nhasg B.	1 marc	
			• Addaswch y templed fel sy'n briodol (e.e. pennyn/troedyn, bariau ochr, strwythur dewislen, lliwiau).	Gallai templed wedi'i addasu gynnwys: • pennyn / troedyn • bariau ochr • strwythur dewislen • lliwiau (fel sy'n briodol i'r wefan)	1 marc	
			• Poblogwch **bedair** tudalen o'r wefan gan ddefnyddio'r cynllun a gynlluniwyd.	Wedi poblogi **pedair** tudalen o'r wefan gan ddefnyddio'r cynllun a gynlluniwyd	4 marc	

Tasg C	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
			• Ychwanegwch nodweddion i wella'r wefan gan ddefnyddio **tri** o'r canlynol: - plugins - widgets - rhaglennu - dolenni - dolenni amlgyfrwng - snippets.	Wedi ychwanegu nodweddion i wella'r wefan gan ddefnyddio **tri** o'r canlynol: - plugins - widgets - rhaglennu - dolenni - dolenni amlgyfrwng - snippets (**un** marc am **bob** nodwedd hyd at uchafswm o **dri** marc)	3 marc	
			• Cynhwyswch allweddair neu ymadroddion allweddair a gynlluniwyd mewn tagiau meta ac URLau gwefan.	**Wedi cynnwys allweddair neu ymadroddion allweddair a gynlluniwyd mewn tagiau meta ac URLau gwefan** • Ar y dudalen hafan wedi cynnwys teitl, disgrifiad, pennawd, tag alt (**pedwar** marc) • Ar **ddwy** o'r tudalennau eraill wedi cynnwys url, teitl, disgrifiad, pennawd, tag alt (**pum** marc am **bob** tudalen hyd at gyfanswm o **ddeg** marc) Ni fyddai disgwyl allweddair neu ymadroddion allweddair helaeth ar flog neu dudalennau cysylltu â ni (Fel sy'n briodol ar gyfer y wefan)	14 marc	
			• Cynhwyswch y blog.	Wedi cynnwys y blog.	1 marc	
			• Cynhwyswch **ddwy** ddolen i safleoedd rhyngweithio cymdeithasol.	Wedi cynnwys **dwy** ddolen i safleoedd rhyngweithio cymdeithasol	2 farc	
			• Cynhwyswch fotwm i rannu cynnwys ar wefan.	Wedi cynnwys botwm i rannu cynnwys ar wefan.	1 marc	
			• Cadwch neu cyhoeddwch eich gwaith.	Wedi cadw neu gyhoeddi'r gwaith	1 marc	
			Yn awr gallwch ebostio URL y wefan i'r asesydd.	Wedi ebostio URL y wefan i'r asesydd.	Amh	Amh
				Cyfanswm marciau ar gael ar gyfer Tasg C	**28**	
				Marciau a enillwyd		

Meini prawf graddio

Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill **4** marc i basio Tasg CH

Tasg CH	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
	2.9	Sylwadau'r Asesydd	Galwch yr asesydd gan y cewch eich arsylwi am ran gyntaf Tasg CH. Gwiriwch:	Wedi gwirio:	Amh	Amh
			• bod y wefan yn gweithio'n gywir ar **dri** phorwr	bod y wefan yn gweithio'n gywir ar **dri** phorwr	1 marc	
			• bod **pob** dolen yn gweithio	**pob** dolen yn gweithio		
			• Bod yr **holl** elfennau cyfryngau a chyfoethog eu cyfryngau yn gweithio.	yr **holl** elfennau cyfryngau a chyfoethog eu cyfryngau yn gweithio.		
	2.10, 4.3	Adroddiad	Cynhyrchwch adroddiad i gynnwys y canlynol:	Wedi cynhyrchu adroddiad yn cynnwys y canlynol:	Amh	Amh
			• **Dau** brint sgrin yn dangos y broses o gofrestru'r wefan gyda **dau** beiriant chwilio.	**Dau** brint sgrin yn dangos y broses o gofrestru'r wefan gyda **dau** beiriant chwilio	2 farc	
			• **Un** print sgrin yn dangos y broses o gofrestru'r wefan gydag **un** offeryn analytig.	**Un** print sgrin yn dangos y broses o gofrestru'r wefan gydag **un** offeryn analytig	1 marc	
			• **Un** print sgrin yn dangos y cod urchin ar gyfer yr offeryn analytig a roddwyd ar y wefan	**Un** print sgrin yn dangos y cod urchin ar gyfer yr offeryn analytig a roddwyd ar y wefan	1 marc	
				Cyfanswm marciau ar gael ar gyfer Tasg CH	**5**	
				Marciau a enillwyd		

Meini prawf graddio

Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill **8** marc i basio Tasg D

Tasg D	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
	3.4, 3.5, 4.3, 4.5, 4.6	Adroddiad	Mae angen i'r wefan fod yn fyw am o leiaf **un** mis cyn parhau. Edrychwch ar eich gwybodaeth analytig ac ysgrifennwch adroddiad yn cwmpasu'r canlynol:	Wedi ysgrifennu adroddiad yn cwmpasu'r canlynol:		
			• Manylion sawl ymwelydd unigryw a gafodd y wefan yn ystod y mis	Manylion sawl ymwelydd unigryw a gafodd gwefan yn ystod y mis	1 marc	
			• Manylion am ba dudalennau sy'n derbyn y gyfradd fownsio uchaf	Manylion am ba dudalennau sy'n derbyn y gyfradd fownsio uchaf	1 marc	
			• Manylion ffynhonnell y traffig	Manylion ffynhonnell y traffig	1 marc	
			• Effaith y gyfradd fownsio	Effaith y gyfradd fownsio	1 marc	
			• **Un** gwelliant wedi'i argymell i'r wefan ar sail y wybodaeth analytig	**Un** gwelliant wedi'i argymell i'r wefan ar sail y wybodaeth analytig	1 marc	
			• Dadansoddiad o p'un a yw'r wefan yn dilyn canllawiau hygyrchedd, gan roi **tri** esboniad	Dadansoddiad o p'un a yw'r wefan yn dilyn canllawiau hygyrchedd, gan roi **tri** esboniad	3 marc	
			• **Tri** gwelliant wedi'u hargymell i sicrhau bod y wefan yn dilyn canllawiau hygyrchedd	**Tri** gwelliant wedi'u hargymell i sicrhau bod y wefan yn dilyn canllawiau hygyrchedd	3 marc	
				Cyfanswm marciau ar gael ar gyfer Tasg D	**11**	
				Marciau a enillwyd		

Lefel 3 Creu Gwefan System Rheoli cynnwys (7513-305)

Dalen marcio aseiniad

Enw'r ymgeisydd

Enw'r ganolfan

Rhif yr ymgeisydd

Rhif y ganolfan

Tasg		**Canlyniad**
A	Cwestiynau atebion byr	Llwyddo / Methu
B	Adroddiad	Llwyddo / Methu
C	Gwefan	Llwyddo / Methu
CH	Adroddiad	Llwyddo / Methu
D	Adroddiad	Llwyddo / Methu

Rhaid pasio pob tasg i ganiatáu i radd gael ei hawlio.

Rwy'n gallu cadarnhau mai fy ngwaith fy hun yw'r dystiolaeth sydd wedi'i rhestru ar gyfer yr uned hon a'i fod wedi ei wneud yn yr amodau a'r cyd-destun a nodwyd yn y fanyleb asesu.

Llofnod yr Ymgeisydd

Dyddiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi cyflawni holl ofynion yr uned hon gyda'r dystiolaeth a restrir a bod yr asesiad wedi ei gynnal o dan yr amodau a'r cyd-destun penodol, a'i fod yn ddilys, yn awthentig, yn ddibynadwy, yn gyfredol ac yn ddigonol.

Llofnod tiwtor/asesydd

Dyddiad

Llofnod cydlynydd sicrhau ansawdd (lle mae'n berthnasol)

Dyddiad

Llofnod Sicrhäwr Ansawdd Allanol (SAA) (lle mae'n berthnasol)

Dyddiad

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Am y ddogfen hon
Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr holl asesu ar gyfer Lefel 3 Creu gwefan system rheoli cynnwys (7513-305).

Iechyd a diogelwch
Gofynnir i chi ystyried pwysigrwydd arferion gweithio diogel bob amser.

Rydych chi'n gyfrifol am gynnal eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill. Caiff unrhyw un sy'n ymddwyn yn anniogel ei atal a rhoddir rhybudd addas iddo. **Ni** chewch chi barhau ag aseiniad os ydych chi'n torri unrhyw un o'r gofynion Iechyd a Diogelwch. Gall hyn ymddangos yn llym, ond ar wahân i ganlyniadau annymunol posibl, rhaid i chi feithrin arferion angenrheidiol ar gyfer y gweithle.

Amser a ganiateir
Yr amser a argymhellir ar gyfer yr aseiniad hwn yw **chwe awr.**

Lefel 3 Creu Gwefan System Rheoli Cynnwys (7513-305)

Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr

Amser a ganiateir: Chwe awr

Trefn Aseiniad:

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys **pum** tasg:

- Tasg A Cwestiynau atebion byr
- Tasg B Adroddiad
- Tasg C Gwefan
- Tasg Ch Adroddiad
- Tasg D Adroddiad

Tasg A Cwestiynau atebion byr

Atebwch y cwestiynau canlynol.

Enw'r ymgeisydd Dyddiad

1 Diffiniwch ystyr y term System Rheoli Cynnwys (CMS). (1 marc)

2 Disgrifiwch **wyth** nodwedd / swyddogaeth System Rheoli Cynnwys (CMS) Meddalwedd Gwefan. (8 marc)

3 Esboniwch **un** fantais ac **un** anfantais defnyddio dewis hunan-letya i letya gwefan yn hytrach na defnyddio gwasanaeth lletya wedi'i ddarparu gan gwmni rhyngrwyd .com neu un tebyg. (2 farc)

Mantais

Anfantais

4 Esboniwch sut mae **pob un** o'r canlynol yn effeithio ar gynnwys a defnydd gwefannau. (3 marc)

- Deddf Hawlfraint.
- Deddf Diogelu data.
- Llên-ladrad.

5 Esboniwch **bryd** a **pham** dylid defnyddio **pob un** o'r mathau ffeil canlynol i gadw cynnwys. (3 marc)

.jpg

.gif

.mp3

.wav

.mov

.mp4

6 Diffiniwch ystyr y term 'Gwefannau hygyrch'. (1 marc)

7 Esboniwch yn gryno'r canllawiau cyfreithiol o ran hygyrchedd gwe. (1 marc)

8 Esboniwch sut dylid addasu **pum** rhan o wefan i'w gwneud yn hygyrch. (5 marc)

9 Esboniwch **bedwar** rheswm pam mae hi'n bwysig mesur traffig i wefan. (4 marc)

10 Nodwch **bedair** ffordd o fesur Enillion ar Fuddsoddiad (ROI) gwefan. (4 marc)

11 Diffiniwch ystyr y term 'cyfradd bownsio'. (1 marc)

(Cyfanswm 33 marc)

Tasg B Adroddiad

Dyluniwch wefan **pum** tudalen, gan gynnwys blog, i'w chreu gan ddefnyddio meddalwedd CMS ar gyfer busnes neu faes arall o ddiddordeb personol. Dylid cytuno ar y wefan o dan sylw gyda'r asesydd cyn parhau.

Cyflwynwch adroddiad yn amlinellu eich dyluniad gwefan, gan gynnwys y canlynol.

- Disgrifiad byr a sut dylai llwyddiant edrych ar gyfer y wefan. (1 marc)
- Rhestr o eiriau allweddol a /neu ymadroddion allweddair i'w defnyddio ar bob tudalen heblaw'r blog. (4 marc)
- Y templed i'w ddefnyddio. (1 marc)
- Am **bob** tudalen, heblaw'r blog, cynlluniwch y cynnwys a'r cynllun gan ddangos:
  - testun (e.e. corff, penawdau) (4 marc)
  - delweddau (ffotograffau, delweddau) (4 marc)
  - **un** ddelwedd symudol (animeiddio, fideos, llif byw) yn unig ar **un** dudalen (1 marc)
  - **dau** wrthrych rhwydweithio cymdeithasol ar y wefan. (1 marc)

(Cyfanswm 16 marc)

Tasg C Gwefan

Ar sail y cynllun a grëwyd yn Nhasg B, crëwch wefan gan ddefnyddio meddalwedd CMS gan ddilyn y camau hyn:

- Cofrestrwch gyda darparwr lletya gydag enw parth addas fel sy'n briodol ar gyfer yr allweddeiriau a/neu ymadrodd allweddair a nodwyd yn Nhasg B. (1 marc)
- Addaswch y templed fel sy'n briodol (e.e. pennyn/troedyn, bariau ochr, strwythur dewislen, lliwiau) (1 marc)
- Poblogwch **bedair** tudalen o'r wefan gan ddefnyddio'r cynllun a gynlluniwyd. (4 marc)
- Ychwanegwch nodweddion i wella'r wefan gan ddefnyddio tri o'r canlynol: (3 marc)
  - plugins
  - widgets
  - rhaglennu
  - dolenni
  - dolenni amlgyfrwng
  - snippets.
- Cynhwyswch allweddair a/neu ymadroddion allweddair a gynlluniwyd mewn tagiau meta ac URLau gwefan. (14 marc)
- Cynhwyswch y blog. (1 marc)
- Cynhwyswch **ddwy** ddolen i safleoedd rhyngweithio cymdeithasol. (2 farc)
- Cynhwyswch fotwm i rannu cynnwys ar wefan. (1 marc)
- Cadwch neu cyhoeddwch eich gwaith. (1 marc)

E-bostiwch URL y wefan i'r asesydd.

(Cyfanswm 28 marc)

Tasg Ch Adroddiad

Galwch yr asesydd gan y cewch eich arsylwi am ran gyntaf Tasg CH.

Gwiriwch:

- bod y wefan yn gweithio'n gywir ar **dri** phorwr
- bod **pob** dolen yn gweithio (1 marc)
- bod yr holl gyfryngau ac elfennau cyfoethog eu cyfryngau yn gweithio.

Cynhyrchwch adroddiad i gynnwys y canlynol:

- **Dau** brint sgrin yn dangos y broses o gofrestru'r wefan gyda **dau** beiriant chwilio. (2 farc)
- **Un** print sgrin yn dangos y broses o gofrestru'r wefan gydag **un** offeryn analytig. (1 marc)
- **Un** print sgrin yn dangos y cod urchin ar gyfer yr offeryn analytig a roddwyd ar y wefan. (1 marc)

(Cyfanswm 5 marc)

Tasg D Adroddiad

Mae angen i'r wefan fod yn fyw am o leiaf **un** mis cyn parhau.

Edrychwch ar eich gwybodaeth analytig ac ysgrifennwch adroddiad yn cwmpasu'r canlynol:

- Manylion sawl ymwelydd unigryw a gafodd y wefan yn ystod y mis. (1 marc)
- Manylion am ba dudalennau sy'n derbyn y gyfradd fownsio uchaf. (1 marc)
- Manylion ffynhonnell y traffig. (1 marc)
- Effaith y gyfradd fownsio. (1 marc)
- **Un** gwelliant wedi'i argymell i'r wefan ar sail y wybodaeth analytig. (1 marc)
- Dadansoddiad o p'un a yw'r wefan yn dilyn canllawiau hygyrchedd, gan roi **tri** esboniad. (3 marc)
- **Tri** gwelliant wedi'u hargymell i sicrhau bod y wefan yn dilyn canllawiau hygyrchedd (3 marc)

(Cyfanswm 11 marc)

Ar ôl i chi orffen gweithio:

- Llofnodwch bob darn o waith a gynhyrchwyd gyda'ch enw a labelwch bob cyfrwng storio symudol â'ch enw.
- Rhowch yr holl waith papur a'r cyfryngau storio symudol i'ch asesydd.

Os yw'r aseiniad wedi'i wneud dros fwy nag un cyfnod, rhaid dychwelyd yr holl waith papur a'r cyfryngau symudol i arolygydd y prawf ar ddiwedd pob sesiwn.

Diwedd yr aseiniad

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Lefel 3 Creu ac optimeiddio cynnwys ar gyfer y we (7513-306)

Cynnwys yr aseiniad

Cwmpas yr aseiniad

Mae'r tabl isod yn nodi'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr uned hon.

Tasg	Cwmpas y dasg	Tystiolaeth ofynnol
A Cwestiynau atebion byr	MPA 1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5, MPA 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 2.5, 2.6, 2.7, 2.8, MPA 3.1, 3.2, MPA 4.1, 4.2, 4.3, 4.4, 4.5, MPA 6.1, 6.2, 6.3, 6.4, 6.6, 6.8, 6.9	Cwestiynau atebion byr wedi'u cwblhau
B Creu proffiliau ar-lein	MPA 1.6, 1.7, 1.8,	Adroddiad
C Senario	MPA 3.5, MPA 4.6, MPA 6.5, 6.7, 6.10	Adroddiad
CH Arsylwi gwefan cystadleuydd	MPA 3.3, 3.4, MPA 7.1, 7.2, 7.3	Adroddiad
D Cwestiynau atebion byr	MPA 5.1, 5.2, 5.3, 5.4, 5.5, 5.6, 5.7, 5.8, 5.9	Cwestiynau atebion byr wedi'u cwblhau

Lefel 3 Creu ac optimeiddio cynnwys ar gyfer y we (7513-306)

Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio

Am y ddogfen hon

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr holl asesu ar gyfer Lefel 3 Creu ac optimeiddio cynnwys ar gyfer y we (7513-306).

Mae'r wybodaeth am dasg yr aseiniad hwn wedi'i chynnwys yng *Nghyfarwyddiadau'r Ymgeisydd.* Mae'r nodiadau arweiniad canlynol yn cael eu darparu i gynorthwyo aseswyr wrth gynllunio cyflwyno'r aseiniad i ymgeiswyr.

Lleoliad yr aseiniad

Unrhyw amgylchedd addas.

Cyfarpar angenrheidiol ar gyfer yr aseiniad hwn

- Cyfrifiadur gyda meddalwedd Prosesu Geiriau.
- Argraffydd.

Tystiolaeth a chofnodi

Dylid cadw'r holl waith a gynhyrchir gan yr ymgeisydd gyda'i gilydd. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd roi ei enw a'i rif cofrestru ar bob darn o waith, lle mae'n briodol.

Nodiadau ar gynnwys yr aseiniad hwn

- Ar gyfer y dasg CH bydd angen i ymgeiswyr arsylwi gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol **dau** fusnes o'u dewis am **un** wythnos. Mae angen i'r asesydd gymeradwyo'r **ddau** fusnes am lefel ddigonol o weithgaredd cyfryngau cymdeithasol. Ar gyfer tasg CH mae angen i beth dystiolaeth gael ei chipio yn ystod monitro.
- Argymhellir cwblhau pob tasg mewn sesiynau gwahanol oherwydd cyfanswm yr amser sydd ei angen i gwblhau'r aseiniad hwn.
- Gellir cwblhau'r cwestiynau atebion byr â llaw neu'n electronig.

Diogelwch

Pan fydd aseiniad yn cael ei gymryd dros fwy nag un sesiwn, rhaid rhoi'r holl ddogfennaeth, gwaith papur a chyfryngau symudol mewn lleoliad diogel. Rhaid dychwelyd yr holl waith papur a chyfryngau symudol i oruchwyliwr y prawf ar ddiwedd pob eisteddiad.

Ystyriaethau amser

Cafodd lwfansau amser eu hargymell ar gyfer pob aseiniad; serch hynny nid ydynt yn rhan o'r meini prawf marcio, a'u diben yw rhoi arweiniad.

Argymhellir y dylai'r ymgeiswyr gwblhau'r aseiniad hwn o fewn **wyth awr**. Pe baech yn cael bod ymgeisydd yn cymryd llawer mwy o amser i gwblhau'r aseiniad, cysylltwch â'r Sicrhäwr Ansawdd Allanol (SAA). Caiff estyniadau ar gyfer ymgeiswyr â gofynion arbennig eu trin ar wahân.

Rhaid i gyfnod o saith diwrnod fynd heibio cyn y gall ymgeisydd aflwyddiannus ail-wneud yr aseiniad hwn.

Meini prawf graddio

Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill **61** marc i basio Tasg A

Tasg A	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
1	1.1	Atebion wedi'u cwblhau	Diffiniwch ystyr y term proffil ar-lein.	Gweler y pecyn atebion am atebion enghreifftiol.	1 marc	
2	1.2	Atebion wedi'u cwblhau	Rhowch **ddwy** enghraifft o sut mae proffiliau personol a busnes yn wahanol.		2 farc	
3	1.3	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **dair** egwyddor optimeiddio proffiliau ar-lein ar gyfer Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO).		3 marc	
			b) Esboniwch **dair** ffordd sut dylai proffiliau ar-lein gael eu hoptimeiddio ar gyfer Optimeiddio Peiriant Chwilio (SEO).		3 marc	
4	1.4	Atebion wedi'u cwblhau	Disgrifiwch **bedair** nodwedd proffil ar-lein.		4 marc	
5	1.5	Atebion wedi'u cwblhau	Nodwch **un** ystyriaeth diogelwch bosibl ac **un** ystyriaeth preifatrwydd bosibl proffil ar-lein.		2 farc	
6	2.1	Atebion wedi'u cwblhau	Cymharwch a chyferbynnwch **un** nodwedd am: • Blogiau • micro-flogiau • e-erthyglau		3 marc	
7	2.2	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **bedwar** rheswm pam mae hi'n bwysig defnyddio Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO) mewn naill ai blog, micro-flog neu e-erthygl.		4 marc	
8	2.3	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **bedair** ffordd o optimeiddio naill ai blog, micro-flog neu e-erthygl ar gyfer Optimeiddio Peiriant Chwilio (SEO).		4 marc	
Tasg A	**Cyfeirnod canlyniad**	**Tystiolaeth**	**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr**	**Meini prawf marcio**	**Marciau ar gael**	**Marciau a enillwyd**

9	2.4	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **ddwy** ffordd sut mae **pob un** o'r canlynol yn gallu mwyhau a lledaenu newyddion a gwybodaeth. • blogiau ac e-erthyglau • micro-flogiau.	Gweler y pecyn atebion am atebion enghreifftiol.	4 marc	
10	2.5	Atebion wedi'u cwblhau	Nodwch **bum** rheswm yn gyffredinol dros ddefnyddio blogiau, micro-flogiau ac e-erthyglau ar gyfer busnes.		5 marc	
11	2.6	Atebion wedi'u cwblhau	Dadansoddwch **dair** mantais a **thair** anfantais syndiceiddio cynnwys ar gyfer naill ai blogiau, micro-flogiau neu e-erthyglau.		6 marc	
12	2.8	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **dair** ffordd sut gall ymrwymo a rhannu gael eu hannog trwy ddefnyddio naill ai blogiau, micro-flogiau neu e-erthyglau.		3 marc	
13	3.1	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **bedair** nodwedd o gynnwys wedi'i ysgrifennu'n dda i'r we.		4 marc	
14	3.2	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **dair** ffordd sut gallai ysgrifennu cynnwys ar gyfer y we effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar enw da, canfyddiad a brand yn gyffredinol		3 marc	
15	4.1	Atebion wedi'u cwblhau	Diffiniwch ystyr y termau: • cyfryngau • cyfoethog o ran cyfryngau.		2 farc	
16	4.2	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch bwysigrwydd defnyddio'r canlynol ar y we: • cyfryngau • cyfoethog o ran cyfryngau.		2 farc	
17	4.3	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **dair** ffordd sut gall y dewis o gyfryngau a chyfryngau cyfoethog effeithio ar enw da canfyddiad a brand yn gyffredinol.		3 marc	
18	4.4	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **dair** ffordd o optimeiddio cyfryngau a chyfryngau cyfoethog ar gyfer Optimeiddio Peiriant Chwilio (SEO).		3 marc	
19	4.5	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **ddwy** ffordd sut mae cyfryngau a chyfryngau cyfoethog yn gallu mwyhau a lledaenu gwybodaeth.		2 farc	

Tasg A	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
20	6.1	Atebion wedi'u cwblhau	Diffiniwch ystyr y term 'llyfrnodi cymdeithasol'.	Gweler y pecyn atebion am atebion enghreifftiol.	1 marc	
21	6.2	Atebion wedi'u cwblhau	Diffiniwch ystyr y term 'tagio'.		1 marc	
22	6.3	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **dri** rheswm pam mae hi'n bwysig i fusnes ddefnyddio llyfrnodi cymdeithasol i rannu cynnwys ar y we.		3 marc	
23	6.6	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **ddau** reswm pam mae hi'n bwysig i fusnes dagio cynnwys ar y we.		2 farc	
24	6.8	Atebion wedi'u cwblhau	Diffiniwch y term 'Syndiceiddio Syml Iawn (RSS).		1 marc	
25	6.9	Atebion wedi'u cwblhau	Esboniwch **ddau** reswm pam mae hi'n bwysig i fusnes ddefnyddio Syndiceiddio Syml Iawn (RSS) ar gyfer dosbarthu cynnwys ar y we.		2 farc	
26	6.4	Atebion wedi'u cwblhau	Cymharwch a chyferbynnwch **ddau** offeryn llyfrnodi cymdeithasol.		4 marc	
27	2.7	Atebion wedi'u cwblhau	Nodwch **bum** cydran strategaeth gynnwys ar gyfer naill blogiau, micro-flogiau neu e-erthyglau ar gyfer busnes.		5 marc	
				Cyfanswm marciau ar gael ar gyfer Tasg A	**82**	
				Marciau a enillwyd		

Lefel 3 Creu ac optimeiddio cynnwys ar gyfer y we (7513-306)

Tasg A: Atebion

1 Diffiniwch ystyr y term proffil ar-lein. (1 marc)

E.e. Hunaniaeth ar-lein gan gynnwys testun (bywgraffiad), delwedd a chyfryngau eraill

2 Rhowch **ddwy** enghraifft o sut mae proffiliau personol a busnes yn wahanol. (2 farc)

E.e.

- **Personol – mae gan y person frand ar-lein sy'n gallu cynnwys mwy nag un cwmni**
- **Busnes - mae gan y cwmni, y cynnyrch neu'r brand broffil nad yw'n amlygu'r unigolyn**

3 a) Esboniwch **dair** egwyddor optimeiddio proffiliau ar-lein ar gyfer Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO). (3 marc)

E.e.

- **Sut mae proffiliau ar-lein yn wahanol i bitmap, .pdf a dogfennau wedi'u huwchlwytho. Nid yw peiriannau chwilio ar hyn o bryd yn mynegeio cynnwys pdf, ffeiliau a delweddau RAW,**
- **Mae proffiliau ar-lein yn cynnwys allweddeiriau fel y gallant ennill gwell SEO**
- **Mae modd diweddaru proffiliau ar-lein yn gyson**
- **Gall proffiliau gael geirda wedi'u hatodi i'r proffil gan gydweithwyr**
- **Gall proffiliau gynnwys gwybodaeth sy'n newid yn ddynamig, fel diweddariadau statws**

b) Esboniwch **dair** ffordd sut dylai proffiliau ar-lein gael eu hoptimeiddio ar gyfer Optimeiddio Peiriant Chwilio (SEO). (3 marc)

E.e. Dylai allweddair a/neu ymadroddion allweddair gael eu cynnwys yn y canlynol:

- **enw ffeil delwedd**
- **Tagiau Alt delwedd**
- **Teitl**
- **Bio**
- **Tagiau / tagiau meta**

4 Disgrifiwch **bedair** nodwedd proffil ar-lein. (4 marc)

E.e.

- **Brand a gwerthoedd**
- **Delweddau**
- **Logos**
- **Datganiad Cenhadaeth**
- **Ymwadiad**
- **Proffil personol neu fusnes**
- **Bio**
- **Diweddariadau statws**

5 Nodwch **un** ystyriaeth diogelwch bosibl ac **un** ystyriaeth preifatrwydd bosibl proffil ar-lein. (2 farc)

E.e.

Ystyriaethau Diogelwch:

- **Risg bod gwybodaeth yn cael ei defnyddio ar gyfer dwyn hunaniaeth.**
- **Risg ymbersonoliad gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael.**
- **Risg defnyddio dulliau twyllodrus / peiriannu cymdeithasol i ennill mynediad i gyfrif proffil ar-lein neu i gyfrifon eraill.**

Materion Preifatrwydd:

- **Risg bod rhagor o wybodaeth yn ymddangos ar-lein nag a fwriedir.**
- **Risg bod pobl eraill yn gweithredu heb eich awdurdod.**

6 Cymharwch a chyferbynnwch **un** nodwedd am: (3 marc)

- blogiau
- micro-flogiau
- e-erthyglau.

E.e.

Blogiau

- **Dyddiadur ar-lein**
- **Gall gynnwys delweddau**
- **Gall fod yn gannoedd o eiriau neu ragor**

Micro flogiau

- **Cyfyngedig o ran nifer y nodau sy'n cael eu defnyddio**
- **Gall gysylltu â delweddau, nid delweddau wedi'u mewnblannu**
- **Gall gynnwys eitemau gwybodaeth**

E-erthyglau

- **Fel arfer cânt eu golygu cyn cyhoeddi**
- **Mae modd eu rhyddhau fel dogfennau y mae modd eu lawrlwytho**
- **Nid yw'n ddyddiadur ar-lein, gall gynnwys newyddion a gall fod yn ddadansoddiad o newyddion.**

*(**un** marc ar gyfer **pob** sianel)*

7 Esboniwch **bedwar** rheswm pam mae hi'n bwysig defnyddio Optimeiddio Peiriannau Chwilio (SEO) mewn naill ai blog, micro-flog neu e-erthygl. (4 marc)

E.e.

- **Lle uwch yn y canlyniadau chwilio**
- **Modd darganfod wrth chwilio allweddair**
- **Mae'n well gan beiriannau chwilio gynnwys wedi'i optimeiddio**
- **Mae corynnau peiriant yn mynd i gynnwys newydd yn fwy cyson**
- **Mae gwefannau cydgasglu arbenigol yn cysylltu â chynnwys wedi'i optimeiddio**

8 Esboniwch **bedair** ffordd o optimeiddio naill ai blog, micro-flog neu e-erthygl ar gyfer Optimeiddio Peiriant Chwilio (SEO). (4 marc)

E.e.

- **Defnyddio Allweddeiriau, a/neu ymadroddion allweddair**
- **Defnyddio delweddau**
- **Defnyddio termau SEO i labelu a thagio delweddau**
- **Defnyddio termau SEO i labelu a thagio cynnwys gwe**
- **Defnyddio ôl-lwybro a mewnddolennu**
- **Defnyddio penawdau HTML**
- **Defnyddio gofod gwyn mewn blogiau ac e-erthyglau**
- **Defnyddio paragraffau byr mewn blogiau ac e-erthyglau**

9 Esboniwch **ddwy** ffordd sut mae **pob un** o'r canlynol yn gallu mwyhau a lledaenu newyddion a gwybodaeth. (4 marc)

- blogiau ac e-erthyglau
- micro-flogiau.

E.e.

Blogiau ac e-erthyglau

- **Mae ôl-lwybro a mewnddolennu'n gwneud yr erthygl blog yn weladwy mewn postiau blog eraill**
- **Mae syndiceiddio i ficroflogiau'n gallu annog ailddarlledu cynnwys**
- **Gall rhannu botymau wahodd rhannu cymdeithasol**

Micro-flogiau

- **Gall URLau byr annog ailddarlledu**
- **Gall cynnwys diddorol annog ailddarlledu**
- **Gall rhannu botymau wahodd rhannu cymdeithasol**

10 Nodwch **bum** rheswm dros ddefnyddio blogiau, micro-flogiau neu e-erthyglau ar gyfer busnes. (5 marc)

E.e.

- **Gweledded brand**
- **Cyfle i ymwneud â'r gynulleidfa**
- **Cyfle i arddangos maes arbenigedd**
- **Cyfle i arddangos cynnyrch**
- **Cyfle i ddefnyddio erthyglau i gefnogi cwsmeriaid**
- **Cyfle i gysylltu â chynnwys perthnasol arall**
- **Cyfle i ddangos gwerthoedd brand**
- **Cyfle i ddangos credadwyedd**

11 Dadansoddwch **dair** mantais a **thair** anfantais syndiceiddio cynnwys ar gyfer naill ai blogiau, micro-flogiau neu e-erthyglau. (6 marc)

E.e.

Dadansoddiad o bob un o'r manteision canlynol:

- **Cyrraedd yn eang**
- **Cost-effeithiol**
- **Ailddefnyddio cynnwys**
- **Effeithiol o ran amser**

Dadansoddiad o bob un o'r anfanteision canlynol:

- **Gall peiriannau chwilio rhoi gwerth negyddol i gynnwys wedi'i ailadrodd**
- **Canfyddiad o sbamio**
- **Mae rhai llwyfannau rhwydweithio cymdeithasol yn rhoi gwerth negyddol i gynnwys wedi'i syndiceiddio'n awtomatig**
- **Risg bod cynnwys yn cyrraedd y gynulleidfa anghywir**

12 Esboniwch **dair** ffordd sut gall ymrwymo a rhannu gael eu hannog trwy ddefnyddio naill ai blogiau, micro-flogiau neu e-erthyglau. (3 marc)

E.e.

- **Ysgrifennu erthyglau diddorol**
- **Sicrhau bod erthyglau'n gyfoes**
- **Sicrhau bod erthyglau'n ymrwymo**
- **Sicrhau bod cynnwys yn hawdd ei rannu**
- **Sicrhau bod cynnwys gofyn am ymateb**
- **Sicrhau bod cynnwys yn gofyn am gael ei rannu ymhellach**

13 Esboniwch **bedair** nodwedd o gynnwys wedi'i ysgrifennu'n dda i'r we. (4 marc)

E.e.

- **Erthyglau eraill yn cyfeirio at y cynnwys.**
- **Cynnwys yn wrthrychol a chytbwys**
- **Mae gan y cynnwys ramadeg da**
- **Mae gan y cynnwys sillafu da**
- **Mae gan y cynnwys tôn a naws da**
- **Mae'r cynnwys wedi'i optimeiddio ar gyfer SEO**

14 Esboniwch **dair** ffordd sut gallai ysgrifennu cynnwys ar gyfer y we effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar enw da, canfyddiad a brand yn gyffredinol (3 marc)

E.e. Negyddol

- **Gall gramadeg/sillafu gwael nodi nad yw'r busnes neu'r person yn poeni**
- **Gall cynnwys anghywir achosi dicter a dadleuon**
- **Gall tôn a naws negyddol wahodd beirniadaeth**
- **Gall beirniadaeth o gystadleuwyr newid canfyddiad am frand**

E.e. Cadarnhaol

- **Gall bod heb wallau gramadeg/sillafu nodi bod y busnes neu berson yn poeni am ganfyddiad pobl eraill**
- **Gallai cynnwys cywir osgoi materion posibl**

15 Diffiniwch ystyr y termau: (2 farc)

- cyfryngau
- cyfoethog o ran cyfryngau.

E.e.

- **Cyfryngau: - cynnwys ar-lein wedi'i ysgrifennu mewn HTML**
- **Cyfoethog o ran cyfryngau – cynnwys ar-lein wedi ei gyfoethogi trwy gynnwys sylwadau, fideo neu ddelwedd; Ychwanegu botymau pleidleisio neu rannu ar y wefan**

16 Esboniwch bwysigrwydd defnyddio'r canlynol ar y we: (2 farc)

- cyfryngau
- cyfoethog o ran cyfryngau.

E.e.

Mae cyfryngau'n annog

- **Rhannu trwy gysylltu â'r cynnwys**

Mae cyfryngau cyfoethog yn annog:

- **Rhyngweithio**
- **Sylwadau**
- **Rhannu cynnwys trwy farrau offer a botymau**

17 Esboniwch **dair** ffordd sut gall y dewis o gyfryngau a chyfryngau cyfoethog effeithio ar enw da canfyddiad a brand yn gyffredinol. (3 marc)

E.e.

- **Defnyddio cyfryngau priodol am y math o gynnyrch, e.e. sianelau fideo i ddangos cerddoriaeth, neu gemau fideo, blogiau i ddangos credadwyedd a medr**
- **Posibilrwydd i rannu cyfryngau i fynd yn firol a chael effaith negyddol neu gadarnhaol**
- **Gall ansawdd y cyfryngau effeithio canfyddiad cyffredinol y brand.**
- **Gall dewis cyfryngau anghywir effeithio'r brand yn negyddol**

18 Esboniwch **dair** ffordd o optimeiddio cyfryngau a chyfryngau cyfoethog ar gyfer Optimeiddio Peiriant Chwilio (SEO). (3 marc)

E.e.

Defnyddio allweddeiriau a/neu ymadroddion allweddeiriau yn y canlynol:

- **enw ffeil delwedd**
- **Tagiau Alt**
- **tagiau a thagiau meta**
- **teitlau**
- **disgrifiad**

19 Esboniwch **ddwy** ffordd sut mae cyfryngau a chyfryngau cyfoethog yn gallu mwyhau a lledaenu gwybodaeth. (2 farc)

E.e.

- **Rhannu dolenni ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol**
- **Gweleded rhannu ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn annog darllen / gwylio pellach**
- **Dod â chynnwys ychwanegol i'r stori trwy ddelweddau neu fideo**
- **Gwneud cynnwys yn addas ar gyfer lluosi firol**

20 Diffiniwch ystyr y term 'llyfrnodi cymdeithasol'. (1 marc)

E.e. Dull o drefnu, storio, rheoli, rhannu a chwilio am lyfrnodau adnoddau ar-lein

21 Diffiniwch ystyr y term 'tagio'. (1 marc)

E.e. term mynegai wedi'i neilltuo i ddarn o wybodaeth fel llyfrnod, delwedd neu ffeil.

22 Esboniwch **dri** rheswm pam mae hi'n bwysig i fusnes ddefnyddio llyfrnodi cymdeithasol i rannu cynnwys ar y we. (3 marc)

E.e.

Gall llyfrnodau gael eu defnyddio i:

- **gyfeirnodi cynnwys**
- **Gall llyfrnodau gael eu rhannu'n breifat neu'n gyhoeddus**
- **Mae'n annog defnyddio tagiau i gategoreiddio cynnwys**
- **Gellir gwneud tanysgrifwyr yn ymwybodol o lyfrnodau newydd wrth iddyn nhw gael eu cadw**
- **SEO**

23 Esboniwch **ddau** reswm pam mae hi'n bwysig i fusnes dagio cynnwys ar y we. (2 farc)

E.e.

- **Gall defnyddwyr neu fusnesau ddosbarthu eu casgliadau o eitemau yn y ffyrdd sy'n ddefnyddiol iddyn nhw**
- **Gwerinomeg (Folksonomy)**
- **SEO**

24 Diffiniwch y term 'Syndiceiddio Syml Iawn (RSS). (1 marc)

E.e. Ffordd o gyflwyno cynnwys sy'n cael ei ddiweddaru'n aml yn awtomatig

25 Esboniwch **ddau** reswm pam mae hi'n bwysig i fusnes ddefnyddio Syndiceiddio Syml Iawn (RSS) ar gyfer dosbarthu cynnwys ar y we. (2 farc)

E.e.

- **Mae'n cyhoeddi gweithiau sy'n cael eu diweddaru'n aml - fel sylwadau blog, penawdau newyddion sain, a fideo - mewn fformat safonol.**
- **Bydd darllenwyr sydd wedi tanysgrifio'n cael diweddariadau wedi'u danfon yn awtomatig atyn nhw.**
- **Does dim angen i ddarllenwyr ailymweld â'r wefan yn rheolaidd i gael gwybodaeth**
- **Mae'n caniatáu i gynnwys gael ei ddosbarthu mewn modd wedi'i syndiceiddio i sianelau eraill**

26 Cymharwch a chyferbynnwch **ddau** offeryn llyfrnodi cymdeithasol. Rhowch **ddau** debygrwydd a **dau** wahaniaeth. (4 marc)

Wedi rhoi dau debygrwydd a dau wahaniaeth.

27 Nodwch **bum** cydran strategaeth gynnwys ar gyfer naill blogiau, micro-flogiau neu e-erthyglau ar gyfer busnes. (5 marc)

E.e.

- **Nodau cyffredinol (pam)**
- **Trefnlen Cynnwys (beth)**
- **Trefnlen rhyddhau (pryd)**
- **Cynllun syndiceiddio (ble a sut)**
- **Camau i'w cymryd ar sail ymateb**
- **Cynllun wrth gefn (beth os)**
- **Cyfrifoldeb tîm (pwy a sut)**

(Cyfanswm 82 marc)

Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill **61** marc i basio Tasg A

Meini prawf graddio
Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill **7** marc i basio Tasg B

Tasg B	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
	1.6, 1.7, 1.8	Adroddiad	Mae angen i chi greu adroddiad sy'n cynnwys y canlynol:	Wedi creu adroddiad yn cynnwys y canlynol:	Amh	Amh
			• printiau sgrin o **ddau** broffil ar-lein, gan ddefnyddio **dau** offeryn cyfryngau cymdeithasol gwahanol. Rhaid i **un** proffil fod wedi'i optimeiddio ar gyfer SEO mewn **dwy** ffordd. Rhaid i'r proffiliau gynnwys pedair nodwedd	Wedi creu **dau** broffil ar-lein, gan ddefnyddio **dau** offeryn cyfryngau cymdeithasol gwahanol, gyda **phedair** nodwedd am **bob un** (**un** marc y proffil gyda **phedair** nodwedd) Nodweddion i gynnwys: • Delwedd • Enw • Bio • Lliwiau i gynrychioli brand • Diweddariadau statws.	2 farc	
			• yr allweddair a/neu ymadroddion allweddair wedi'u defnyddio ar gyfer **dau** ddull o optimeiddio **un** proffil yn unig.	Optimeiddio - dylai allweddair a/neu ymadroddion allweddair gael eu cynnwys yn y canlynol: • enw ffeil delwedd • Tagiau Alt delwedd • Teitl • Bio • Tagiau / tagiau meta (**un** marc am bob dull o optimeiddio hyd at uchafswm o **ddau** farc)	2 farc	

			• printiau sgrin o **un** proffil ar-lein personol ac **un** proffil ar-lein busnes o'ch dewis chi.	Wedi cynnwys **dau** brint sgrin ar gyfer y proffiliau.	1 marc	
			• **dau** welliant wedi'u hargymell ar gyfer **pob** proffil a ddewiswch, gan roi rhesymau	**Dau** welliant wedi'u hargymell ar gyfer **pob** proffil a ddewiswyd, gan roi rhesymau. Atebion priodol (**un** marc am **bob** argymhelliad gyda rheswm)	4 marc	
				Cyfanswm marciau ar gael ar gyfer Tasg B	**9**	
				Marciau a enillwyd		

Meini prawf graddio

Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill 7 marc i basio Tasg C

Tasg C	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
	3.5, 4.6, 6.5, 6.7, 6.10	Adroddiad	Darllenwch y senario a ddarparwyd er mwyn cwblhau Tasg C. Fel arall, gallwch gwblhau Tasg C ar sail busnes o'ch dewis. Cynhyrchwch adroddiad i gynnwys y canlynol:	Wedi ysgrifennu adroddiad i gynnwys y canlynol:	Amh	Amh
			• Postiad blog **200** gair i siarad am ei hyrwyddiad coffi am ddim gyda brechdan	postiad blog **200** gair i siarad am ei hyrwyddiad coffi am ddim gyda brechdan.	2 farc	
			• **un** statws wedi'i ddiweddaru	**Un** statws wedi'i ddiweddaru	1 marc	
			• **dau** awgrym i gyfoethogi'r cynnwys gan ddefnyddio cyfoethog neu gyfoethog ei gyfryngau	**Dau** awgrym i gyfoethogi'r cynnwys gan ddefnyddio cyfoethog neu gyfoethog ei gyfryngau e.e. • Dolenni • Fideos • Delweddau • Ffeil sain • Sylwadau microflog • Postiau blog	2 farc	
			• **pedwar** gair i'w defnyddio i dagio'r cynnwys	**Pedwar** gair i'w defnyddio i dagio'r cynnwys, e.e. Coffi, brechdan, cinio, hyrwyddo (**un** marc am **ddau** air)	2 farc	

			• **un** print sgrin yn dangos offeryn llyfrnodi cymdeithasol, gyda **phedair** gwefan rydych chi wedi'u llyfrnodi sy'n berthnasol i'r busnes.	Un print sgrin yn dangos offeryn llyfrnodi cymdeithasol, gyda **phedair** gwefan rydych chi wedi'u llyfrnodi sy'n berthnasol i'r busnes. (mae angen llyfrnodi **pedair** gwefan i ennill y marc)	1 marc	
			• **un** print sgrin yn dangos darllenydd RSS gyda **phedwar** darn o gynnwys perthnasol i'r busnes.	**Un** print sgrin yn dangos darllenydd RSS gyda **phedwar** darn o gynnwys perthnasol i'r busnes. (angen **pedwar** darn o gynnwys perthnasol ar gyfer y busnes i ennill y marc)	1 marc	
				Cyfanswm marciau ar gael ar gyfer Tasg C	9	
				Marciau a enillwyd		

Meini prawf graddio

Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill **8** marc i basio Tasg CH

Tasg CH	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
	3.3, 3.4, 7.1, 7.2, 7.3	Adroddiad	Nodwch **ddau** fusnes tebyg o'ch dewis chi sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Ceisiwch gymeradwyaeth gan yr asesydd cyn parhau. Arsylwch weithgareddau cyfryngau cymdeithasol **y ddau** fusnes am un wythnos. Crëwch adroddiad i gynnwys y canlynol:	Wedi nodi **dau** fusnes tebyg o'ch dewis chi sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Wedi cael cymeradwyaeth cyn parhau. Wedi arsylwi gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol **y ddau** fusnes am un wythnos. Wedi creu adroddiad i gynnwys y canlynol:	Amh	Amh
			• un neu ragor o brintiau sgrin yn dangos **chwe** diweddariad gweithgaredd	Un neu ragor o brintiau sgrin yn dangos **chwe** diweddariad gweithgaredd (ni ddylid cosbi ymgeiswyr os na ellir canfod y cyfan o'r chwe gweithgaredd)	1 marc	
			• dadansoddiad o **ddau** debygrwydd a **dau** wahaniaeth rhwng gweithgareddau'r busnesau	Dadansoddiad o **ddau** debygrwydd a **dau** wahaniaeth rhwng gweithgareddau'r busnesau.	4 marc	
			• **tri** gwelliant i gynnwys un o'r busnesau.	**Tri** gwelliant i gynnwys un o'r busnesau.	3 marc	
			• un neu ragor o brintiau sgrin yn dangos sut mae eraill yn sôn am **un** o'r busnesau am un wythnos.	Un neu ragor o brintiau sgrin yn dangos sut mae eraill yn sôn am un o'r busnesau am un wythnos. (Os nad oes sôn, ni ddylid cosbi ymgeiswyr)	1 marc	
			• rhoi gosodiad dadansoddol o newidiadau mewn agweddau tuag at **un** o'r busnesau.	Rhoi gosodiad dadansoddol o newidiadau mewn agweddau tuag at **un** o'r busnesau. (Os nad oes newid, ni ddylid cosbi ymgeiswyr.)	1 marc	

			• un gwelliant wedi'i argymell i gynnwys **un** o'r busnesau i wella agweddau.	Un gwelliant wedi'i argymell i gynnwys **un** o'r busnesau i wella agweddau, e.e. • Newid delweddau i wella cynllun gweledol • Symud cynnwys negyddol o bostiau blog • Ymateb i sylwadau negyddol mewn micro-flogiau a phostiau blog • Newid teitlau delweddau i dermau cadarnhaol • Cywiro sillafu a gramadeg gwael • Gwella cynllun tudalennau gwe • Gwella llywio cynnwys tudalennau gwe	1 marc	
				Cyfanswm marciau ar gael ar gyfer Tasg CH	**11**	
				Marciau a enillwyd		

Meini prawf graddio

Llwyddo - rhaid i ymgeiswyr ennill **16** marc i basio Tasg D

Tasg D	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marciau ar gael	Marciau a enillwyd
1	5.1	Atebion wedi'u cwblhau	Disgrifiwch, gan roi **dau** reswm, pam mae hi'n bwysig adnabod llên-ladrad.	Gweler y pecyn atebion am atebion enghreifftiol.	2 farc	
2	5.2	Atebion wedi'u cwblhau	Disgrifiwch **dair** egwyddor pam mae'n rhaid ystyried Hawliau Eiddo Deallusol wrth ysgrifennu cynnwys i'r We.		3 marc	
3	5.3	Atebion wedi'u cwblhau	Disgrifiwch **ddwy** egwyddor Cyfraith Hawlfraint y mae'n rhaid eu hystyried wrth ysgrifennu cynnwys ar gyfer y We.		2 farc	
4	5.4	Atebion wedi'u cwblhau	Disgrifiwch **un** ffordd o warchod **pob un** o'r canlynol: • Hawliau Eiddo Deallusol • Hawlfraint.		2 farc	
5	5.5	Atebion wedi'u cwblhau	Disgrifiwch **un** goblygiad Cyfraith Hawlfraint mewn gwledydd eraill.		1 marc	
6	5.6	Atebion wedi'u cwblhau	Disgrifiwch **ddau** ddull o ddarganfod naill ai llên-ladrad, torri rheolau Hawliau Eiddo Deallusol neu Gyfraith Hawlfraint.		2 farc	
7	5.7	Atebion wedi'u cwblhau	Disgrifiwch yn gryno bwrpas Trwyddedau Cyffredin Creadigol ar y Rhyngrwyd.		1 marc	

1	3.1, 3.2	**Cynllun cyn cynhyrchu**	Cyn dylunio eich gwefan mae'n bwysig eich bod yn deall yn union beth sydd ei angen. Yn gyntaf, mae angen i chi gyfweld â phennaeth marchnata'r Dref neu'r Ddinas (yr Asesydd) o'ch dewis, bydd angen i chi gael y wybodaeth ganlynol o'r cyfweliad: • y nod a chynnwys y wefan • unrhyw ofynion defnyddwyr • trefn amser ar gyfer cwblhau'r wefan. Ar ôl i chi gael y wybodaeth hon, bydd angen i chi lunio cynllun **byr** sy'n amlinellu'r manylion rydych wedi'u dysgu.	Mae'r ymgeisydd wedi cynhyrchu cynllun cyn cynhyrchu byr sy'n amlinellu'r pwyntiau canlynol (**dau** farc am bob pwynt a gwmpesir) • nod a chynnwys y wefan	( ) ( )
				• unrhyw ofynion defnyddwyr	( ) ( )
				• trefn amser ar gyfer cwblhau'r wefan	( ) ( )

2	4.1	**Dyluniadau**	Mae'r pennaeth marchnata wedi gofyn i chi ddylunio gwefan **pum** tudalen sy'n hysbysebu eu Tref neu Ddinas i dwristiaid. Mae angen i'r dyluniadau ddangos y canlynol: • cynllun pob tudalen • diagram llywio/bwrdd stori • fformat y cynnwys gan gynnwys CSS • unrhyw nodweddion rhyngweithiol • dolen e-bost ar gyfer ymholiadau • delweddau • unrhyw animeiddio. **Gellir tynnu'r cynlluniau â llaw neu eu tynnu gan ddefnyddio TGCh.**	Mae gwefan pum tudalen wedi'i chynllunio sy'n dangos: • cynllun pob tudalen (**un** marc ar gyfer pob tudalen)	**( ) ( ) ( ) ( ) ( ) ( )**
				• diagram llywio/bwrdd stori	**( )**
				• fformat y cynnwys gan gynnwys CSS (**un** marc y dudalen)	**( ) ( ) ( ) ( ) ( ) ( )**
				• unrhyw nodweddion rhyngweithiol (uchafswm o **ddau** farc)	**( ) ( )**
				• dolen e-bost ar gyfer ymholiadau	**( )**
				• delweddau	**( )**
				• unrhyw animeiddio.	**( )**

Tasg B	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
1	4.2	**Gwefan**	Gan ddefnyddio'r cynlluniau a grëwyd yn Nhasg A, adeiladwch wefan weithredol **pum** tudalen sy'n hysbysebu'r Dref neu'r Ddinas rydych chi wedi'i dewis. Sicrhewch fod eich gwefan orffenedig yn cynnwys y canlynol: • **pum** tudalen weithredol • unrhyw ddelweddau • llywio rhwng pob tudalen • **dwy** nodwedd ryngweithiol • dolen e-bost ar gyfer ymholiadau • **un** animeiddiad.	Gwefan orffenedig sy'n cynnwys y canlynol: • **pum** tudalen weithredol (**un** marc y dudalen)	( ) ( ) ( ) ( ) ( )
				• unrhyw ddelweddau	( )
				• llywio llawn (uchafswm **pum** marc)	( ) ( ) ( ) ( ) ( )
				• **dwy** nodwedd ryngweithiol e.e. mwyhau delweddau (**un** marc yr un)	( ) ( )
				• dolen e-bost ar gyfer ymholiadau	( )
				• **un** animeiddiad	( )

Tasg C	Cyfeirnod canlyniad	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
1	4.3	**Asesydd Arsylwi**	A'ch gwefan yn gyfan yn awr, gofynnwch i'r asesydd eich arsylwi chi wrth ichi gwblhau'r profion canlynol: • profi gweithrediad, agorwch eich gwefan mewn **dau** borwr gwe gwahanol • profwch eich llywio, gan ddangos gweithrediad **pob** dolen • profwch eich nodweddion rhyngweithiol.	Gwelodd yr arsylwad y profion canlynol: • gwefan wedi ei hagor yn iawn mewn **dau** borwr gwe gwahanol (**un** marc yr un)	**( ) ( )**
				• pob dolen lywio wedi gweithio (**un** marc yr un, uchafswm o **bum** marc)	**( ) ( ) ( ) ( ) ( ) ( )**
				• nodweddion rhyngweithiol wedi'u profi (**un** marc yr un, mwyafswm o **ddau** farc)	**( ) ( )**
Tasg C	**Canlyniad Cyfeirnod**	**Tystiolaeth a chofnodi**	**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr**	**Meini prawf marcio**	**Marcio**
1	1.1, 3.2	**Dalen Ateb**	**Defnyddiwch y Daflen Ateb a ddarparwyd i gwblhau Tasg Ch** Disgrifiwch **dair** cydran caledwedd a **thair** cydran meddalwedd sy'n galluogi mynediad i'r	Wedi disgrifio **tair** elfen caledwedd a **thair** meddalwedd sy'n galluogi mynediad i'r we (**un** marc yr un)	**( ) ( ) ( ) ( ) ( ) ( )**
2	1.2	**Dalen Ateb**	Esboniwch rôl y protocolau canlynol: • TCP/IP gan gynnwys IPv6 • HTTP • SMTP.	Wedi esbonio rôl y protocolau canlynol (**un** marc yr un) • TCP/IP gan gynnwys IPv6	**( )**
				• HTTP	**( )**
				• SMTP	**( )**

Tasg C	Canlyniad cyfeirnod	Tystiolaeth a chofnodi	Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr	Meini prawf marcio	Marcio
3	1.3	**Dalen Ateb**	Esboniwch rôl y canlynol: • Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd • Cofrestrydd enw parth • Gwasanaeth lletya gwe.	Wedi esbonio rôl y canlynol (**un** marc yr un): • Darparwr Gwasanaethau Rhyngrwyd	( )
				• Cofrestrydd enw parth	( )
				• Gwasanaeth lletya gwe	( )
4	1.4	**Dalen Ateb**	Nodwch a disgrifiwch yn gryno **bedwar** math o ffwythianoldeb gwe.	Wedi nodi a disgrifio **pedwar** math o ffwythianoldeb gwe (**un** marc yr un)	( ) ( ) ( ) ( )
5	2.1	**Dalen Ateb**	Esboniwch y defnydd o **ddwy** iaith Marcio i Fyny wahanol.	Wedi esbonio **dwy** iaith Marcio i Fyny wahanol (**un** marc yr un)	( ) ( )
6	2.2 , 2.3	**Dalen Ateb**	Eglurwch ddefnydd a ffwythianoldeb: • Amgylcheddau amser rhedeg y we • Ieithoedd rhaglennu cymwysiadau ar y we • Cronfeydd data gan gynnwys SQL • PHP.	Wedi esbonio defnydd a ffwythianoldeb y canlynol: (**un** marc yr un) • Amgylcheddau amser rhedeg y we	( )
				• Ieithoedd rhaglennu cymwysiadau ar y we	( )
				• Cronfeydd data gan gynnwys SQL	( )
				• PHP	( )
7	2.4	**Dalen Ateb**	Nodwch **un** cyfuniad pentwr nodweddiadol y gellir ei ddefnyddio ar gyfer datblygu'r we.	Wedi nodi **un** cyfuniad pentwr nodweddiadol y gellir ei ddefnyddio ar gyfer datblygu'r we	( )
Cyfanswm ( )					

Lefel 3 Datblygu'r we (7513-319)
Crynodeb marcio

City & Guilds

Am yr Ymgeisydd

Enw'r ymgeisydd		**Rhif cofrestru City & Guilds**	
Enw'r ganolfan		**Rhif y Ganolfan**	

Am yr asesiad

Dyddiad asesu		**Amser cychwyn** **Amser cwblhau**	
Nifer y ( ) a enillwyd			

Llwyddo – Rhaid i ymgeiswyr ennill **43** marc i lwyddo

Gradd gyffredinol a enillwyd	

Llofnodion

Ymgeisydd Llofnod		**Dyddiad**	
Enwebai ansawdd (os gwnaed sampl)		**Dyddiad**	
Asesydd Llofnod		**Dyddiad**	
Llofnod Sicrhäwr Ansawdd Allanol (os gwnaed sampl)		**Dyddiad**	

Am y ddogfen hon

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr holl asesu ar gyfer Lefel 3 Datblygu'r we (7513-319).

Iechyd a diogelwch

Gofynnir i chi ystyried pwysigrwydd arferion gweithio diogel bob amser.

Rydych chi'n gyfrifol am gynnal eich diogelwch eich hun a diogelwch pobl eraill. Caiff unrhyw un sy'n ymddwyn yn anniogel ei atal a rhoddir rhybudd addas iddo. **Ni** chewch chi barhau ag aseiniad os ydych chi'n torri unrhyw un o'r gofynion Iechyd a Diogelwch. Gall hyn ymddangos yn llym, ond ar wahân i ganlyniadau annymunol posibl, rhaid i chi feithrin arferion angenrheidiol ar gyfer y gweithle.

Amser a ganiateir

Yr amser a argymhellir ar gyfer yr aseiniad hwn yw **pedair awr.**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Amser a ganiateir: Pedair awr

Trefn Aseiniad:

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys **pedair** tasg:

- Tasg A – Dylunio gwefan pum tudalen
- Tasg B – Adeiladu gwefan pum tudalen weithredol
- Tasg C – Profi gwefan pum tudalen weithredol
- Tasg Ch – Gwybodaeth

Sylwer: Mae Tasg D yn gofyn am atebion ysgrifenedig i nifer o gwestiynau, a rhowch ddigon o amser i gwblhau'r dasg hon o fewn yr aseiniad.

Senario

Fel myfyriwr coleg ar gwrs TG sydd â diddordeb mawr mewn creu gwefannau, rydych wedi cael y cyfle i ddangos eich sgiliau a'ch gwybodaeth.

Gofynnir i chi ddylunio gwefan ymwelwyr ar gyfer tref neu ddinas o'ch dewis. Dylai'r wefan ddarparu gwybodaeth am atyniadau lleol, digwyddiadau diwylliannol, cyfleusterau chwaraeon, adeiladau o wahaniaeth ac ati.

Darllenwch yr holl gyfarwyddiadau'n ofalus a gwnewch y tasgau yn y drefn sy'n cael ei rhoi.

Tasg A – Dyluniwch wefan pum tudalen

1 Cyn dylunio eich gwefan mae'n bwysig eich bod yn deall yn union beth sydd ei angen. Yn gyntaf, mae angen i chi gyfweld â'r pennaeth marchnata ar gyfer y Dref neu'r Ddinas a ddewiswyd gennych (yr Asesydd), bydd angen i chi gael y wybodaeth ganlynol o'r cyfweliad:

- nod a chynnwys y wefan
- unrhyw ofynion defnyddwyr
- trefn amser ar gyfer cwblhau'r wefan.

Ar ôl i chi gael y wybodaeth hon, bydd angen i chi lunio cynllun **byr** sy'n amlinellu'r manylion rydych wedi'u dysgu.

2 Mae'r pennaeth marchnata wedi gofyn i chi ddylunio gwefan pum tudalen sy'n hysbysebu eu Tref neu Ddinas i dwristiaid. Mae angen i'r dyluniadau ddangos y canlynol:

- cynllun pob tudalen
- diagram llywio/bwrdd stori
- fformat y cynnwys gan gynnwys CSS
- unrhyw nodweddion rhyngweithiol
- dolen e-bost ar gyfer ymholiadau
- delweddau
- unrhyw animeiddio.

Gellir tynnu'r cynlluniau â llaw neu eu llunio gan ddefnyddio TGCh

Tasg B - Adeiladwch wefan pum tudalen weithredol

1 Gan ddefnyddio'r cynlluniau a grëwyd yn Nhasg A, adeiladwch wefan pum tudalen weithredol sy'n hysbysebu'r Dref neu'r Ddinas a ddewisoch chi.

Sicrhewch fod eich gwefan orffenedig yn cynnwys y canlynol:

- **pum** tudalen weithredol
- unrhyw ddelweddau
- llywio rhwng pob tudalen
- dwy nodwedd ryngweithiol
- dolen e-bost ar gyfer ymholiadau
- **un** animeiddiad.

Tasg C - Profwch wefan pum tudalen weithredol

1 A'ch gwefan yn gyfan yn awr, gofynnwch i'r asesydd eich arsylwi chi wrth ichi gwblhau'r profion canlynol:

- profi gweithrediad, agor eich gwefan mewn **dau** borwr gwe gwahanol
- profi eich llywio, gan ddangos gweithrediad pob dolen
- profi eich nodweddion rhyngweithiol.

Tasg Ch – Gwybodaeth

Defnyddiwch y Daflen Ateb a ddarparwyd i gwblhau Tasg Ch.

1 Disgrifiwch **dair** cydran caledwedd a **thair** cydran meddalwedd sy'n galluogi mynediad i'r we.

2 Esboniwch rôl y protocolau canlynol:

- TCP/IP gan gynnwys IPv6
- HTTP
- SMTP.

3 Esboniwch rôl y canlynol:

- Darparwr gwasanaethau rhyngrwyd
- Cofrestrydd enw parth
- Gwasanaeth lletya gwe.

4 Nodwch a disgrifiwch yn gryno **bedwar** math o ffwythianoldeb gwe.

5 Esboniwch y defnydd o **ddwy** iaith Marcio i Fyny wahanol.

6 Eglurwch ddefnydd a ffwythianoldeb:

- Amgylcheddau amser rhedeg y we
- Ieithoedd rhaglennu cymwysiadau ar y we
- Cronfeydd data gan gynnwys SQL
- PHP.

7 Nodwch **un** cyfuniad pentwr nodweddiadol y gellir ei ddefnyddio ar gyfer datblygu'r we.

Ar ôl i chi orffen gweithio:

- Llofnodwch bob dogfen uwchben eich enw a labelwch bob cyfrwng storio symudol â'ch enw.
- Rhowch yr holl waith papur a'r cyfryngau storio symudol i'ch asesydd.

Os yw'r aseiniad wedi'i wneud dros fwy nag un cyfnod, rhaid dychwelyd yr holl waith papur a'r cyfryngau symudol i arolygydd y prawf ar ddiwedd pob sesiwn.

Diwedd yr aseiniad

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Cwmpas yr aseiniad

Mae'r tabl isod yn nodi'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr uned hon.

Tasg	Tystiolaeth	Cyfeirnod Canlyniad dysgu / Meini prawf asesu
A	Ymchwiliwch a datblygwch strategaeth farchnata	1.1, 1.2,1.3, 1.4, 1.5, 1.6, 1.7, 1.8, 1.9 2.1, 2.3, 2.4, 2.5 3.1, 3.2, 3.3, 3.4, 3.5, 3.6, 3.7, 3.8 4.1, 4.2
B	Dadansoddiad SWOT gyda nodiadau cyfarfod a rhestr o argymhellion	4.3, 4.4, 4.5, 4.6, 4.7, 4.8, 4.9, 4.10, 4.11

Nodiadau canllaw

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr asesiad ar gyfer Uned 320 Lefel 3 Egwyddorion Marchnata a Gwerthuso.

Rhaid pwysleisio bob amser arferion gweithio diogel, galwadau deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch leol a chenedlaethol, rheoliadau cysylltiedig a Chodau Ymarfer cysylltiedig â'r diwydiant penodol. Mae gan ymgeiswyr gyfrifoldebau dros gynnal diogelwch eraill yn ogystal â'u diogelwch eu hunain. Rhaid atal unrhyw un sy'n ymddwyn yn anniogel a rhoi rhybudd addas iddo. Ni ddylid byth ganiatáu i ymgeiswyr barhau i weithio ar aseiniad os yw wedi torri'r gofynion hyn. Gall hyn ymddangos yn llym, ond ar wahân i ganlyniadau annymunol posibl, rhaid i bob ymgeisydd feithrin arferion angenrheidiol ar gyfer y gweithle.

Mae'r nodiadau canllaw canlynol yn cael eu darparu i gynorthwyo aseswyr wrth gynllunio cyflwyno'r aseiniad i ymgeiswyr.

1. Lleoliad a goruchwylio'r aseiniad

1.1 Unrhyw leoliad addas yng ngweithle ymgeiswyr neu'r amgylchedd dysgu. Os caiff ei gwblhau yn y gweithle, dylai'r ymgeisydd gwblhau datganiad i dystio mai eu gwaith eu hunain yw'r holl waith ac i nodi ble y cwblhawyd y gwaith. Rhaid i'r datganiad hwn hefyd gael ei lofnodi gan dyst addas e.e. rheolwr llinell. Mae copi o'r ffurflen hon ar gael ar wefan City & Guilds.

1.2 Rhaid cwblhau pob rhan o'r aseiniad, ac eithrio unrhyw ofynion ymchwil a bennir yn Adran 3 isod, o dan oruchwyliaeth. Gall y goruchwyliwr fod yn rheolwr llinell yr ymgeisydd (neu'n debyg), tiwtor neu asesydd. Ni chaniateir symud neu gwblhau unrhyw rannau o'r aseiniad i ffwrdd o'r amgylchedd dan oruchwyliaeth. Mae hyn yn golygu y bydd yr holl weithgareddau'n cael eu cwblhau gyda'r asesydd, neu oruchwylydd dynodedig arall, yn bresennol.

1.3 Cyn cymryd yr aseiniad hwn, dylid rhoi i ymgeiswyr yr wybodaeth a geir yn Adran 3, isod. **Ni** chaiff ymgeiswyr yr aseiniad ei hun cyn yr asesiad. **Ni** chaiff ymgeiswyr fynediad i'r meini prawf marcio ar unrhyw adeg.

2. Cyfarpar angenrheidiol ar gyfer yr aseiniad hwn

2.1 Argymhellir bod ymgeiswyr yn cael mynediad i feddalwedd prosesu geiriau, argraffydd a llungopïwr, ond nid yw hyn yn orfodol.

2.2 Gall gwaith yr ymgeiswyr fod naill ai'n ysgrifenedig neu gael ei gynhyrchu'n electronig.

2.3 E-bortffolio - gall portffolios ymgeiswyr gynnwys canlyniadau'r asesu ond ni ddylent gynnwys Deunyddiau Asesu City & Guilds (fel tasgau asesu neu gwestiynau neu sgriptiau ymgeiswyr wedi'u marcio, oni bai y nodir fel arall).

3. Nodiadau ar gynnwys yr aseiniad hwn

3.1 Gellir cymryd yr aseiniad hwn fel rhan o weithgarwch gwaith go iawn, mewn amgylchedd gwaith realistig neu fel rhan o unrhyw weithgaredd dysgu addas megis gweithdy hyfforddi. Rhaid i aseiniadau a gyflwynir fod yn waith i'r ymgeisydd unigol.

3.2 Os nad yw'r ymgeisydd wedi'i leoli yn y gwaith neu os nad yw'n gallu seilio'r aseiniad ar eu gweithle, gallant ddefnyddio'r senario a roddir.

4. Tystiolaeth a chofnodi

4.1 Dylid cadw'r holl waith a gynhyrchir gan yr ymgeisydd gyda'i gilydd. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd roi ei enw a'i rif cofrestru ar bob darn o waith.

4.2 Bydd angen i ymgeiswyr allu trefnu eu gwybodaeth yn glir ac yn gydlynol.

4.3 Caniateir i ymgeiswyr airbrosesu eu gwaith.

5. Ystyriaethau amser

5.1 Argymhellir lwfans amser o bedair awr ar gyfer cwblhau'r aseiniad, a ddylai ddigwydd o dan amodau dan oruchwyliaeth. Felly, dylid cynnal yr holl weithgareddau ymchwil cyn y sesiwn a'u heithrio o'r lwfans amser. Nid oes angen cwblhau'r aseiniad hwn mewn un sesiwn a gellir ei gwblhau fesul tasg er bod yn rhaid i'r ymgeisydd gwblhau log amser, gan gofnodi'r amseroedd a gymerwyd i gwblhau'r aseiniad.

5.2 Os caiff aseiniad ei gwblhau dros sawl sesiwn, rhaid i'r gwaith gael ei roi fesul tasg a rhaid i'r tiwtor/asesydd gasglu'r gwaith a gynhyrchwyd a'r deunydd asesu ar ddiwedd pob sesiwn a'u cadw'n ddiogel.

5.3 Os bydd ymgeisydd yn methu tasg, dylent gymryd yr un aseiniad amgen. Argymhellir y dylai isafswm o saith diwrnod fod wedi mynd heibio cyn y gall ymgeisydd aflwyddiannus gymryd yr un aseiniad. Dylid rhoi hyfforddiant/adborth pellach i ymgeiswyr cyn i aseiniad gael ei ail-gymryd.

6. Gwybodaeth ychwanegol

6.1 Mae'r atebion a roddir yn y meini prawf marcio a graddio yn arwydd o'r math o atebion y dylai ymgeiswyr eu rhoi. Nid ydynt yn derfynol.

6.2 Dylai tiwtor/aseswyr ddefnyddio eu barn broffesiynol ar safon cyflwyno'r gwaith a gyflwynir gan yr ymgeisydd.

Meini prawf graddio

Dylid ticio pob un o'r pwyntiau canlynol os ydynt wedi'u cyflawni'n foddhaol a rhoi croes os nad ydynt. Os nad yw pwynt yn berthnasol dylid rhoi croes drwyddo a nodi'r rhesymau pam nad yw'n berthnasol. **Mae'r atebion a roddir yn y meini prawf marcio a graddio yn arwydd o'r math o atebion y dylai ymgeiswyr eu rhoi. Nid ydynt yn derfynol; dylid defnyddio barn broffesiynol. Enghreifftiau yn unig yw pob achos a ddyfynnir oni nodir fel egwyddor sefydledig.** Dylid rhoi credyd os cyfeirir at achosion priodol eraill. Mae darpariaeth hefyd i rai meini prawf dewisol gael eu dyfarnu mewn achosion priodol. Dylai'r rhain gael eu dyfarnu'n unig lle cânt eu cyfiawnhau gan waith ymgeisydd.

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
A		**Strategaeth farchnata gyda nodiadau ymchwil manwl** wedi'i chynhyrchu Diffiniwch y term Segment Marchnad.	☐ ☐	
	1.1	Esboniodd bwysigrwydd diffinio segment y farchnad. *Atebion posibl:* • nodi anghenion cwsmeriaid posibl • dealltwriaeth o ymddygiad y farchnad • dealltwriaeth o faint marchnad bosibl.		○

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	1.2	Esboniodd y gwahaniaeth rhwng segment marchnad a dosbarthiad cwsmeriaid, gan roi **un** enghraifft o segment marchnad ac **un** enghraifft o ddosbarthiad cwsmeriaid. *Atebion posibl:* Segment marchnad • oed • rhyw • crefydd • diwylliant • incwm • dull o fyw. Dosbarthiad cwsmeriaid • cwsmeriaid busnes • cwsmeriaid hamdden.		○ ○
	1.3	Nododd nodweddion, cymhellion ac ymddygiad cwsmeriaid targed posibl *Atebion posibl:* • trwy eu pwrcasiadau • trwy ddadansoddiad o ymddygiad • eu pŵer gwneud penderfyniadau.		○

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	1.4	Esboniodd sut i glystyru cwsmeriaid sydd â nodweddion tebyg. *Atebion posibl:* • yn helpu i ffurfio'r cynllun marchnata • canllaw ar brisio • yn rhoi ffocws i'r strategaeth farchnata.		○
	1.5	Cadarnhawyd bod segmentau arfaethedig yn real, yn benodol, yn hyfyw a bod eu prynu'n fesuradwy. *Atebion posibl:* • wedi cynnwys cyfiawnhad byr bod y segment/segmentau marchnad a ddewiswyd yn real, yn nodedig, yn hyfyw a bod eu pŵer prynu yn fesuradwy.		○
	1.6	Esboniodd sut i werthuso proffidioldeb a sefydlogrwydd segment y farchnad. *Atebion posibl:* wedi cynnwys esboniad o sut i werthuso'r segmentau marchnad a ddewiswyd o ran proffidioldeb a sefydlogrwydd, ynghyd ag ystadegau realistig i gefnogi'r dewis.		○
	1.7	Wedi disgrifio sut y gall ystod o gynhyrchion neu wasanaethau apelio at wahanol segmentau marchnad. *Atebion posibl:* wedi cynnwys sut y gall tri neu ragor o wahanol gynhyrchion neu wasanaethau apelio at wahanol grwpiau o unigolion drwy segmentu (e.e. Graffigol, Demograffig, Ymddygiadol, Seicograffig).		○

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	1.8	Esboniodd **ddau** o'r ysgogwyr a/neu'r rhwystrau sy'n dylanwadu ar ymddygiad cwsmeriaid. *Atebion posibl:* wedi cwmpasu'n gryno **ddau** o'r canlynol: • dyheadau • dull o fyw • incwm • amser • statws • teulu.		○ ○
	1.9	Esboniodd **dri** defnydd o Reoli Cysylltiadau Cwsmeriaid. *Atebion posibl:* • CRM yn cynnig gwybodaeth am gwsmeriaid presennol a'u pryniannau • yn caniatáu i sefydliad asesu tueddiadau • yn caniatáu i sefydliad asesu newidiadau marchnad.		○ ○ ○
		Cyfleoedd marchnad wedi'u hasesu.	☐	
	2.1	Wedi disgrifio'r ffactorau economaidd ac ymddygiad prynwyr y mae angen eu hystyried. *Atebion posibl:* wedi cyfeirio at ffactorau ymddygiadol economaidd a phrynwyr mewn perthynas â'r cynnyrch/gwasanaeth a ddewiswyd y mae'n rhaid eu hystyried ac roedd yn cynnwys **un** o'r canlynol: • tymhorol • dirwasgiad • trethiant • lefelau cyflogaeth		○

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	2.2	Wedi disgrifio'r ffactorau diwylliannol sy'n debygol o effeithio ar ganfyddiad cwsmeriaid o'r cynnyrch/gwasanaeth a pherfformiad gwerthiant. *Ateb posibl:* wedi cynnwys cyfeiriad at **un** o'r ffactorau diwylliannol a oedd yn debygol o effeithio ar ganfyddiad cwsmeriaid o'r cynhyrchion/gwasanaeth a'r perfformiad gwerthu a ddewiswyd a allai fod yn: • cyflenwad a galw • demograffeg.		○
	2.3	Esboniodd sut i nodi a) y cyfleoedd a b) y bygythiadau yn y marchnadoedd newydd ac ar gyfer y cynnyrch/gwasanaeth. *Atebion posibl:* a) cyfleoedd • llenwi bwlch yn y farchnad • cynnyrch/gwasanaeth arloesol. • newydd i'r segment marchnad penodol. b) bygythiadau • cystadleuaeth • rhy ddrud • segment anghywir y farchnad wedi'i ddewis.		○ ○
	2.4	Esboniodd sut y gallai gweithgarwch cystadleuwyr a darpar gystadleuwyr effeithio ar berfformiad gwerthiant rhagamcanol. *Atebion posibl:* • lleihau'r farchnad bosibl • cyflwyno cynnyrch/gwasanaeth tebyg • cynnig disgowntiau • prisiau is		○

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	2.5	Esboniodd sail yr argymhellion i fanteisio ar gyfleoedd newydd yn y farchnad. *Atebion posibl:* • ymchwil • nodi bylchau yn y farchnad • galw cwsmeriaid • cadw i fyny â'r dechnoleg /tueddiadau diweddaraf.		○
	3.1	Strategaeth farchnata Wedi disgrifio'r pynciau y dylid mynd i'r afael â hwy yn eich strategaeth farchnata. *Atebion posibl:* • cynllun marchnata • amgylcheddau mewnol ac allanol • cymysgedd marchnata • datganiad cenhadaeth • amcan marchnata • ymchwil • prisio.		○ ○ ○ ○ ○ ○ ○
	3.2	Esboniodd ddefnyddio'r dadansoddiad o'r farchnad i lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth farchnata. *Atebion posibl:* wedi cynnwys cyfeiriad at y ffactorau mewnol ac allanol, cwsmeriaid a marchnadoedd a chystadleuwyr. Cafodd hyn ei gysylltu'n glir ag adrannau perthnasol y strategaeth farchnata i gefnogi'r penderfyniadau a wnaed.		○
	3.3	Esboniodd sut i werthuso risgiau i gyflawni amcanion. *Atebion posibl:* yn dibynnu ar y cynnyrch/gwasanaeth a ddewiswyd ar ymchwil a wnaed gyda chanfyddiadau'r ymchwil hon. Roedd yr amcanion yn rhai CAMPUS/SMART.		○

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	3.4	Wedi disgrifio sut i ragweld gwerthiant yn ôl cynnyrch a/neu wasanaeth. *Atebion posibl:* yn dibynnu ar y cynnyrch/gwasanaeth a ddewiswyd ar ymchwil a wnaed gyda chanfyddiadau'r ymchwil hon. Roedd yr amcanion yn rhai CAMPUS/SMART.		○
	3.5	Esboniodd sut i gyflwyno'r strategaeth farchnata, gan gynnwys **un** o bob un o'r canlynol: (3.5) a) nodau b) amcanion c) camau ch) atebolrwydd d) adnoddau dd) cyllidebau a rhagolygon. *Atebion posibl:* yn dibynnu ar y cynnyrch/gwasanaeth a ddewiswyd ar ymchwil a wnaed gyda chanfyddiadau'r ymchwil hon. Roedd yr amcanion yn rhai CAMPUS/SMART.		○○ ○○ ○○
	3.6	Esboniodd bwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r strategaeth farchnata. *Atebion posibl:* yn dibynnu ar y cynnyrch/gwasanaeth a ddewiswyd ar ymchwil a wnaed gyda chanfyddiadau'r ymchwil hon. Roedd yr amcanion yn rhai CAMPUS/SMART.		○

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	3.7	Esboniodd arwyddocâd teyrngarwch cwsmeriaid i gyflawni'r strategaeth farchnata gan roi **dau** ffyrdd o wneud hyn. *Atebion posibl:* arwyddocâd teyrngarwch cwsmeriaid yw cynyddu gwerthiant, annog ailadrodd busnes, annog y cwsmeriaid i wneud y brand y dewis cyntaf yn hytrach na chystadleuwyr. Dyma ffyrdd posibl o wneud hyn: • cynigion arbennig • disgowntiau • cardiau teyrngarwch • lefel uwch o wasanaeth.		○ ○
	3.8 4.1 4.2	Gosododd a) un dangosydd perfformiad a b) un trefniant gwerthuso sy'n gallu mesur enillion ar fuddsoddiad. *Atebion posibl:* a) dangosydd perfformiad • ffigurau gwerthiant • elw • trosiant. b) trefniant gwerthuso: • dadansoddiad cost a budd • arolwg boddhad cwsmeriaid.		○ ○
I basio Tasg A, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r holl feini prawf a ddangosir fel ☐ a **35** o'r meini prawf a ddangosir fel ○.			**Llwyddo / Methu** **Nifer** ○ _____	

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
B		Cynhyrchwyd **dadansoddiad SWOT**	☐	
	4.3	Esboniodd gryfderau a gwendidau gwahanol ddulliau gwerthuso, gan roi **un** cryfder ac **un** cryfder **dau** ddull gwahanol. *Atebion posibl:* bydd hyn yn dibynnu ar y dulliau a ddewiswyd.		○ ○ ○ ○
	4.4	Wedi disgrifio sut i adnabod tueddiadau a themâu o ddata gwerthuso. *Atebion posibl:* roedd nodiadau'r cyfarfod yn cefnogi'r tueddiadau a'r themâu a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad SWOT.		○
	4.5	Wedi disgrifio sut i sicrhau dibynadwyedd a dilysrwydd data gwerthuso. *Atebion posibl:* cofnod clir a chywir o'r cyfarfod wedi'i osod allan yn rhesymegol gyda nodiadau i sicrhau dehongliad cywir wrth gynhyrchu dadansoddiad SWOT.		○
	4.6	Esboniodd sut i sicrhau lefel dderbyniol o hyder ystadegol. *Atebion posibl:* ymgynghori digonol a dehongli cywir yn y dadansoddiad SWOT.		○
	4.7	Esboniodd sut i fynd i'r afael â materion allweddol a ddatgelwyd drwy werthuso. *Atebion posibl:* wedi cynhyrchu rhestr o argymhellion a ddeilliodd o'r gwerthusiad a allai fod yn ddiwygiadau i'r data, dangosyddion perfformiad allweddol neu gyllidebau.		○

Tasg	Cyfeirnod Canlyniad	Meini prawf marcio	Marcio	
	4.8	Wedi cyfiawnhau ac esbonio argymhellion a chasgliadau gyda thystiolaeth gysylltiedig. *Atebion posibl:* Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r cyfarfod.		○
	4.9	Esboniodd y dadansoddiad effaith yn y broses werthuso. *Atebion posibl:* asesu a yw'r strategaeth wedi cyflawni ei chanlyniad.		○
	4.10	Esboniodd bwysigrwydd marchnata i gyflawni amcanion a strategaethau busnes. *Atebion posibl:* • rhoi gwybod i gwsmeriaid am gynhyrchion/gwasanaethau • yn cyfrannu i gynhyrchu refeniw • yn hyrwyddo delwedd gadarnhaol y sefydliad.		○
	4.11	Wedi disgrifio'r cysylltiadau rhwng cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a strategaethau marchnata. *Atebion posibl:* wedi cynnwys cyfeiriad at gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol megis: • cyfrifoldeb y gymuned • masnach foesegol.		○
I basio Tasg B, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r **holl** feini prawf a ddangosir fel ☐ ac **8** maen a ddangosir fel ○.			**Llwyddo / Methu** **Nifer** ○ _____	

Enw'r ymgeisydd | **Rhif yr ymgeisydd**

Enw'r Ganolfan | Rhif y Ganolfan

Tasg		Gradd a enillwyd
A	Ymchwiliwch a datblygwch strategaeth	Llwyddo/
B	Cynhyrchwch ddadansoddiad SWOT gyda nodiadau cyfarfod a rhestr o argymhellion	Llwyddo/ Methu

Rhaid pasio pob tasg i ganiatáu i radd gael ei hawlio.

Rwy'n gallu cadarnhau mai fy ngwaith fy hun yw'r dystiolaeth sydd wedi'i rhestru ar gyfer yr uned hon a'i fod wedi ei wneud yn yr amodau a'r cyd-destun a nodwyd yn y fanyleb asesu.

Llofnod yr ymgeisydd | Dyddiad

Rwy'n cadarnhau bod yr ymgeisydd wedi cyflawni holl ofynion yr uned hon gyda'r dystiolaeth a restrir a bod yr asesiad wedi ei gynnal o dan yr amodau a'r cyd-destun penodol, a'i fod yn ddilys, yn awthentig, yn ddibynadwy, yn gyfredol ac yn ddigonol.

Llofnod tiwtor/asesydd | Dyddiad

Llofnod Cydlynydd Sicrhau Ansawdd (os gwnaed sampl) | Dyddiad

Llofnod Ymgynghorydd Cymhwyster (os gwnaed sampl) | Dyddiad

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Cynghorir chi i ddarllen yr holl gyfarwyddiadau'n ofalus cyn dechrau'r gwaith a gwirio gyda'ch Asesydd/Tiwtor, os oes angen, i sicrhau eich bod wedi deall y broses yn llawn.

Rhaid i chi, bob amser, gadw at yr holl ofynion Iechyd a Diogelwch perthnasol.

Iechyd a diogelwch

Rhaid pwysleisio ar bob adeg bwysigrwydd arferion gweithio diogel, galwadau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974; (HASWA) neu reoliadau iechyd a diogelwch cenedlaethol a/ neu leol, rheoliadau cysylltiedig a Chodau Ymarfer cysylltiedig â diwydiant penodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfarwyddebau oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd (UE) lle y bo'n briodol. Mae gan ymgeiswyr gyfrifoldebau dros gynnal diogelwch eraill yn ogystal â'u diogelwch eu hunain. Rhaid atal unrhyw un sy'n ymddwyn yn anniogel a rhoi rhybudd addas iddo. Ni ddylid byth ganiatáu i ymgeiswyr barhau aseiniad os yw wedi torri'r gofynion hyn. Gall hyn ymddangos yn llym, ond ar wahân i ganlyniadau annymunol posibl, rhaid i bob ymgeisydd feithrin arferion angenrheidiol ar gyfer y gweithle.

Os na all ymgeiswyr gwblhau'r cyflwyniad yn seiliedig ar eu gweithle eu hunain, yna dylai ymgeiswyr ymchwilio i weithleoedd eraill, fel y ganolfan lle darperir hyfforddiant, lleoliad profiad gwaith, coleg, llyfrgell gyhoeddus neu ganolfan iechyd a ffitrwydd. **Rhaid** cytuno ar hyn gyda'r asesydd cyn i'r ymgeisydd ddechrau'r ddogfen.

Mae amser o **bedair awr** wedi'i argymell ar gyfer yr aseiniad hwn.

- Dylech geisio cwblhau pob tasg.
- Gallwch gyfeirio at y polisi neu weithdrefnau yn eich sefydliad eich hunain.
- Gellir defnyddio geiriaduron.

Amser a ganiateir: Pedair awr

Cyflwyniad
Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys **dwy** dasg.

Tasg A
Rhaid cyflwyno'r Strategaeth Farchnata gan gynnwys y Cynllun Marchnata mewn **un** ddogfen y gellir ei chynhyrchu â llaw neu'n electronig. Gall hyn fod wedi ei hargraffu neu ar ffurf electronig.
Rhaid i ymchwil a nodiadau ategol gyd-fynd â'r ddogfen.

Tasg B
Gellir cynhyrchu'r dadansoddiad SWOT â llaw neu'n electronig a dylai gynnwys nodiadau ategol a rhestr o argymhellion.

Nodiadau
- Ar ôl gorffen yr aseiniad hwn, rhowch yr holl waith papur i'ch asesydd/tiwtor.
- Sicrhewch fod eich enw a'ch rhif cofrestru ar bob dogfen.

Tasg A Ymchwilio a datblygu strategaeth farchnata

Ymchwiliwch a datblygwch strategaeth farchnata ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth newydd y mae eich sefydliad yn ei gynnig a chynhwyswch nodiadau manwl ar yr ymchwil. Os na allwch ddatblygu strategaeth farchnata yn seiliedig ar eich gweithle eich hun, yna dylech ymchwilio i weithleoedd eraill, fel y ganolfan lle darperir hyfforddiant, lleoliad profiad gwaith neu goleg.

Rhaid i'r strategaeth farchnata gynnwys yr adrannau a'r cynnwys canlynol:

- Diffinio'r term Segment Marchnad
  - pwysigrwydd diffinio segment y farchnad
  - y gwahaniaeth rhwng segment marchnad a dosbarthiad cwsmeriaid, gan roi **un** enghraifft **un** enghraifft o ddosbarthiad cwsmeriaid
  - sut i nodi nodweddion, cymhellion ac ymddygiad cwsmeriaid targed posibl
  - sut i glystyru cwsmeriaid sydd â nodweddion tebyg
  - sut i gadarnhau bod segmentau arfaethedig yn real, yn nodedig, yn hyfyw a bod eu pŵer prynu'n fesuradwy
  - sut i werthuso proffidioldeb a sefydlogrwydd segment y farchnad
  - sut y gall ystod o gynnyrch neu wasanaethau apelio at wahanol segmentau marchnad
  - **dau** gymhellydd a/neu rwystrydd sy'n dylanwadu ar ymddygiad cwsmeriaid
  - **tri** defnydd o Reoli Cysylltiadau Cwsmeriaid.

- Asesu cyfleoedd marchnad
  - y ffactorau economaidd ac ymddygiad prynwyr y mae angen eu hystyried
  - y ffactorau diwylliannol sy'n debygol o effeithio ar ganfyddiad cwsmeriaid o'r cynnyrch/gwasanaeth a pherfformiad gwerthiant
  - sut i nodi:
    - cyfleoedd
    - bygythiadau i'r marchnadoedd newydd ac i'r cynnyrch/gwasanaeth.
  - sut y gallai cystadleuwyr a darpar gystadleuwyr effeithio ar berfformiad rhagamcanol gwerthiannau
  - esboniad o sail yr argymhellion i fanteisio ar gyfleoedd newydd yn y farchnad.

- Strategaeth farchnata
  - y pynciau y dylid mynd i'r afael â hwy yn eich strategaeth farchnata
  - y defnydd o ddadansoddi'r farchnad i lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth farchnata
  - sut i werthuso risgiau i gyflawni amcanion
  - sut i ragweld gwerthiant yn ôl cynnyrch a/neu wasanaeth
  - sut i gyflwyno eich strategaeth farchnata, gan gynnwys **un** o **bob un** o'r canlynol:
    a) nodau
    b) amcanion
    c) camau
    ch) atebolrwydd
    d) adnoddau
    dd) cyllidebau a rhagolygon.
  - pwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu eich strategaeth farchnata
  - arwyddocâd teyrngarwch cwsmeriaid i gyflawni'r strategaeth farchnata gan roi **dwy** ffordd o wneud hyn
  - un dangosydd perfformiad ac un trefniant gwerthuso sy'n gallu mesur enillion ar fuddsoddiad.

Tasg B Cynhyrchu dadansoddiad SWOT

Cynhyrchwch ddadansoddiad SWOT i werthuso effeithiolrwydd posibl y strategaeth farchnata a gynhyrchir yn Nhasg A. Dylai hyn gael ei wneud mewn **tri** cham.

Yn gyntaf cynhaliwch gyfarfod / sesiwn tanio syniadau gyda phartïon â diddordeb. Gallai'r rhain fod yn rheolwr llinell, cydweithwyr a darpar randdeiliaid, neu eich tiwtor, cyd-fyfyrwyr a darpar randdeiliaid. Dylai fod rhwng dau a phump o bobl yn cymryd rhan. Dylid cymryd digon o nodiadau yn y cyfarfod i ganiatáu i ddadansoddiad SWOT gael ei gynhyrchu. Bydd angen cyflwyno'r nodiadau hyn i'w hasesu, ynghyd â'r dadansoddiad SWOT.

Yn ail, cynhyrchwch ddadansoddiad SWOT. Mae templed wedi'i ddarparu i chi ei ddefnyddio neu efallai y byddwch yn defnyddio eich un eich hun.

Yn drydydd, cynhyrchwch restr o argymhellion a luniwyd yn dilyn y gwerthusiad gan ddadansoddiad SWOT.

Rhaid i'r nodiadau, y grid a'r rhestr o argymhellion gynnwys y canlynol:

- cryfderau a gwendidau gwahanol ddulliau gwerthuso, gan roi **un** cryfder ac **un** gwendid **dau** ddull gwahanol.
- disgrifiad, gan nodi tueddiadau a themâu o ddata gwerthuso
- sut i sicrhau dibynadwyedd a dilysrwydd data gwerthuso
- sut i gyflawni lefel dderbyniol o hyder ystadegol
- sut i fynd i'r afael â materion allweddol a ddatgelwyd drwy werthuso
- cyfiawnhau'r argymhellion a chasgliadau gyda thystiolaeth gysylltiedig
- esboniad o ddadansoddi effaith yn y broses werthuso
- esboniad o bwysigrwydd marchnata i gyflawni amcanion busnes a strategaethau
- disgrifiad o'r dolenni rhwng cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a strategaethau marchnata.

Lefel 3 Egwyddorion marchnata a gwerthuso (7513-320)

Templed ymgeisydd

Enw'r ymgeisydd	**Rhif yr ymgeisydd**
Enw'r ganolfan	Rhif y ganolfan

Cryfderau	**Gwendidau**
Cyfleoedd	**Bygythiadau**

Llofnod tiwtor/asesydd	Dyddiad
Llofnod Cydlynydd Sicrhau Ansawdd (os gwnaed sampl)	Dyddiad

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Lefel 3 Egwyddorion marchnata perthnasoedd rhanddeiliaid (7513-328)

Cynnwys yr aseiniad

Cwmpas yr aseiniad

Mae'r tabl isod yn nodi'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer yr uned hon.

Tasg	Tystiolaeth	Cyfeirnod Canlyniad Dysgu/ meini prawf asesu
A	Cyflwyniad sleidiau gyda nodiadau	1.1, 1.2, 1.3, 1.4, 1.5, 1.6, 1.7 2.1, 2.2, 2.3, 2.4, 2.5
B	Siart sefydliadol	2.6
C	Adroddiad	3.1, 3.2, 3.3, 3.4, 3.5, 3.6, 3.7

Lefel 3 Egwyddorion marchnata perthnasoedd rhanddeiliaid (7513-328)

Cyflwyniad – Gwybodaeth i aseswyr sy'n marcio

Nodiadau canllaw

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys yr asesiad ar gyfer Lefel 3 Egwyddorion marchnata perthnasoedd rhanddeiliaid (7513-328).

Rhaid pwysleisio bob amser arferion gweithio diogel, galwadau deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch leol a chenedlaethol, rheoliadau cysylltiedig a Chodau Ymarfer cysylltiedig â'r diwydiant penodol. Mae gan ymgeiswyr gyfrifoldebau dros gynnal diogelwch eraill yn ogystal â'u diogelwch eu hunain. Rhaid atal unrhyw un sy'n ymddwyn yn anniogel a rhoi rhybudd addas iddo. Ni ddylid byth ganiatáu i ymgeiswyr barhau i weithio ar aseiniad os yw wedi torri'r gofynion hyn. Gall hyn ymddangos yn llym, ond ar wahân i ganlyniadau annymunol posibl, rhaid i bob ymgeisydd feithrin arferion angenrheidiol ar gyfer y gweithle.

Mae'r nodiadau canllaw canlynol yn cael eu darparu i gynorthwyo aseswyr wrth gynllunio cyflwyno'r aseiniad i ymgeiswyr.

1. Lleoliad a goruchwylio'r aseiniad

1.1 Unrhyw leoliad addas yng ngweithle ymgeiswyr neu'r amgylchedd dysgu. Os caiff ei gwblhau yn y gweithle, dylai'r ymgeisydd gwblhau datganiad i dystio mai eu gwaith eu hunain yw'r holl waith ac i nodi ble y cwblhawyd y gwaith. Rhaid i'r datganiad hwn gael ei lofnodi gan dyst addas, e.e. rheolwr llinell. Mae copi o'r ffurflen hon ar gael ar wefan City & Guilds.

1.2 Rhaid cwblhau pob rhan o'r aseiniad, ac eithrio unrhyw ofynion ymchwil a bennir yn Adran 3 isod, o dan oruchwyliaeth. Gall y goruchwyliwr (neu berson tebyg), tiwtor neu asesydd fod yn rheolwr llinell yr ymgeisydd. Ni chaniateir symud neu gwblhau unrhyw rannau o'r aseiniad i ffwrdd o'r amgylchedd dan oruchwyliaeth. Mae hyn yn golygu y bydd yr holl weithgareddau'n cael eu cwblhau gyda'r asesydd, neu oruchwylydd dynodedig arall, yn bresennol.

1.3 Cyn cymryd yr aseiniad hwn, dylid rhoi i ymgeiswyr yr wybodaeth a geir yn Adran 3, isod. **Ni** chaiff ymgeiswyr yr aseiniad ei hun cyn yr asesiad. **Ni** chaiff ymgeiswyr fynediad i'r meini prawf marcio ar unrhyw adeg.

2. Cyfarpar angenrheidiol ar gyfer yr aseiniad hwn

2.1 Argymhellir bod ymgeiswyr yn cael mynediad i feddalwedd prosesu geiriau, argraffydd a llungopïwr, ond nid yw hyn yn orfodol.

2.2 Gall gwaith yr ymgeisydd fod wedi'i ysgrifennu â llaw neu ei gynhyrchu'n electronig.

2.3 E-bortffolio - gall portffolios ymgeiswyr gynnwys canlyniadau'r asesu ond ni ddylent gynnwys Deunyddiau Asesu City & Guilds (fel tasgau asesu neu gwestiynau neu sgriptiau ymgeiswyr wedi'u marcio, oni bai y nodir fel arall).

2.4 Cofnodi llafar ar gyfer cwestiynau ateb byr yn unig – efallai y byddai'n well gan diwtoriaid/aseswyr ofyn y cwestiynau ar lafar a chofnodi ymatebion ymgeiswyr unigol. Os caiff dyfais cofnodi electronig ei defnyddio:

- rhaid i'r tiwtor/asesydd a'r ymgeisydd nodi pwy ydynt ar ddechrau'r recordiad
- caiff y cwestiynau eu gofyn a rhaid recordio ymatebion yr ymgeisydd yn glir
- rhaid cadw a ffeilio'r ffeiliau data mewn modd sy'n sicrhau eu diogelwch a'u rhwyddineb adalw at ddibenion dilysu.

Nodiadau ar gynnwys yr aseiniad hwn

3.1 Gellir cymryd yr aseiniad hwn fel rhan o weithgarwch gwaith go iawn, mewn amgylchedd gwaith realistig neu fel rhan o unrhyw weithgaredd dysgu addas megis gweithdy hyfforddi. Rhaid i aseiniadau a gyflwynir fod yn waith yr ymgeisydd unigol.

3.2 Os nad yw'r ymgeisydd wedi'i leoli yn y gwaith, dylai'r tiwtor/asesydd mewn trafodaeth â'r ymgeisydd ddewis sefydliad addas a fydd yn galluogi'r ymgeisydd i gyflawni gofynion y dasg.

3. Tystiolaeth a chofnodi

4.1 Dylid cadw'r holl waith a gynhyrchir gan yr ymgeisydd gyda'i gilydd. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd roi ei enw a'i rif cofrestru ar bob darn o waith.

4.2 Bydd angen i ymgeiswyr allu trefnu eu gwybodaeth yn glir ac yn gydlynol.

4.3 Caniateir i ymgeiswyr airbrosesu eu gwaith.

4. Ystyriaethau amser

5.1 Argymhellir lwfans amser a argymhellir o **dair awr** ar gyfer cwblhau'r aseiniad, a ddylai ddigwydd o dan oruchwyliaeth. Felly, dylid cynnal yr holl weithgareddau ymchwil cyn y sesiwn a'u heithrio o'r lwfans amser. Nid oes angen cwblhau'r aseiniad hwn mewn un sesiwn a gellir ei gwblhau fesul tasg er bod yn rhaid i'r ymgeisydd gwblhau log amser, gan gofnodi'r amseroedd a gymerwyd i gwblhau'r aseiniad.

5.2 Os caiff aseiniad ei gwblhau dros sawl sesiwn, rhaid i'r gwaith gael ei roi fesul tasg a rhaid i'r tiwtor/asesydd gasglu'r gwaith a gynhyrchwyd a'r deunydd asesu ar ddiwedd pob sesiwn a'u cadw'n ddiogel.

5.3 Os bydd ymgeisydd yn methu tasg, dylent gymryd yr un aseiniad. Argymhellir y dylai isafswm o saith diwrno fod wedi mynd heibio cyn y gall ymgeisydd aflwyddiannus gymryd yr un aseiniad. Dylid rhoi hyfforddiant/adborth pellach i ymgeiswyr cyn i aseiniad gael ei ail-gymryd.

5. Gwybodaeth ychwanegol

6.1 Mae'r atebion a roddir yn y meini prawf marcio a graddio yn arwydd o'r math o atebion y dylai ymgeiswyr eu rhoi. Nid ydynt yn derfynol.

6.2 Dylai tiwtor/aseswyr ddefnyddio eu barn broffesiynol ar safon cyflwyno'r gwaith a gyflwynir gan yr ymgeisydd.

Meini prawf graddio

Dylid ticio pob un o'r pwyntiau canlynol os ydynt wedi'u cyflawni'n foddhaol a rhoi croes os nad ydynt. Os nad yw pwynt yn berthnasol dylid rhoi croes drwyddo a nodi'r rhesymau pam nad yw'n berthnasol. **Mae'r atebion a roddir yn y meini prawf marcio a graddio yn arwydd o'r math o atebion y dylai ymgeiswyr eu rhoi. Nid ydynt yn derfynol; dylid defnyddio barn broffesiynol. Enghreifftiau yn unig yw pob achos a ddyfynnir oni nodir fel egwyddor sefydledig.** Dylid rhoi credyd os cyfeirir at achosion priodol eraill. Mae darpariaeth hefyd i rai meini prawf dewisol gael eu dyfarnu mewn achosion priodol. Dim ond pan fo gwaith ymgeisydd yn cyfiawnhau'r rhain y dylid dyfarnu'r rhain.

Tasg	Canlyniad cyfeirnod	Meini prawf marcio	Marcio	
A		**Cyflwyniad sleidiau gyda nodiadau** wedi'i gynhyrchu	☐	
	1.1	Nodwyd **tri** rhanddeiliad. *Atebion posibl:* • cwsmeriaid mewnol • cwsmeriaid allanol • rhanddeiliaid • cymuned. ○ Esboniodd pam mae angen meithrin perthynas â rhanddeiliaid. *Atebion posibl:* • mae angen nodi a blaenoriaethu perthnasoedd rhanddeiliaid gan eu bod yn cael effaith hollbwysig ar gynllun marchnata sefydliad.		○ ○ ○ ○

Tasg	Canlyniad cyfeirnod	Meini prawf marcio	Marcio	
	1.3 1.2	○ Esboniodd sut i flaenoriaethu rhanddeiliaid. *Atebion posibl:* • eu dosbarthu yn ôl eu dylanwad ar y gwaith • eu dosbarthu yn ôl eu diddordeb yn y gwaith. ○ Esboniodd y defnydd o fapio perthnasoedd rhanddeiliaid wrth ddatblygu ffyrdd o feithrin perthnasoedd. *Atebion posibl:* • deall nodau gwahanol randdeiliaid fel y gellid ystyried y nodau • dealltwriaeth o bwy sy'n debygol o gefnogi neu sy'n debygol o rwystro unrhyw brosiect marchnata • deall y dulliau cyfathrebu a ddefnyddir a phryd.		○ ○
	1.4	Esboniodd y sleid arwyddocâd rhanddeiliaid i gyflawni'r strategaeth farchnata gyffredinol, gan roi **dwy** enghraifft. *Atebion posibl:* Gall rhanddeiliaid effeithio a dylanwadu ar y canlynol: • elw • twf • perfformiad • canfyddiad • cyllideb.		○ ○

Tasg	Canlyniad cyfeirnod	Meini prawf marcio	Marcio	
	1.5	Disgrifiodd y sleid **ddwy** o nodweddion y farchnad y mae rhanddeiliaid yn gweithredu ynddi gan ddangos *Atebion posibl:* • gwleidyddol • economaidd • cymdeithasol • technolegol • cyfreithiol • moesegol.		○ ○
	1.6	Wedi disgrifio sut i ganfod agweddau rhanddeiliaid at sefydliad. *Ateb posibl:* • drwy gynnal ymchwil addas a allai fod mewn arolwg mewnol, grŵp ffocws, holiadur neu gyfweliad.		○
	1.7	Sleid a ddisgrifiodd **ddau** synergedd gwirioneddol a phosibl a dau wrthdaro rhwng cleientiaid a rhanddeiliaid eraill. *Atebion posibl:* Gall synergeddau gynnwys y canlynol: • mae gwerth am arian i gleient yn bwysig tra bod rhanddeiliad am gael elw • cefnogi'r amgylchedd drwy reoli gwastraff/ prynu moesegol/ pecynnu moesegol • mae llai o bacio'n ecogyfeillgar / arbed cost / rheoli gwastraff • labelu clir yw sicrhau cydymffurfiaeth a ffeithiau clir i'r cwsmer • hawliadau cywir yw sicrhau cydymffurfiad a ffeithiau clir i'r cwsmer.		○ ○

Tasg	Canlyniad cyfeirnod	Meini prawf marcio	Marcio	
		Gallai gwrthdaro fod: • nid gwerth am arian lle gall y cleient wrthdaro â'r rhanddeiliad • gall gweithgynhyrchu/masnachu anfoesegol fod yn rhad sydd yn ei dro yn gwrthdaro â buddiant cleientiaid/ rhanddeiliaid • bydd hawliadau anghywir yn achosi i'r cleient beidio ag ymddiried yn y brand a gall effeithio ar werthiannau ac elw posibl • mae cynhyrchion anniogel yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth a allai wneud i'r cleient beidio ag ymddiried yn y brand a gall effeithio ar werthiannau ac elw posibl.		○ ○
	2.1	Esboniodd sut i nodi nodau cyffredin a synergedd posibl rhwng rhanddeiliaid a sefydliad. *Ateb posibl:* • ymgynghori â'r defnyddiwr a rhanddeiliaid i ganfod anghenion drwy ymchwil.		○
	2.2 2.3	Esboniodd a) pwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid mewn gweithgareddau marchnata a b) rhoddodd **un** enghraifft o gynllun cyfathrebu â rhanddeiliaid. *Atebion posibl:* a) yn caniatáu i'w hanghenion a'u dymuniadau canfyddedig a gwirioneddol gael eu diwallu drwy adeiladu eu gofynion yn y cynllun marchnata gan osgoi gwrthdaro buddiannau posibl. b) Cynllun cyfathrebu • cytundebau lefel gwasanaeth • cynnwys gwefan • rheoli cyfrifon • diweddariadau		○ ○
		Cafodd **dau** o ofynion allweddol strategaeth rheoli cystadleuwyr eu cynnwys a'u hesbonio.		

Tasg	Canlyniad cyfeirnod	Meini prawf marcio	Marcio	
	2.4	*Atebion posibl:* • wedi cael gwybodaeth am y farchnad • wedi dadansoddi strategaethau prisio • nododd gryfderau/gwendidau • wedi nodi bylchau yn y farchnad.		○ ○
	2.5	Esboniodd bwysigrwydd cytuno ar amcanion cyffredin gyda chleientiaid gan roi **dau** reswm. *Atebion posibl:* • eglurhad o'r cynnyrch/gwasanaeth i'w ddarparu • cytundeb ar brisiau a threfnau amser • rhwystro camddealltwriaethau • yn caniatáu cynllunio ac amserlennu realistig.		○ ○
I basio Tasg A, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r **holl** feini prawf a ddangosir fel ☐ a **18** maen prawf a ddangosir fel ○.			**Llwyddo / Methu** **Nifer ○ _____**	

Tasg	Canlyniad cyfeirnod	Meini prawf marcio	Marcio	
B		**Siart sefydliadol** wedi'i gynhyrchu	☐	
